Rhaglen Gyflawn

# CABINET

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Dydd Mawrth, 3ydd Mai, 2016 |
| **AMSER** | 1.00 y.h. |
| **LLEOLIAD** | Siambr Hywel Dda, Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH |
| **PWYNT CYSWLLT** | Sophie Hughes<br>01286 679729<br>cabinet@gwynedd.gov.uk |

## AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

| **Aelodau** | |
|---|---|
| Dyfed Wyn Edwards | Arweinydd |
| Dyfrig L. Siencyn | Dirprwy Arweinydd |
| Peredur Jenkins | Aelod Cabinet Adnoddau |
| John Wynn Jones | Aelod Cabinet Amgylchedd |
| Dafydd Meurig | Aelod Cabinet Cynllunio a Rheoleiddio |
| W. Gareth Roberts | Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| Mair Rowlands | Aelod Cabinet Plant, Pobl Ifanc a Hamdden |
| Gareth Thomas | Aelod Cabinet Addysg |
| Ioan Thomas | Aelod Cabinet Tai, Gofal Cwsmer, Llyfrgelloedd, Amddifadedd a Chydraddoldeb |
| Mandy Williams-Davies | Aelod Cabinet Economi a Chymuned |

# RHAGLEN

| | Eitem | Cyflwynir gan | Swyddog | Tud. |
|---|---|---|---|---|
| 1 | YMDDIHEURIADAU | | | |
| 2 | DATGAN BUDDIANT PERSONOL | | | |
| 3 | MATERION BRYS | | | |
| 4 | MATERION YN CODI O BWYLLGORAU CRAFFU<br><br>Argymhellion y Pwyllgor Craffu Corfforaethol | Cyng/Cllr. Dyfrig Siencyn | Vera Jones | 1 - 2 |
| 5 | COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR Y 15fed O FAWRTH 2016 | | | 3 - 6 |
| 6 | STRATEGAETH TECHNOLEG GWYBODAETH (2016-18) | Cyng/Cllr. Peredur Jenkins | Huw Ynyr | 7 - 61 |
| 7 | YMATEB I OFYNION RHAN 8 O DDEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (CYMRU) 2014 | Cyng/Cllr. William Gareth Roberts a Cyng/Cllr. Mair Rowlands | A. Morwena Edwards | 62 - 96 |
| 8 | YMATEB I OFYNION RHAN 9 O DDEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (CYMRU) 2014 | Cyng/Cllr. William Gareth Roberts a Cyng/Cllr. Mair Rowlands | A. Morwena Edwards | 97 - 106 |
| 9 | TROSOLWG PERFFORMIAD CYNGOR GWYNEDD 2015/16<br>MEYSYDD PLANT A PHOBL IFANC, Y GYMRAEG, CYNGOR EFFEITHIOL AC EFFEITHLON A CHYNLLUNIO ARIANNOL | Cyng/Cllr. Dyfed Edwards | Hawis Jones | 107 - 137 |

## CYFARFOD CABINET 3ydd MAI 2016

## ARGYMHELLION Y PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL, 3ydd RHAGFYR, 2015

### A. EITEM – STRATEGAETH CAFFAEL CYNGOR GWYNEDD: RHEOLAETH CATEGORI A CHADW'R BUDD YN LLEOL

Ystyriwyd - Adroddiad gan yr Aelod Cabinet Economi (Cynghorydd Mandy Williams-Davies) ar y datblygiad hyd yma wrth gyflwyno rheolaeth categori fel trefn newydd o gaffael yn y Cyngor, gan gynnwys unrhyw wersi a ddysgwyd trwy brofiadau'r maes Gofal hyd yma. Ystyriwyd hefyd yr elfen o gadw'r budd yn lleol wrth gaffael a pha gamau oedd yn cael eu cymryd i annog busnesau lleol i ddatblygu.

Penderfynwyd

a) Nid oes tystiolaeth hyd yma os yw trefniadau rheolaeth categori yn rhagori ar y drefn flaenorol. Dylid monitro cynnydd ar y strategaeth gaffael drwy'r pwyllgor hwn ymhen 6 mis, ac yn rheolaidd wedi hynny.
b) Nodi pryder ynglŷn ag effaith unrhyw doriadau posib' ar allu adrannau. Nodwyd pryder yn arbennig ar gyfer yr Adran Economi a Chymuned, i yrru'r elfen leol ac effaith hynny ar ffyniant economaidd y sir yn fwy cyffredinol.
c) Y dylid gwreiddio'r strategaeth yn egwyddorion Ffordd Gwynedd, drwy wrando'n gyson ar y negeseuon sy'n dod yn ôl gan y sector leol ac addasu'r strategaeth yn unol â hynny.
d) Y dylid ceisio sicrhau cefnogaeth i hybu a chreu cyfleoedd i fusnesau lleol, mentrau cymdeithasol ayyb i ddatblygu busnesau trwy adnabod y bylchau sydd yn y farchnad, gan gynnwys annog unigolion i sefydlu busnesau o'r newydd
e) Y dylid lledaenu'r neges ar draws y Cyngor, fel bod pawb yn gwybod ac yn deall yn glir beth yw'r drefn newydd.

## ARGYMHELLION Y PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL, 4ydd CHWEFROR, 2016

### B. EITEM – STRATEGAETH TECHNOLEG GWYBODAETH DDRAFFT

Ystyriwyd – Adroddiad gan yr Aelod Cabinet Adnoddau (Cynghorydd Peredur Jenkins) a'r Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid yn manylu ar gynnwys y strategaeth TG ddrafft. Fel rhan o'r trafodaethau, ystyriwyd gwerth am arian ac effeithlonrwydd, gan graffu gwybodaeth costau a bodlonrwydd cwsmer.

Penderfynwyd

a) Argymell y dylid sicrhau eglurder am lwyddiant y strategaeth flaenorol ac esbonio hynny yn glir ar y dechrau, gan ei ddefnyddio fel sail i'r strategaeth newydd. Bydd hyn yn ein galluogi i fesur cynnydd. Argymhellir bod angen i'r gwasanaeth adnabod ac asesu lle mae'r Cyngor wedi cyrraedd, pa wersi a ddysgwyd hyd yma, gan ymgorffori'r wybodaeth fel sail i'r strategaeth newydd.
b) Mae angen i'r Strategaeth TG fod yn hyblyg i ymateb i ofynion y cwsmer (pan fo'r anghenion hynny'n glir) a bod mor hyblyg â phosib' o fewn cyfyngiadau diogelwch.

c) Dylid ystyried ymyriad Ffordd Gwynedd yn y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth yn fuan. Fe all yr ymyrraeth ryddhau adnoddau a allai gael eu defnyddio yn y mannau sy'n cael eu crybwyll yn y Strategaeth.

**ARGYMHELLION Y PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL, 14 EBRILL, 2016**

**C. EITEM – BUDD I WYNEDD O GADW'R TRETH FUSNES**

Mewn trafodaeth yn ymwneud â threthi busnes yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ym mis Hydref 2015, bu i Aelod dynnu i sylw'r Cyngor fod Llywodraeth ganolog yn Lloegr wedi penderfynu fod cynghorau lleol Lloegr am gael cadw'r dreth busnes i gyd er mwyn ei ail fuddsoddi yn lleol. Esboniwyd nad dyma'r sefyllfa yng Nghymru.

Ystyriwyd – Adroddiad gan yr Aelod Cabinet Adnoddau (Cynghorydd Peredur Jenkins), y Pennaeth Cyllid a'r Uwch Reolwr Refeniw a Risg yn amlinellu'r sefyllfa debygol i Wynedd petai Llywodraeth Cymru yn gosod yr un amodau yng Nghymru. Pwrpas y craffu oedd sicrhau a fyddai'r un drefn yng Nghymru yn debygol o arwain at fuddiannau, colledion, cyfleon neu beryglon i Wynedd. Gellid penderfynu yn dilyn y gwaith os oedd y Cyngor am gysylltu gyda'r Llywodraeth yng Nghymru.

Penderfynwyd

a) Ymddengys fod y sefyllfa yn Lloegr yn gymhleth. O ystyried y ffeithiau a gyflwynwyd, nid oes sicrwydd a fyddai budd i Wynedd o dan yr un amodau i Gymru. Yn wir, mae'n ymddangos y byddai risgiau sylweddol i Wynedd.

b) Mae'r Pwyllgor yn argymell felly na ddylid ysgrifennu at y Llywodraeth yng Nghymru ar hyn o bryd i ofyn am yr un telerau i Gymru.

c) Pe cyfyd mwy o fanylion am ddatblygiadau tebyg i Gymru, argymhellir fod y Pwyllgor Craffu Corfforaethol yn gwneud gwaith craffu pellach ar y mater bryd hynny.

# Y CABINET DYDD MAWRTH, 15 MAWRTH 2016

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwr: Dyfed Wyn Edwards, Dyfrig L. Siencyn, Peredur Jenkins, John Wynn Jones, Dafydd Meurig, W. Gareth Roberts, Mair Rowlands, Gareth Thomas, Ioan Thomas a Mandy Williams-Davies

**Hefyd yn bresennol-**
Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dafydd L. Edwards (Pennaeth Cyllid), Iwan G. Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol), Dafydd Gibbard, Hawis Jones (Rheolwr Cynllunio Strategol a Pherfformiad), Elliw Llyr (Strategic Housing Manager), Meilys Heulfryn Smith (Uwch Reolwr Busnes) a Dafydd Tudur Jones (Rheolwr Adnoddau Ariannol), Bethan Richardson (Arweinydd Tîm Cefnogi Cabinet – cofnod).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Iwan Trefor Jones.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw fater brys.

## 4. MATERION YN CODI O BWYLLGORAU CRAFFU

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o Bwyllgorau Craffu.

## 5. COFNODION CYFARFOD A GYNHALIWYD AR YR 16EG O CHWEFROR 2016

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y Cabinet a gynhaliwyd ar 16eg o Chwefror 2016.

## 6. STRATEGAETH LETYA POBL HŶN

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. W Gareth Roberts.

Eiliwyd yr adroddiad gan y Cyng. Ioan Thomas.

**PENDERFYNIAD**

Mabwysiadu Strategaeth Letya Pobl Hŷn.

## 7. MODEL ARIANNOL AR GYFER TAI FFORDDIADWY

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Ioan Thomas.

Eiliwyd yr adroddiad gan y Cyng. Dafydd Meurig.

**PENDERFYNIAD**

Er mwyn cyflawni prosiectau strategol i ddiwallu rhai o'r anghenion tai yn y Sir, bwrw ymlaen i ddarparu benthyciadau o fewn Cynlluniau Tai Gofal Ychwanegol, Darpariaeth ar Gyfer y Digartref, Ymddiriedolaeth Tir a Tai Gwag i Ddefnydd, lle ceir sicrwydd trwy ernes neu warant briodol ac amodau cymesur sydd i'w pennu mewn ymgynghoriad gyda'r Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol ar gyfer pob cynllun unigol.

Rhoi hawl i'r Uwch Reolwr Tai weithredu gyda chymeradwyaeth y Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol.

## 8. CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2016-20

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Ioan Thomas.

Eiliwyd yr adroddiad gan y Cyng. Mair Rowlands.

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwyo Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20 Cyngor Gwynedd.

## 9. TROSOLWG PERFFORMIAD CYNGOR GWYNEDD 2015/16

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Dyfed Edwards.

**PENDERFYNIAD**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod.

## 10. EFFAITH Y DDEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (CYMRU) 2014 AR BOLISI CODI TÂL GWASANAETHAU OEDOLION

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. W Gareth Roberts.

Eiliwyd yr adroddiad gan y Cyng. Peredur Jenkins.

**PENDERFYNIAD**

1. Cadarnhau fod Cyngor Gwynedd yn ymarfer y disgresiwn a ganiateir gan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, i godi tâl am Wasanaethau Gofal i Oedolion o'r 6/04/2016 ymlaen.
2. Mabwysiadu Polisi Codi Tâl newydd y Gwasanaeth Oedolion fydd yn weithredol o'r 6/04/2016.
3. Cymeradwyo'r ffioedd am wasanaethau gofal ar gyfer 2016/17.
4. Rhoi caniatâd i'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant i gychwyn ymgynghoriad ym mis Mai 2016 ar newidiadau sydd eu hangen i'r Polisi Codi Tâl.

## 11. CYNLLUN RHEOLI ASEDAU EIDDO

The report was submitted by Cllr. Dafydd Meurig.

The report was seconded by Cllr. John Wynn Jones.

**DECISION**

Adopt the Asset Management Plan and the Property Policies to strengthen and support what has already been acheived through the Corporate Property Strategy, subject to -

- revisiting Property Policy 3 'After-use of School Sites Surplus to Requirements'
- revisit clause 9 in the 'Property Disposal Policy', namely capital receipts that come from disposing property.

## 12. GWERTHIANT CYN SAFLE YSGOL YR HENDRE, CAERNARFON

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Dafydd Meurig.

Eiliwyd yr adroddiad gan y Cyng. Dyfrig Siencyn.

**PENDERFYNIAD**

Defnyddio pwerau Caniatâd Gwaredu Cyffredinol (Cymru) 2003 i werthu cyn safle Ysgol yr Hendre, Caernarfon, yn uniongyrchol i Gartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG) am lai na gwerth y farchnad er mwyn sicrhau buddiannau cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol.

## 13. BLAENRAGLEN WAITH CABINET CYNGOR GWYNEDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Dyfed Edwards.

Eiliwyd yr adroddiad gan y Cyng. W Gareth Roberts.

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwyo'r Flaenraglen a gynhwyswyd yn y papurau i'r cyfarfod.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 2.55 y.h.

______________________________

**CADEIRYDD**

Eitem 6

**ADRODDIAD I'R CABINET**
3 Mai 2016

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Peredur Jenkins, Aelod Cabinet Adnoddau

**Pwnc:** Strategaeth Technoleg Gwybodaeth (2016-2018)

**Swyddog cyswllt:** Huw Ynyr, Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth a Trawsnewid Busnes

---

**Y penderfyniad a geisir**
I fabwysiadu'r Strategaeth Technoleg Gwybodaeth

---

**Cyflwyniad / Cefndir**

Mae'r Strategaeth Technoleg Gwybodaeth flaenorol bellach wedi dod i ddiwedd ei oes ac mae'n amser cyflwyno Strategaeth TG o'r newydd, sy'n adeiladu ar lwyddiannau'r strategaeth flaenorol, gan osod sylfaen o ddefnyddio technoleg i gynnal gwasanaethau effeithiol ac effeithlon i fobol Gwynedd.

Mae'r Strategaeth TG diweddaraf yn eistedd o fewn cyfnod ansicr iawn ar gyfer llywodraeth leol. Bydd pwysau ariannol cynyddol yn parhau i fod yn ddylanwad mawr ar gynlluniau'r Cyngor ar gyfer darparu gwasanaethau ac yn debyg o barhau heibio i oes y strategaeth hon.

Mae holl wasanaethau Cyngor yn dibynnu ar systemau TG mewn rhyw ffurf. Mewn rhai achosion, bydd hyn yn amlwg ac yn cael ei ddefnyddio'n uniongyrchol i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd, ac ar achosion bydd yn llai gweledol ac yn chwarae rôl gefnogol y tu ôl i'r llenni. Yr hyn sy'n glir, fodd bynnag, pan fyddo'n cael ei ddefnyddio'n gywir, mae TG yn arf critigol ac yn alluogwr pan ddaw i wella gwasanaethau a lleihau costau darparu gwasanaethau. Mae'r strategaeth hon yn adeiladu ar lwyddiant y strategaeth flaenorol ond yn hytrach na rhoi'r dechnoleg fel canolbwynt y strategaeth, mae'n defnyddio egwyddorion a themâu i wneud yn siŵr bod y busnes yn arwain y strategaeth a'r dechnoleg yn cael ei ddarparu i gefnogi hyn. Mae ymgynghoriad wedi ei gynnal gyda'r Bwrdd Llywodraethu TG, Penaethiaid Adran a Chyfarwyddwyr a staff y Gwasanaeth TG tra'n paratoi'r Strategaeth.

Mae'r Strategaeth TGCh yn ffurfio gofynion TGCh cyffredinol y Cyngor gan gefnogi'r gwaith o gyflawni nifer o'i nodau strategol:

· Rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud
· Gwella ymgysylltu gyda chymunedau ar yr her gofal
· Gwella gweithio'n integredig gan ganolbwyntio ar yr hyn sy'n cyfri i unigolion
· Paratoi'r gweithlu gofal er mwyn cwrdd â'r ffordd newydd o weithio

· Hybu defnydd y Gymraeg yng Ngwynedd
· Sicrhau cyllideb gytbwys gynaliadwy i'r dyfodol

**Pwrpas y Strategaeth**
Pwrpas y Strategaeth TG yw i osod gweledigaeth o sut all datblygiadau a gwelliannau technegol gyfarch a chynlluniau strategol y Cyngor. Mae'r strategaeth yn adolygu llwyddiant y strategaeth flaenorol ac yn edrych ar yr heriau sy'n wynebu'r Cyngor yn ystod y dair blynedd nesaf, gan amlygu y gall y cynlluniau strategol hyn newid pe byddai blaenoriaethau strategol y Cyngor yn newid.

Mae'r strategaeth wedi ei rannu i ddwy ddogfen:

· Strategaeth TG 2016-2018 y weledigaeth—mae hon yn ddogfen sy'n rhoi cyflwyniad i'r strategaeth, edrych yn ôl ar lwyddiannau'r strategaeth blaenorol, cyflwyno themâu penodol sy'n gyswllt cyffredin i nifer o ddatblygiadau ac yn gosod egwyddorion cryf sy'n greiddiol ar gyfer datblygu gwasanaeth TG sy'n gwella'r Cyngor

· Strategaeth TG 2016-2018 gwireddu'r weledigaeth—mae'r ddogfen yma'n adeiladu ar y cyflwyniad a roddwyd yn y weledigaeth gan gyflwyno manylion am weithgareddau oddi fewn y themâu, gan fanylu ym mhellach ar y buddion a'r ymdrech o gwblhau'r gweithgareddau hyn. Yn ogystal a trefnu'r gweithgareddau i themâu penodol, mae'r themâu eu hunain yn cael eu paru gydag amcanion cynllun strategol y Cyngor.

Mae'r cynlluniau sydd yn y strategaeth yn darparu gwasanaeth fydd yn cyflwyno gwelliannau parhaus i'r Cyngor gan ddefnyddio technoleg i gefnogi gwasanaethau effeithiol ac effeithlon i bobol Gwynedd.

**Rhesymau dros argymell y penderfyniad**
Bod y Cyngor yn mabwysiadu'r Strategaeth Technoleg Gwybodaeth a gyflwynir yn atodiadau A a B er mwyn cynnal a darparu technoleg sy'n cynnig gwelliannau parhaus i'r Cyngor a bobol Gwynedd.

---

**Camau nesaf ac amserlen**
Bod y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth yn mabwysiadu'r strategaeth a bod cynnydd y strategaeth yn cael ei adrodd fel rhan o drefniadau monitro perfformiad y Cyngor.

---

**Barn yr aelod lleol**
Dim yn berthnasol, nid yw'n fater lleol

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**

Mae Technoleg yn adnodd bwysig i gefnogi gwelliant parhaus yng ngwasanaethau'r Cyngor i drigolion. Mae cael Strategaeth Technoleg Gwybodaeth gadarn yn ei le yn ofyn pwysig er mwyn gwneud hynny.

Mae'n bwysig bod y Stategaeth yn adlewyrchu ar yr hyn a gyflawnwyd ac yn dysgu gwersi o'r gorffennol. Mae darn penodol o'r Stategaeth yn gwneud hynny. Yr elfen allweddol arall yw bod y Strategaeth yn dangos ei fod yn hyblyg a bod ein defnydd o adnoddau technolegol yn ymateb i anghenion gwasanaeth penodol ar gyfer y dyfodol.

**Y Swyddog Monitro:**

Mae sefyldu strategaeth TG yn gyfraniad pwysig at lywodraethu'r awdurdod ac nid oes gennyf sylwadau i'w cynnig o safbwynt priodoldeb

**Y Pennaeth Cyllid:**

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**Atodiadau**

Atodiad A - Strategaeth TG (2016-2018) Y Weledigaeth
Atodiad B - Strategaeth TG (2016-2018) Gwireddu Y Weledigaeth



# Strategaeth TG (2016-2018)

## Y Weledigaeth

(dogfen #1 mewn cyfres o 2)

FFORDD GWYNEDD





# Cyflwyniad

Mae'r Strategaeth TGCh diweddaraf yn eistedd o fewn cyfnod ansicr iawn ar gyfer llywodraeth leol. Bydd pwysau ariannol cynyddol yn parhau i fod yn ddylanwad mawr ar gynlluniau'r Cyngor ar gyfer darparu gwasanaethau ac yn debyg o barhau heibio i oes y strategaeth hon.

Mae holl wasanaethau Cyngor yn dibynnu ar systemau TGCh mewn rhyw ffurf. Mewn rhai achosion, bydd hyn yn amlwg ac yn cael ei ddefnyddio'n uniongyrchol i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd, ac ar achosion bydd yn llai gweledol ac yn chwarae rôl gefnogol y tu ôl i'r llenni. Yr hyn sy'n glir, fodd bynnag, pan fyddo'n cael ei ddefnyddio'n gywir, mae TGCh yn arf critigol ac yn alluogwr pan ddaw i wella gwasanaethau a lleihau costau darparu gwasanaethau. Mae'r strategaeth hon yn adeiladu ar lwyddiant y strategaeth flaenorol ond yn hytrach na rhoi'r dechnoleg fel canolbwynt y strategaeth, mae'n defnyddio egwyddorion a themâu i wneud yn siŵr bod y busnes yn arwain y strategaeth a'r dechnoleg yn cael ei ddarparu i gefnogi hyn. Mae ymgynghoriad wedi ei gynnal gyda'r Bwrdd Llywodraethu TG, Penaethiaid Adran a Chyfarwyddwyr a staff y Gwasanaeth TG tra'n paratoi'r Strategaeth.

**Mae'r Strategaeth TGCh yn ffurfio gofynion TGCh cyffredinol y Cyngor gan gefnogi'r gwaith o gyflawni nifer o'i nodau strategol:**

- **Rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud**
- **Gwella ymgysylltu gyda chymunedau ar yr her gofal**
- **Gwella gweithio'n integredig gan ganolbwyntio ar yr hyn sy'n cyfri i unigolion**
- **Paratoi'r gweithlu gofal er mwyn cwrdd a'r ffordd newydd o weithio**
- **Hybu defnydd y Gymraeg yng Ngwynedd**



# Pwrpas y Strategaeth



Pwrpas y Strategaeth TG yw i osod gweledigaeth o sut all datblygiadau a gwelliannau technegol gyfarch a chynlluniau strategol y Cyngor. Mae'r strategaeth yn adolygu llwyddiant y strategaeth flaenorol ac yn edrych ar yr heriau sy'n wynebu'r Cyngor yn ystod y dair blynedd nesaf, gan amlygu y gall y cynlluniau strategol hyn newid pe byddai blaenoriaethau strategol y Cyngor yn newid.

Mae'r strategaeth wedi ei rannu i ddwy ddogfen:

- Strategaeth TG 2016-2018 y weledigaeth—mae hon yn ddogfen sy'n rhoi cyflwyniad i'r strategaeth, edrych yn ôl ar lwyddiannau'r strategaeth blaenorol, cyflwyno themâu penodol sy'n gyswllt cyffredin i nifer o ddatblygiadau ac yn gosod egwyddorion cryf sy'n greiddiol ar gyfer datblygu gwasanaeth TG sy'n gwella'r Cyngor

- Strategaeth TG 2016-2018 gwireddu'r weledigaeth—mae'r ddogfen yma'n adeiladu ar y cyflwyniad a roddwyd yn y weledigaeth gan gyflwyno manylion am weithgareddau oddi fewn y themâu, gan fanylu ym mhellach ar y buddion a'r ymdrech o gwblhau'r gweithgareddau hyn. Yn ogystal a trefnu'r gweithgareddau i themâu penodol, mae'r themâu eu hunain yn cael eu paru gydag amcanion cynllun strategol y Cyngor.

Mae'r cynlluniau sydd yn y strategaeth yn darparu gwasanaeth fydd yn cyflwyno gwelliannau parhaus i'r Cyngor gan ddefnyddio technoleg i gefnogi gwasanaethau effeithiol ac effeithlon i bobol Gwynedd.

Gweithgareddau newydd sy'n cael sylw yn y strategaeth, ac nid yw'n cyfeirio at y gweithgareddau lu sy'n cael eu cefnogi gan y gwasanaeth TG yn barod. Mae'r gweithgareddau dyddiol yn cynnwys cefnogi 2,550 o staff swyddfa a'r dechnoleg maent yn eu defnyddio, sy'n cynnwys y canlynol, ond ddim wedi ei gyfyngu i'r rhestr isod:

- Cyfrifiaduron a gliniaduron
- iPads, ffonau symudol a ffôn sydd ar y ddesg
- Argraffyddion
- Y meddalwedd sydd ar y cyfrifiadur
- Diogelwch
- Datblygu a chefnogi meddalwedd arbenigol
- Cysylltedd rhwydwaith ardal eang, ardal lleol a di-wifr
- Gweithgareddau Desg Gymorth
- Y Ganolfan Ddata



# Llwyddiant y strategaeth flaenorol



O blith y pedwar deg wyth o brosiectau a nodwyd yn y strategaeth flaenorol, mae deugain yn gyflawn, chwech ar waith a dau heb eu dechrau. Mae disgwyl i'r rhai ar waith gael eu cwblhau erbyn diwedd 2014/15 ac mae angen ail asesu'r ddau sydd heb eu dechrau. Yn ogystal, mae prosiectau strategol eraill na chawsant eu hadnabod yn wreiddiol yn y strategaeth flaenorol wedi cael eu cwblhau yn yr un cyfnod. Mae'r llwyddiant hwn nid yn unig yn darparu sylfaen ar gyfer darparu gwasanaethau a phrosiectau TGCh strategol i'r dyfodol, ond mae hefyd yn rhoi llawer iawn o hyder yng ngallu'r Cyngor i ddarparu ei raglen TGCh fel y rhagwelwyd, tra'n cydnabod y pwysau mae hyn yn ei roi ar y gwasanaeth TGCh ei hun. Mae'r hyder hwn yn cael ei gefnogi ymhellach wrth ystyried y nifer fawr o brosiectau gwasanaeth penodol sydd hefyd wedi cael eu cwblhau yn ystod y cyfnod hwn.

48 tasg wedi eu hadnabod yn y Strategaeth

- 40 wedi eu cwblhau
- 6 ar waith
- 2 heb eu dechrau





## Cynnydd Y Strategaeth Flaenorol—yr effaith a gafwyd

Mae'r strategaeth flaenorol wedi gosod llwyfan cadarn ar gyfer cyflwyno gwasanaethau TG i'r dyfodol, hyn yn bennaf oherwydd ei fod wedi canolbwyntio ar gryfhau'r isadeiledd a phrosesau datblygu. Er yn eitemau technegol, mae'r newidiadau a wnaethpwyd wedi cael effaith bositif ar y gwasanaeth a hyn yn ei dro yn gwella profiadau'r defnyddwyr.

Mae sefydlu'r ganolfan ddata newydd a rhithio'r gweinyddwyr wedi gwneud gwahaniaeth mawr, ac wedi newid sefyllfa o rwystredigaeth ac amser segur o fethu gweithio ar systemau sy'n gwasanaethu'r cyhoedd. Roedd argaeledd rhai o'n systemau mwyaf yn wael ac yn aml ni fyddent ar gael i'r defnyddiwr oherwydd problemau perfformiad neu broblem yn ymwneud ac un darn o gyfarpar yn methu ac yn cael effaith ar y system i gyd. Nid yn unig bod rhithio'n gweinyddwyr wedi gwella perfformiad y systemau, ond mae'r rhain yn gweithredu ar draws sawl gweinyddwr, a phe bai problem yn amlygu ei hun ar un, fe fyddai'r llwyth yn cael ei rannu ar draws y gweddill tra bo peirianwyr yn datrys y broblem. Yr effaith ar hyn yw bod argaeledd y systemau hyn bellach yn agos i 100%, ac eithriad llwyr fyddai diffyg mynediad, gyda hyn yn ei dro yn cynnig gwasanaeth llawer gwell i bobol Gwynedd. Y systemau a welwyd y buddion hyn yw'r rhai sy'n cefnogi gweithgareddau budd daliadau, treth y cyngor a tai, gyda'r newidiadau wedi gael effaith bositif ar oll o systemau'r Cyngor.

Yn ogystal a'r esiampl a ddefnyddiwyd uchod, mae'r newidiadau a wnaethpwyd i'r isadeiledd yn mynd yn ddyfnach, ond yr effaith yn gymharol i'r hyn a eglurwyd, gydag argaeledd systemau gwella. Mae'r ganolfan ddata newydd yn llawer fwy gwydn. Yn flaenorol, byddwn yn colli gwasanaethau sawl gwaith y flwyddyn oherwydd tywydd garw yn effeithio'r cyflenwad trydan, ond mae'r ddarpariaeth mae'r ganolfan ddata newydd yn ei gyflwyno wedi gwirio'r sefyllfa yma a hefyd yn cynnig adnodd sydd wedi ei leoli mewn safle diogel ac yn glir o unrhyw fygythiadau llifogydd ac yn llawer fwy effeithiol o ran defnydd ynni.

Mae datblygiadau'r ganolfan ddata a'r rhithio, yng nghyd gwelliannau mawr i'r rhwydwaith gyda mabwysiadu'r rhwydwaith cenedlaethol y PSBA yn codi safon parhad gwasanaeth a'n gallu i adfer ein systemau yn dilyn trychineb, ac i gynnal gwasanaethau yn unol a'n cytundebau lefel gwasanaeth.

Roedd ail strwythuro yn ran annatod o newid ein sefydliad i gefnogi gwasanaeth oedd wedi neidio o ddefnyddio technoleg oes y cyfrifiadur prif ffrâm i'r arlwy newydd, a gyda hyn sefydlu'r tîm cwmwl i weinyddu'r ganolfan ddata ac i werthuso newidiadau a ddaw gyda gwasanaethau cwmwl i'r dyfodol.



# Cynnydd Y Strategaeth Flaenorol—yr effaith a gafwyd

Roedd sawl datblygiad arall o ran yr isadeiledd sydd wedi cyfrannu i gyflwyno gwasanaethau TG diogel a gwydn. Mae safonau diogelwch y cod cysylltu (bellach yn cael ei enwi'n PSN (Public Secure Network) yn newid o flwyddyn i flwyddyn, ac ymrwymiad yn y strategaeth i dderbyn ei achrediad, ond fe roedd ffactorau eraill yn y strategaeth oedd yn cyfrannu at ennill yr achrediad, eitemau fel sefydlu mur gadarn newydd, mudo o Windows XP i Windows 7 a sefydlu cytundeb Microsoft Office. Yn ychwanegol i hyn, fe uwchraddiwyd y gyfundrefn storio data a sefydlu cyfrifiaduron "thin client".

Mae sawl newid wedi ei gyflwyno i'n trefniadau o werthuso a rhaglennu meddalwedd, gan adolygu'r safonau datblygu a safoni ar iaith datblygu .NET. Mae safoni ar un iaith penodol yn gwneud y gweithlu'n fwy hyblyg a gallwn newid blaenoriaethau'n haws gan godi neu cwtogi'r nifer o ddatblygwyr gan bod pawb yn meddu ar yr un sgiliau. Fe gryfhawyd y ffordd mae prosiectau'n cael eu rhedeg, gan symud o'r cylch bywyd datblygu traddodiadol o greu manyleb, datblygu a phrofi yn erbyn y manyleb, a wedyn cyflwyno'r datrysiad i'r cleiant, sefy proses gallai gymryd misoedd cyn ei fod yn dwyn ffrwyth, ac yn aml, oherwydd camddealltwriaeth neu newid mewn anghenion, byddai'r hyn a ddatblygwyd ddim yn cwrdd a gofyn y cleiant yn llawn. Bellach, mae'r uned yn defnyddio'r cylch datblygu "Agile" sy'n drefn o weithio'n agosach gyda'r cleiant, datblygu mewn cyfnodau bychan ac arddangos yr hyn sydd wedi ei ddatblygu mewn darnau eithaf bychan. Drwy wneud hyn, mae'n llai tebygol i'r datrysiad beidio cyrraedd anghenion y cleiant.

Newid arall a gyflwynwyd ym mywyd y strategaeth flaenorol oedd sefydlu rôl y rheolwr cyfrif, ac yn wasanaeth sydd wedi dwyn ei le yn sefydliad y Cyngor yn gyflym iawn. Pwrpas y rôl yw i gydweithio gydag adrannau'r Cyngor a'r gwasanaeth TG er mwyn defnyddio technoleg i wella'r gwasanaethau sy'n cael eu cyflenwi i bobol Gwynedd. Mae'r uned isadeiledd yn cynnal llwyfan gadarn ar gyfer gwasanaethau diogel a gwydn, yr uned ddatblygu yn creu datrysiadau i gyd fynd ag anghenion y cleiant, ond rôl y rheolwr cyfrif yw i addysgu'r cleiant i adnabod sut gall technoleg drawsnewid eu gwasanaethau ac i'w cynorthwyo i fanylu ar eu anghenion er mwyn cyflwyno datrysiad.

Mae crynodeb llawn o sut gwblhawyd y strategaeth flaenorol i ddilyn, ond yn gryno, mae'r strategaeth wedi bod yn lwyddiant i osod sylfaen er mwyn cynnal gwasanaethau gwydn a diogel, gan drosglwyddo anghenion yr adrannau i ddatrysiadau technegol.





# Cynnydd Y Strategaeth Flaenorol—eitemau wedi eu cwblhau

***Lleihau defnydd ynni*** – Unedau aer dymheru “free cooling” wedi ei gosod yn y ganolfan ddata newydd ym Mai 2010. Isadeiledd citrix xenapp wedi ei osod i wasanaethau “thin clients” sydd yn defnyddio llawer llai o drydan na PC. 640 o ddyfeisiadau wedi ei gosod hyd yn hyn.

***Cydymffurfio â’r Côd Cysylltiad*** – Y côd cysylltiad bellach wedi newid i’r PSN (Public Sector Network). Cyngor Gwynedd wedi cydymffurfio drwy gydol oes y strategaeth.

***Datblygu a gweithredu Cytundebau Lefel Gwasanaeth ffurfiol*** – cytundebau lefel gwasanaeth ffurfiol yn cael eu gweithredu gydag unrhyw gytundeb allanol ble mae’r Gwasanaeth TG yn gyflenwr.

***Datblygu a gweithredu prosesau rheoli cynhwysedd*** – ers rhithio’n gweinyddwyr, mae rheoli cynhwysedd yn llawer fwy effeithiol, gan ein galluogi i flaenoriaethu’n adnoddau ar sail y galw ar eu defnydd.

***Adfer Trychineb*** – Amgylched gweinyddwyr rhith (virtual) wedi ei osod ym Mhencadlys a Phenrhyn ym Mawrth 2010. Mae meddalwedd “site recovery manager” yn ein galluogi ni i symud y systemau busnes sy’n rhedeg ar y gweinyddwyr rhith i Benrhyn os oes trychineb yn y Pencadlys.

***Derbyn cytundeb a gweithredu Cynllun Cyfathrebu Gwasanaethau*** – fe gyflogwyd rheolwr cyfrif yn 2010 ar gyfer cymryd y rôl o gyfathrebu ddwy ffordd gyda’r gwasanaethau, gydag ail aelod yn cael ei gyflogi yn 2012. Mae llwyddiant a phoblogrwydd y rôl gyda’r adrannau yn golygu drwy ail-strwythuro y byddwn yn ychwanegu adnodd arall yn Ch2, 2016-17.

***Cynhyrchu portffolio sgiliau TGCh angenrheidiol a chynllun gweithredu hyfforddiant a’i adolygu’n flynyddol*** - fe wnaethpwyd hyn yn wreiddiol, ond ni gafodd ei gadw’n gyfoes.

***Parhad gwasanaeth i’w gysidro fel rhan anatod o unrhyw brosiect uwchraddio neu gaffael am system newydd*** – mae oll o ddarpariaethau newydd yn dilyn y Strategaeth wedi rhoi darpariaeth i gyflwyno gwasanaeth gwydn. Yn y blynyddoedd ers gweithredu’r Strategaeth, mae’r system ffôn newydd, argraffwyr, e-bost, cronfa ddata SQL, ystafell gyfrifiadur a’r gweinyddwyr i gyd wedi eu gwneud mewn modd hydwyth, y rhain i gyd yn brosiectau newydd neu ddiweddariadau sylweddol.

***Adolygu’r prosesau cefnogaeth presennol gan gynnwys lefelau a lleoliadau staff*** – fe adolygwyd strwythur y Gwasanaeth yn 2010, gan wneud cryn dipyn o newidiadau rheolaethol a lleoliadau. Roedd y Strategaeth flaenorol yn cyfeirio at gydleoli’r gwasanaeth yn y Pencadlys yng Nghaernarfon, ond bod angen cwrdd ac anghydbwysedd gwasanaeth mewn lleoliadau eraill. Mae’r gwasanaeth bellach wedi ei gydleoli yng Nghaernarfon a gwasanaethau megis gweinyddwyr oedd yn lleol yn y swyddfeydd ardal hefyd wedi eu cydleoli yn y Pencadlys.

***Cefnogaeth TG i Aelodau*** – 72 o Aelodau Etholedig y Cyngor wedi derbyn iPad ac yn defnyddio cyfeiriad e-bost cynghorydd@gwynedd.gov.uk

***Strwythur a Lefelau Adnoddau*** – Ail strwythuro wedi ei gyflawni yn Mai, 2011.

***Datblygu templed ar gyfer manyleb anghenion a safonau gwerthuso*** – mae templed “Cais am brosiect newydd” wedi ei lunio ac mewn defnydd.

***Sicrhau fod yr holl gymwysiadau a gefnogir yn dynodi perchennog, gweinydder ac uwch ddefnyddiwr*** – mae hwn wedi ei ymgorffori i’r gofrestr meddalwedd

***Adolygu strwythur staffio datblygu ac arferion gwaith*** – mae adolygiad llawn wedi ei gynnal a arweiniodd at ail-strwythuro’r uned. Mae’r drefn gwaith hefyd wedi newid, gyda’r timau datblygu yn dilyn y cylch datblygu “Agile” yn hytrach na’r dull traddodiadol “Waterfall”. Golyga hyn ein bod yn gweithio gyda’r cleiant yn fwy cyson ac yn cyflwyno darnau o waith yn aml ac felly’n fwy tebygol o gynhyrchu darn o waith sy’n cwrdd ag anghenion y cleiant.



# Cynnydd Y Strategaeth Flaenorol—eitemau wedi eu cwblhau

***Adolygu safonau datblygu*** – mae'r strwythur newydd yn cynnwys rôl "Arweinydd Technegol", nid yw rhain yn rheoli adnoddau staffio, ond mae'n gydnabyddiaeth o sgiliau technegol uwch a'r grŵp yn gyfrifol am adolygu a gosod safonau datblygu. Er mwyn hwyluso cefnogaeth, mae'r datblygwyr wedi eu ail-hyfforddi yn yr iaith raglennu .NET a phob system yn cael ei adeiladu gan ddefnyddio'r iaith yma, gan symud oddi wrth arbenigedd nifer fechan mewn technolegau ymylol.



***Trefn monitro rheoli newidiadau côd i'w fabwysiadu ar gyfer holl systemau'r cyngor*** – mae trefn rheoli newid yn cael ei gefnogi gan feddalwedd rheoli newid Subversion, sy'n feddalwedd cydnabyddedig oddi fewn y diwydiant meddalwedd.

***Sefydlu cofrestr ganolog yn rhestru pob cytundeb meddalwedd ac adolygu'r trefniadau cefnogi presennol*** – mae cofrestr meddalwedd cynhwysfawr wedi ei greu ac yn cael ei thrafod gyda'r adrannau drwy law y rheolwyr cyfrif gan edrych ar ffyrdd i leihau ar y nifer o systemau sy'n cael eu cefnogi. Bychan yw'r cynnydd sydd wedi ei wneud yma, ac fe fyddai ychwanegu at yr adnodd rheoli cyfrif yn cryfhau ein gallu i leihau ar niferoedd y systemau gan gynnal adolygiadau ar y cyd gyda'r adrannau.

***Sefydlu Strategaeth CRM, gweithredu'r argymhellion a'i hadolygu*** - fe wnaethpwyd hon fel rhan o'r Strategaeth Gofal Cwsmer. Mae pennod penodol ar gyfer CRM ynddo.

***Creu trosolwg o anghenion a chymwysiadau'r Cyngor*** – hyn wedi ei wneud gan y tîm trawsnewid busnes fel rhan o'r prosiectau unigol a sefydlwyd i drosglwyddo gwasanaethau i Galw Gwynedd. Y llwybr yn dilyn yr achos busnes gwreiddiol.

***Cynhyrchu strategaeth menter GIS a chynllun gweithredu*** – strategaeth wedi ei pharatoi a'i mabwysiadu.

***Gwasanaeth Wybodaeth i greu cynllun busnes i dichonolrwydd EDRMS*** – y cynllun busnes wedi ei baratoi a'i dderbyn. Mae'r darpariaeth EDRMS bellach ar y gweill.

***Adolygu ERP a'r posibilrwydd o'i fabwysiadu yng Ngwynedd*** – fe wnaethpwyd gwaith rhanbarthol ar fabwysiadu ERP, hyn drwy adroddiad a baratowyd gan Deloitte mewn adolygiad yn 2011. Fe wnaethpwyd gwaith mewnol hefyd ar system cyflogau/adnoddau dynol a daethpwyd i'r casgliad bod y ddarpariaeth bresennol yn ddigonol.

***Ailwampio'r Ystafell Gweinyddwyr*** – Wedi ei gwblhau mis Mai 2010

***Cyfundrefn Storio Data newydd*** – Dau SAN Hitachi 2300 wedi eu gosod ym mis Mawrth 2010. Capasiti o 53Terrabytes o ddata. Darpariaeth wedi ei ddiweddaru yng Ngorffennaf, 2015 gyda datrysiad Dell EquaLogic gyda'r capasiti wedi ei gynyddu i 116TB.

***Rhwydwaith ardal eang newydd*** – Rhwydwaith ardal eang newydd wedi ei gyflenwi trwy gytundeb PSBA Llywodraeth Cymru.

***Adolygu achos budd ar gyfer datrysiad llais a data "cydgyfeiriedig" a chael ei gymeradwyo a'i weithredu*** – fe gwblhawyd cymal cyntaf y prosiect yma ar ddiwedd 2015.

***Caffael a gweithredu mur cadarn newydd*** – Wal dân newydd wedi ei osod yn 2011, gyda uwchraddiad ar gyfer mynediad ysgolion yn 2014.

***Sefydlu cyfundrefn er mwyn sicrhau bod pob cyfrifiadur, PC a gliniadur yn cael ei gysylltu i rwydwaith y Cyngor o leiaf unwaith bob 3 mis*** – cyfundrefn wedi ei sefydlu ac wedi ei wirio drwy adroddiad archwilio mewnol. Mae'r gyfundrefn yma wrthi'n cael ei adolygu i weld os oes modd darganfod trefn mwy effeithiol o'i ddarparu.

***Archwilio'r defnydd o dechnoleg "thin client" fel modd o ymestyn oes peiriannau*** – amgylchedd citrix xenapp wedi ei sefydlu yn 2011 a dyfeisiadau yn cael eu gosod yn gyson, 440 erbyn hyn, yn codi i 800 cyn diwedd Mawrth, 2014

***Gwerthuso Windows 7 ac ymfudo defnyddwyr iddi o 2011*** – Windows 7 yn mynd allan ar pob gliniadur ers 2010 ac ar pob PC ers 2012. Roedd uwchraddio'r cyfrifiaduron oedd wedi eu sefydlu'n barod yn brosiect a gwblhawyd yn Ch4 2014/15.



# Cynnydd Y Strategaeth Flaenorol—eitemau wedi eu cwblhau

***Ailasesu'r achos budd o ymfudo o MS Office i'r dewis ffynhonnell agored amgen*** – gyda chymorth rheolwr prosiect rhanbarthol, fe wnaethpwyd astudiaeth fanwl ar draws y Gogledd o ddefnyddio technoleg ffynhonnell agored yn hytrach na phecynnau Microsoft Office. Casgliad y gwaith oedd argymhelliad ein bod yn parhau gyda Microsoft Office ar sail costau a cynhyrchaeth.



***Adolygu a gweithredu polisi argraffu rhwydweithiol*** – fe gwblhawyd y prosiect yma yng Ngorffennaf, 2015, gyda argraffyddion pendesg yn cael eu cyfnewid am ddyfeisiadau aml bwrpas, gydag oddeutu 3 i 4 wedi eu lleoli ar bob llawr yn y swyddfeydd yng Nghaernarfon, Dolgellau, Pwllheli ac yng Nghibyn.

***Gweithredu datrysiad fideo-gynadledda newydd*** – Ystafelloedd a chyfarpar fideo gynadledda newydd wedi ei gosod yn Nolgellau, Pwllheli a'r Pencadlys. Y gallu i fideo gynadledda wedi ei ychwanegu i Siambr Hywel Dda yn ystod yr haf, 2015. Mae bwriad i ymestyn y ddarpariaeth yn ystod cyfnod y strategaeth newydd.

***Archwilio'r budd o symud i sustem reoli cynnwys amgen*** – mae system rheoli cynnwys Contensis wedi ei gaffael a'i fewnosod, gyda'r wefan ar ei newydd wedd yn cael ei lawnsio yn Rhagfyr, 2014. Fe ymgymerwyd a phrosiect rhanbarthol i gaffael a'r system rheoli cynnwys newydd, gyda Sir Ddinbych a'r Fflint yn caffael yr un system, a Conwy bellach wedi ymuno.

***Adolygu a gweithredu amserlen adnewyddu sustemau dan gyfarwyddyd y Grŵp Llywodraethu TGCh*** – mae'r dasg yma'n cael ei wneud yn lleol yn yr adrannau drwy nawdd y rheolwyr prosiect

***Dogfennu achos budd ar gyfer caffael meddalwedd ychwanegol i hwyluso datblygiad prosesu rhyngweithredol ar y wefan*** – meddalwedd Ebase wedi ei gaffael drwy gystadleuaeth tendr yn ôl yn 2011.

***Gwasanaethau gwe i gyflawni hygyrchedd i lefel cydymffurfiad AA erbyn 2010*** – hygyrchedd i lefel cydymffurfiad AA wedi ei gwblhau yn 2010.

***Cymryd rhan flaenllaw oddi fewn y gweithgorau sefydledig*** – Cyngor Gwynedd oedd yr awdurdod gwestio ar gyfer Rheolwr Prosiect Cydweithio Rhanbarthol oedd yn gyfrifol am raglen waith o brosiectau cydweithio ar draws y Gogledd. Fe gefnogwyd pob prosiect gan gymysgedd o staff strategol a technegol, cyn i'r pwyslais am gyd-weithio bylu. Yn ychwanegol i hyn mae'r Cyngor yn cael ei chynrychioli ar draws nifer o weithgorau sefydledig yn Genedlaethol, SOCITM, PSBA a WCCIS, y rhain i gyd yn sefydliadau neu gweithgorau dylanwadol.

***Adnabod a datblygu cyfleon cydweithio newydd*** – mae'r grŵp Pennaethiaid Technoleg Gwybodaeth Gogledd Cymru yn parhau i gyfarfod ac yn canfod cyfleon i gydweithio lle bynnag fo'n ymarferol.



# Cynnydd Y Strategaeth Flaenorol—eitemau sydd ar waith

***Gweithredu model blaenoriaethu i holl brosiectau TGCh y Cyngor*** – cynllun yn ei le ble mae cynlluniau datblygu'n cael eu gwerthuso a'i blaenoriaethu'n fewnol ar sail achos busnes fer. Mae unrhyw anghytundeb yn cael ei gyfeirio i'r Grŵp Llywodraethu TG. Nid yw'r broses yma wedi bod yn ddigon effeithiol ac mae'n cael ei adolygu yn y strategaeth hon.



***Adolygu prosesau rheoli prosiect TGCh a'u gweithredu i bob prosiect TGCh*** – prosiectau TG yn dilyn methodoleg PRINCE2 ar gyfer prosiectau mewnol. Prosiectau bychan yn cael eu rheoli heb y gorbenion ychwanegol. Yn hanesyddol, mae prosiectau datblygu wedi bod yn dod o dan reolaeth prosiect fwy cadarn na'r unedau isadeiledd, a hyn yn bennaf oherwydd diffyg, neu raglenni gwaith anghyflawn. Mae'r strategaeth yma'n rhoi sylw i atgyfnerthu'r elfen rhaglenni gwaith ac fe fydd y rheolaeth prosiect yn gam naturiol i ddilyn.

***Datblygu a gweithredu proses Reoli Newid ffurfiol*** – proses rheoli newydd yn cael ei redeg drwy'r modiwl rheoli newid oddi fewn system cofnodi digwyddiadau'r Ddesg Gymorth. Nid yw hwn wedi ei gwblhau'n llawn ac mae'r rheoli newid yn cael ei gyfeirio ato yn y strategaeth hon.

***Cynlluniau peilot yn defnyddio gwahanol fethodoleg*** – yr elfen trawsnewid busnes wedi trosglwyddo i Cyswllt Cwsmer ac ers i'r gwasanaeth symud i Oedolion, Iechyd a Llesiant, mae'r uned wedi ei diddymu.

***Penderfynu ar ba fethodoleg i Wynedd*** - yr elfen trawsnewid busnes wedi trosglwyddo i Cyswllt Cwsmer ac ers i'r gwasanaeth symud i Oedolion, Iechyd a Llesiant, mae'r uned wedi ei diddymu.

***Dogfennu a chael cymeradwyaeth i Strategaeth Trawsnewid Busnes*** - yr elfen trawsnewid busnes wedi trosglwyddo i Cyswllt Cwsmer ac ers i'r gwasanaeth symud i Oedolion, Iechyd a Llesiant, mae'r uned wedi ei diddymu.



# Cynnydd Y Strategaeth Flaenorol—eitemau sydd heb eu cyflawni

***Dogfennu a chael cymeradwyaeth a gweithredu polisi caffael TGCh newydd*** – ni gafodd y cam yma ei gyflawni.  Mi roedd rheswm teilwng o gynnwys y cam yma'n flaenorol, ond mae'n ychwanegu proses benodol oherwydd nad oedd cyfathrebu'n digwydd rhwng yr adrannau a'r gwasanaeth TG yn y gorffennol.  Mae camau mewn lle yn barod i wella ar y cyfathrebu ac fe ddylai'r drafodaeth caffael systemau newydd ddigwydd yn naturiol fel rhan o hyn.

***Cynnal astudiaeth ddichonoldeb i wasanaethau neges destun*** – ni gafodd hwn ei gyflawni ac mae wedi ei gario ymlaen i'r strategaeth newydd fel un o'r cyfryngau cysylltu o dan y penawn "Hwyluso Cysylltu Gyda'r Cyngor".



# Themâu'r Strategaeth

Mae'r strategaeth wedi ei rannu i dri themâu, gyda phob un thema yn cael ei baru gyda amcanion cynllun strategol y Cyngor.  Mae pob thema unigol yn cyfeirio at garfan penodol, gan gynnwys trigiolion y Sir, Adrannau sy'n cael eu cefnogi gan y gwasanaeth TG a'r gwasanaeth TG ei hunan.

Roedd y strategaeth flaenorol wedi grwpio'r gweithgareddau i dri thema, Proses, Pobl a Thechnoleg ac yn hytrach na pharhau gyda'r rhain, fe ddaethpwyd i'r casgliad bod categorïo gweithgareddau i'r themâu hyn peri problemau wrth geisio mesur llwyddiant y strategaeth yn

Mae'r themâu sydd i ganlyn yn cloriannu sut y byddwn yn delio gyda'r egwyddorion ac yn rhoi blas ar sut bydd y gwasanaeth yn esblygu i gwrdd a heriau'r dyfodol.

1. **Rhoi pobol Gwynedd yn ganolog i bopeth**
2. **Arwain, cefnogi a gwneud gwasanaethau'n fwy effeithiol**
3. **Gwneud y gwasanaeth TG yn fwy effeithiol ac effeithlon**



# Rhoi pobol Gwynedd yn ganolog i bopeth



Mae sawl ffordd ble gallwn gyflwyno technoleg i ddod a gwasanaethau'r Cyngor yn agosach at ein defnyddwyr. Yn bresennol, dim ond llond llaw o wasanaethau sydd ar gael drwy gyfrwng hunan wasanaeth ac mae disgwyl i bobol Gwynedd gael cyswllt ar-lein i ddefnyddio'r gwasanaethau hyn. Nod y strategaeth yw cyflwyno ystod ehangach o wasanaethau drwy'r cyfrwng ddigidol a hwyluso mynediad at y cyfrwng i bobol Gwynedd.

Elfen arall o ddefnyddio technoleg i ddod a gwasanaethau'n agosach i'n defnyddwyr yw drwy arfogi ein gweithwyr yn y maes â thechnoleg pwrpasol i'w gwneud yn fwy effeithlon. Gall hyn amlygu ei hun mewn amryw o wahanol ffyrdd ac mewn amryw wahanol faes gwasanaeth. Mae technoleg cludadwy wedi cynnig ffyrdd gwahanol o weithio gada isadeiledd megis di-wifr a cysylltiadau data symudol ar gael i gefnogi hyn.





## Arwain, cefnogi a gwneud gwasanaethau'n fwy effeithiol



Mae cyflwyno technoleg ar gyfer defnydd effeithiol yn gyfrifoldeb sy'n cael ei rannu drwy'r sefydliad. Byddai'n amhriodol cyflwyno technoleg oni bai ei fod yn cyfoethogi'r gwasanaeth drwy unai wneud y gwasanaeth yn fwy effeithiol neu'n effeithlon. Golyga hyn bod angen parhau i adeiladu pontydd rhwng y busnes a'r gwasanaeth sy'n cyflwyno a chefnogi'r dechnoleg. Fe all weithio ddwy ffordd, y gwasanaeth yn gofyn am dechnoleg i gefnogi eu cynlluniau ar un llaw a'r ochr dechnegol yn cynnig datrysiadau all gefnogi cynlluniau'r adrannau ar y llaw arall.

Mae technoleg a'r gallu i wneud newidiadau pell gyrhaeddol, ond mae angen cefnogaeth ar y defnyddwyr i wneud y defnydd gorau o'r hyn sy'n cael ei gyflwyno. Y gamp cyntaf a phwysicaf o bosib yw dod i gasgliad o beth sy'n cael ei gyflwyno. Mae cyflwyno rhywbeth nad oes ei angen yn wastraff, ond mae cyflwyno darn o dechnoleg sy'n gwneud gwahaniaeth i bobol Gwynedd a'i wneuthuriad a'i gyflwyniad o safon yn mynd i dalu ar ei ganfed.






# Gwasanaeth TG Effeithiol ac Effeithlon

Erbyn hyn, mae amser helaethaf swyddogion y gwasanaeth TG yn canolbwyntio ar gefnogi datrysiadau sydd wedi eu cyflwyno'n barod. Golyga hyn nad oes digon o adnodd i gyflwyno datrysiadau pellach heb roi'r gorau i gefnogi rhai gwasanaethau neu drwy ychwanegu at yr adnodd.

Mae angen gwaith ymchwil helaeth mewn disgyblaeth sydd yn newid ar raddfa anferthol, ac oni bai bod yr amser ar gael i ymchwilio mae'n anorfod y bydd datrysiadau sy'n cael eu cyflwyno wedi oesi'n sylweddol cyn eu bod yn weithredol.

Nid dim ond ar gyfer datrysiadau newydd, ond hefyd ar gyfer gwella'r systemau a'r wybodaeth sydd gan y Cyngor yn barod. Mae systemau'r Cyngor wedi esblygu dros nifer o flynyddoedd, yn aml heb ei herio. Nid yn unig bod amheuaeth am gywirdeb ein gwybodaeth a'i ddilysrwydd i gefnogi'r busnes, ond mae hefyd gyfleoedd i gydgrynhoi systemau cyfan sy'n arwain at arbedion a gwelliant yn safon y wybodaeth.

Mae gofyn i'r gwasanaeth TG esblygu i gwrdd a disgwyliadau'n cwsmeriaid mewnol ac allanol ar gyfer cyflwyno gwasanaeth gwydn a safonol. Mae natur y gwasanaeth ar hyn o bryd yn ymatebol a rhan helaethaf amser y swyddogion yn ymateb i ofynion a phroblemau. Er mwyn rhyddhau amser y swyddogion i ganolbwyntio ar ddatblygiadau a heriau newydd mae angen gwella drwy symud i sefyllfa ble rydym yn diwallu problemau cyn iddynt ymddangos, ond yn naturiol, mae angen cefnogi'r gwasanaeth drwy gyfnod ble mae'r Gwasanaeth yn trawsnewid, sy'n cyflwyno ymdrechion ychwanegol.

Mae'r newidiadau'n bell gyrhaeddol ac yn golygu cryn newid yn y diwylliant presennol gan symud o sefyllfa sydd ag elfennau o anrhefn i wasanaeth trefnus sydd a'r gallu i newid cyfeiriad i gwrdd a newidiadau ym musnes y Cyngor ac amgylchiadau heriol sydd o'n blaenau wrth ymdopi a sefyllfa o orfod gwneud mwy gyda llai.







# Heriau ac Egwyddorion

Yn ogystal a cyflwyno gweithgareddau'r strategaeth oddi fewn themâu penodol, mae egwyddorion wedi eu llunio sy'n greiddiol i'r ffordd mae technoleg yn cael ei gyflwyno a pha fath o dechnoleg sy'n cael ei gyflwyno. Mae'r egwyddorion hyn yn llunio mantra'r gwasanaeth ac yn cyflyru ei swyddogion i wneud penderfyniadau dysg a dwys am y gwasanaeth a gyflwynir.

Mae amryw her yn ein hwynebu fel Cyngor, gyda pwysau ariannol yn flaenllaw ac yn effeithio pob agwedd o weithgareddau'r Cyngor. Oherwydd hyn, mae effeithlonrwydd, buddsoddiadau fforddiadwy ac uchafu defnydd o asedau cyfredol yn ffactorau bydd yn cael eu cysidro wrth gyflwyno mentrau sy'n gysylltiedig gyda thechnoleg.

**Egwyddor 1 Fe ddylai technoleg a'r adran sy'n ei gefnogi fod yn hyblyg i gwrdd a heriau Ffordd Gwynedd.**

**Egwyddor 2 Fe ddylai'r staff sy'n defnyddio technoleg gael y technoleg cywir i hwyluso eu gwaith a sgiliau priodol i ddefnyddio'r dechnoleg yn effeithiol.**








**Egwyddor 3** Mae unrhyw newid neu adolygiad sy'n cael ei gyflwyno i wasanaeth angen cysidro cynnig sianel ddigidol fel dull o gyflwyno gwasanaeth i'r cyhoedd. Bydd disgwyl i unrhyw system newydd a gyflwynir yn cynnig llwybr ddigidol i wneud y gwasanaeth yn fwy hygyrch i'r cyhoedd.

**Egwyddor 4** Bydd yr asedau TG cyfredol yn cael eu hadolygu, rhesymoli ac uchafu eu defnydd i wneud y gorau bosib gan osgoi gwastraff.

**Egwyddor 5** Dylai patrwm a dyheadau TG sy'n amlygu eu hun-ain ar draws nifer o wasanaethau gael eu ymdrin fel datrysiad corfforaethol, neu'n draws awdurdod/asiantaeth os yw hynny'n briodol.

**Egwyddor 6** Dylai technoleg gwybodaeth fod yn ystwyth a di-ogel, yn alluogwr i gyflwyno gwasanaethau effeithiol, mewn modd effeithlon. Ni ddylai technoleg, neu ddiffyg technoleg fod yn rwystr.



# Strategaeth TG (2016-2018)

## Gwireddu'r weledigaeth

(dogfen #2 mewn cyfres o 2)

FFORDD GWYNEDD



# Cyflwyniad



Mae'r weledigaeth o'r hyn mae'r Strategaeth TG angen ei gyflawni wedi ei gyflwyno yn y cyntaf o ddwy ddogfen sef "Strategaeth TG (2016-2018) Y Weledigaeth", ac fe fydd y ddogfen hon yn ein tywys drwy'r hyn sydd angen ei wneud i wireddu'r weledigaeth.

Mae'r weledigaeth yn canolbwyntio ar 3 themâu:

1. **Rhoi pobol Gwynedd yn ganolog i bopeth**
2. **Arwain, cefnogi a gwneud gwasanaethau'n fwy effeithiol**
3. **Gwneud y gwasanaeth TG yn fwy effeithiol ac effeithlon**

Fe fydd y ddogfen hon yn cyfarch y themâu hyn ac yn adeiladu arnynt gan gyfeirio at weithgareddau penodol y byddwn yn eu dilyn er mwyn gwireddu'r weledigaeth.

Mae chwech prif egwyddor wedi ei lunio ar gyfer gwireddu'r themau hyn:

**Egwyddor 1** - fe ddylai technoleg a'r adran sy'n ei gefnogi fod yn hyblyg i gwrdd a heriau Ffordd Gwynedd

**Egwyddor 2** - fe ddylai'r dechnoleg cywir gael ei gyflwyno i hwyluso tasgau, gyda sgiliau priodol i ddefnyddio'r dechnoleg yn effeithiol

**Egwyddor 3** - mae angen cysidro defnyddio'r sianel ddigidol ar gyfer unrhyw newid neu gyflwyniad o wasanaeth newydd

**Egwyddor 4** - fe fydd yr asedau TG cyfredol ac unrhyw asedau newydd yn cael eu hadolygu, rhesymoli ac uchafu eu defnydd i wneud y gorau bosib gan osgoi gwastraff

**Egwyddor 5** - fel ddylai patrwm a dyheadau TG sy'n amlygu ar draws nifer o wasanaethau gael eu ymdrin fel datrysiad corfforaethol, neu'n draws awdurdod/asiantaethol os yw hynny'n briodol

**Egwyddor 6** - Dylai technoleg gwybodaeth fod yn ystwyth a diogel, yn alluogwr i gyflwyno gwasanaethau effeithiol, mewn modd effeithlon. Ni ddylai technoleg, neu ddiffyg technoleg fod yn rwystr



Mae’r Strategaeth TGCh  yn ffurfio gofynion TGCh cyffredinol y Cyngor gan gefnogi'r gwaith o gyflawni nifer o’i nodau strategol sydd wedi ei amlygu yng Nghynllun Strategol Cyngor Gwynedd (2013-17):



(1) Rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud

(2) Gwella ymgysylltu gyda chymunedau ar yr her gofal

(3) Gwella gweithio’n integredig gan ganolbwyntio ar yr hyn sy’n cyfri i unigolion

(4) Paratoi’r gweithlu gofal er mwyn cwrdd a'r ffordd newydd o weithio

(5) Hybu defnydd y Gymraeg yng Ngwynedd

(6) Sicrhau cyllideb gytbwys gynaliadwy i’r dyfodol

# Thema 1. Rhoi pobol Gwynedd yn ganolog i bopeth

**Amcanion cynllun Strategol Gwynedd sy'n cael eu gwireddu:**

**(1) Rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud**
**(2) Gwella ymgysylltu gyda chymunedau ar yr her gofal**
**(3) Gwella gweithio'n integredig gan ganolbwyntio ar yr hyn sy'n cyfri i unigolion**
**(4) Paratoi'r gweithlu gofal er mwyn cwrdd a'r ffordd newydd o weithio**
**(5) Hybu defnydd y Gymraeg yng Ngwynedd**
**(6) Sicrhau cyllideb gytbwys gynaliadwy i'r dyfodol**

## Hunan Wasanaeth—Y Sianel Ddigidol

Mae prosiect penodol wedi ei sefydlu i arwain ar y sianel ddigidol, ble bydd achos busnes llawn yn cael ei baratoi. Mae'r strategaeth TG yn cydnabod y bydd sianel ddigidol yn cael ei gyflwyno yng Ngwynedd ac yn manylu ar y gweithgareddau i gefnogi'r sianel newydd.

Mae'r gwaith sydd wedi ei wneud hyd yma'n datgan:

- Bod manteision effeithlonrwydd i wasanaethau'r Cyngor drwy gyflwyno'r sianel ddigidol
- Ymchwil yn datgan y bydd isafswm o 22% yn symud i ddefnyddio'r sianel ddigidol , gyda'r ffigwr yn codi pe byddwn yn marchnata'r gwasanaeth yn effeithiol
- Cwmnïau sy'n gwerthu systemau hunan wasanaeth yn defnyddio ffigyrau afreal i geisio gwerthu eu cynnyrch, a hynny ar gost fydd yn anodd i'w adennill. Byddwn yn ymchwilio i'r ddarpariaeth gorau i Wynedd gan ystyried cwmnïau 3ydd parti neu ddarpariaeth mewnol

## Y Sianel Ddigidol yng Ngwynedd

- Pob elfen o hunan wasanaeth yn bodoli yn "Porth Hunan Wasanaeth Gwynedd"
- Y porth a'r cyfrif yn greiddiol i oll o'r gwasanaethau sydd ar gael drwy'r sianel ddigidol
  - Un cyfrif, un cyfrinair
  - Cyfrif yn ddiogel ac yn defnyddio yr un mecanwaith a www.gov.uk i ddilysu deilydd y cyfrif
  - Newid manylion mewn un lle e.e. cyfeiriad, manylion cyswllt. Y rhain wedyn yn cael eu rhaeadru i'r gwasanaethau unigol.
- Mi fydd y porth wedi ei bersonoleiddio i ddeilydd y cyfrif ac yn cynnwys gwybodaeth hanesyddol am geisiadau gwasanaeth a datblygiadau pellach o'r dudalen "lle dwi'n byw"



# Rhoi pobol Gwynedd yn ganolog i bopeth

## Technoleg y Sianel Ddigidol

Mae'r sianel ddigidol yn draddodiadol yn cael ei gyflwyno drwy'r borwr y we, ond mae technolegau eraill sydd angen eu gwerthuso:

- Sgwrs y we—mae hwn yn rhoi cyfle i gynnal sgwrs nôl a mlaen rhwng y cwsmer a chyswllt yn y Cyngor, fel arfer fel modd o roi cyngor ar-lein i'r defnyddiwr os yw'n cael trafferth dilyn y cynnwys neu gydag ymholiad pellach. Mae'r cyfrwng yma'n dueddol o fod yn hyrwyddo sgwrs anffurfiol, nid yn annhebyg i'r ffordd mae sgyrsiau neges destun yn cael ei gynnal ar ffôn symudol



- "App" - mae "app" bellach yn dechnoleg sy'n cael ei gysylltu gyda ffonau symudol a theclynnau llechen ac yn cyflwyno ffordd hwylus o gael at wybodaeth. Fe ddaeth dyfodiad yr "app" i fodolaeth oherwydd bod gwefannau'n cael eu dylunio ar gyfer cyfrifiaduron a ddim digon ystwyth i arddangos ei hun yn effeithiol ar declyn llai. Bellach mae'r dechnoleg wedi aeddfedu ac mae modd i wefan (os yw wedi ei ddylunio'n gywir) addasu i arddangos ei hun ar ystod o ddyfeisiadau o bob maint. Fe fydd angen i'r sianel ddigidol gyflwyno ei hun yn effeithiol ar unrhyw ddyfais o unrhyw faint gan ddefnyddio technoleg "app" neu pryn bynnag dechnoleg gwe sy'n galluogi hyn.




## Uno'r Sianeli Cyswllt

Mae'r Cyngor yn gweithredu dulliau cyswllt traddodiadol i dderbyn ceisiadau am wasanaeth ar y ffôn ac wyneb yn wyneb yn bresennol, unai drwy gyswllt uniongyrchol a'r gwasanaethau neu drwy Galw Gwynedd a Siopau Gwynedd.

Fel rhan o'r ymdrech i gyflwyno'r sianel ddigidol, fe fyddwn yn uno'r sianeli cyswllt gyda'u gilydd er mwyn galluogi'r cwsmer a'r Cyngor gael darlun cyflawn o'u cysylltiadau gyda'r Cyngor. Golyga hyn y byddwn yn gwerthuso defnydd cyfredol o'r meddalwedd Rheoli Perthynas Cwsmer Siebel gan gysidro ei ddisodli gyda chynnyrch sy'n addas ar gyfer sefydliad sy'n cynnig gwasanaeth ar draws ystod o sianeli cyswllt.



## Gwynedd Ddigidol

Fe fydd llwyddiant y sianel ddigidol yn ddibynnol ar allu trigolion Gwynedd i gysylltu â'r sianel. Mae Gwynedd Ddigidol wedi ei sefydlu i gyfarch a rhaglen "Cyflymu Cymru", sy'n brosiect ar y cyd gyda Llywodraeth Cymru a BT er mwyn dod a bandeang cyflym i 96% o boblogaeth Cymru.



Mae'r rhaglen Gwynedd Ddigidol yn hybu cynhwysiad digidol ac yn cynnwys aelodau o'r trydydd sector sy'n gweithio yn y gymuned ac yn cynnal gweithgareddau megis hyfforddiant i arfogi pobl Gwynedd i ddefnyddio'r rhyngrwyd ac i fyw bywyd digidol. Un o'r rhain yw Citizens Online, sef elusen sydd wedi ei sefydlu i wella gwydnwch digidol, a gallwn wneud yn siŵr bod sianel ddigidol Gwynedd yn cael ei gyflwyno yn y gweithgareddau hyn a'n bod ni'n hyrwyddo cyswllt digidol rhwng ein defnyddwyr gwasanaeth a busnesau'r Cyngor.

# Rhoi pobol Gwynedd yn ganolog i bopeth

## Gweithio yn y Maes

**Isadeiledd**—Yn draddodiadol yma yng Ngwynedd, nid yw cysylltedd data e.e. 4G ar gael ym mhob man drwy'r Sir, a hyn yn symptom o ardal wledig. Golyga hyn bod angen gwneud asesiad o'r isadeiledd sydd ar gael pan yn darparu technoleg yn y maes gan gysidro'r opsiynau i gyd:

- Cyswllt data 3G/4G
- Cyswllt di-wifr
- Dim cyswllt o gwbl

Gall diffyg cysylltedd fod yn rwystyr ar gyfer darparu gwasanaeth i weithio yn y maes, ac fe fydd angen pwyso a mesur hyn pan yn cynghori'n defnyddwyr. Fe all gofynion y gwasanaethau fod yn wahanol, a'r gofyn am gyswllt ar-lein drwy'r amser beidio bod yn hanfodol. Bydd hyn yn adolygiad fydd angen ei wneud ar gyfer pob gwasanaeth unigol.

**Datrysiad**—fe fydd datrysiad generig yn cael ei ddylunio fel datrysiad corfforaethol gan dargedu swyddogaethau cyffredin o weithio yn y maes. Fe fydd hyblygrwydd yn y datrysiad corfforaethol i newid i gyfarch ag anghenion pellach neu gyfle i ddefnyddio technoleg amgen yn dilyn gwerthusiad o'r gost yn erbyn y budd.




**Cyfarpar**—adolygiad llawn o'r cyfarpar sy'n cael ei ddefnyddio gan staff y Cyngor heddiw yng nghyd-destun gweithio yn y maes. Yn draddodiadol mae staff wedi derbyn cyfarpar ychwanegol i gyflawni eu dyletswyddau yn y maes, ond mae hyn angen ei adolygu gan edrych i gyflenwi cyfarpar aml-bwrpas sy'n gwasanaethu'r gweithiwr yn y swyddfa ac oddi allan i'r swyddfa.

**Cyswllt**—byddwn yn adolygu ein cytundeb gyda'r darparwr ffonau Symudol bob 3 mlynedd gan fesur y darparwr ar sail pris a chryfder cysylltedd yn y Sir. Fe fydd unrhyw dechnoleg sy'n cefnogi mynediad di-wifr yn cael ei adolygu fel rhan o'r cynllun adnewyddu adnoddau corfforaethol mewn cylch o 7 mlynedd.

**Argaeledd**—mae datblygiadau newydd gyda'r system teleffoni yn y Cyngor yn rhoi cyfleon i ni wella ar argaeledd ein staff yn y maes i dderbyn galwadau a negeseuon gan y rhai sy'n ceisio cysylltu a hwy, boed o'n bobol Gwynedd, asiantaethau allanol neu staff/swyddogion y Cyngor.



# Rhoi pobol Gwynedd yn ganolog i bopeth

## Hwyluso Cysylltu Gyda'r Cyngor

**Cyfryngau Cymdeithasol**—galluogi staff y Cyngor i wneud y defnydd gorau o gyfryngau cymdeithasol. Esblygu o rôl sy'n plismona i fod yn rôl sy'n galluogi gan symud rhwystrau sy'n bodoli ar hyn o bryd. Er mwyn diogelu'r cyflogwr wrth ostwng y rhwystrau, fe fydd angen mewnbwn gan y Gwasanaeth TG i bolisi cyfryngau cymdeithasol. Bydd adolygiad o'r cynnyrch sy'n cael ei ddefnyddio i hidlo mynediad at wefannau a'r adroddiadau gallwn ei redeg i arddangos mynediad i'r gwefannau hyn.



**Di-wifr**—mae'r gwasanaeth di-wifr "Gwynedd Ddigidol" wedi bod yn llwyddiant ysgubol ers ei gyflwyno yn 2012, gydag oddeutu 14,000 o gyfrifiaduron unigryw yn gwneud cyswllt i'r rhwydwaith bob mis. Mae disgwyliadau pobol wedi newid hefyd ac mae angen gwarchod ac ehangu'r ddarpariaeth yma. O ran gwarchod, fe ddylid ymgyfarwyddo'r ddarpariaeth i'r cynllun adnewyddu asedau, gan gyflwyno cylch adnewyddu o 7 mlynedd. Fe fydd angen comisiynu ymchwiliad i adnabod yr Adnoddau byddai angen i ymestyn y ddarpariaeth ym mhellach, gan edrych ar ddi-wifr cyhoeddus yn y mannau hynny ble mae'r cyhoedd yn ei fynychu a di-wifr corfforaethol oddi fewn i swyddfeydd y Cyngor.

Gall darpariaeth di-wifr i'r cyhoedd adeiladu ar ein gallu i gynyddu y niferoedd sy'n defnyddio'r cyfrwng ddigidol i gysylltu gyda'r Cyngor. Mae hefyd angen adolygiad o'r ystadegau sy'n cael eu casglu a sut gall y Cyngor wella neu cymryd mantais o'r wybodaeth yma e.e. ymgyrchoedd hysbysebu am wasanaethau'r Cyngor. Fe ddylid ystyried rôl technoleg fel iBeacons er mwyn ehangu'r gallu yma.



**Cyfrifiaduron Cyhoeddus**—mae 105 o gyfrifiaduron wedi eu lleoli yn llyfrgelloedd y Sir at ddiben defnydd y cyhoedd. Nid yw y rhain wedi eu cynnwys yn rhaglen adnewyddon y Sir ar hyn o bryd ac yn cael eu hadnewyddu gyda hen gyfarpar sydd wedi oesi ar gyfer defnydd swyddfa. Mae cyfrifiaduron cyhoeddus yn cael eu defnyddio at aml bwrpas gan gynnwys disgyblion ysgol yn gwneud eu gwaith cartref, a'r di-waith yn chwilio am waith. Mae'n debyg y bydd y galw'n cynyddu wrth i gyfundrefn Diwygio Lles y Llywodraeth gyflymu, lle bydd rhagdybiaeth y bydd ceisiadau am Gredyd Cynhwysol yn cael eu gwneud ar lein.

Gydag ychydig o hyfforddiant i staff y llyfrgelloedd, gallwn fanteisio ar gyfleon i gyfeirio unrhyw ymholiad am wasanaethau'r Cyngor i'r wefan gorfforaethol. Fe ddylid hefyd manteisio ar gyfleon i farchnata'r cyfrwng ar lein ac annog defnyddwyr y gwasanaeth llyfrgell i greu cyfrif hunan wasanaeth.

**Cyfryngau cysylltu**—dylid ymchwilio ym mhellach i gyfryngau cyswllt rhwng y cyhoedd a'r Cyngor. Dau prif gyfrwng sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd, cyswllt drwy'r ffôn a chyswllt wyneb yn wyneb. Mae'r cyfrwng hunan wasanaeth drwy'r cyfrifiadur yn bodoli a chynlluniau ar y gweill i gryfhau'r ddarpariaeth yma. Mae cyfryngau eraill ar gael ac sy'n cael eu defnyddio gan ambell i adran yn y Cyngor, ond nid yw'r cyfryngau hyn wedi eu cyd-gysylltu e.e. facebook, twitter, instagram neu neges destun.

**Darpariaeth ffôn**—mae darpariaeth ffôn newydd wedi cael ei gyflwyno yn y Cyngor fel ymarferiad i wneud arbedion effeithlonrwydd. Byddwn yn ymchwilio ymhellach i'r dechnoleg newydd gan edrych am ffyrdd gwell o weithio.

# Rhoi pobol Gwynedd yn ganolog i bopeth

**Kiosks**—mae'r rhain yn gyfrifiaduron gwydn, fydd wedi eu lleoli mewn mannau cyhoeddus yn adeiladau'r cyngor, megis Siop Gwynedd, Canolfannau Hamdden, Llyfrgelloedd ayb. Byddant wedi eu ffurfweddu i gysylltu a gwefan hunan wasanaeth y Cyngor er mwyn cael mynediad rhwydd, syml a di-gost at wasanaethau'r Cyngor. Mae angen adolygu niferoedd y kiosks a'r mannau ble eu lleolir. Fe fydd llwyddiant y math yma o gyfrwng yn ddibynnol ar y gwasanaethau fydd ar gael ar y cyfrwng yma a'r cynllun hyrwyddo.

**Aelodau Etholedig**—fe fydd y etholiad i sefydlu Cyngor newydd ar Fai 4ydd, 2017. Mae cefnogaeth dechnegol a theclyn iPad yn cael eu cyflenwi i'r Cynghorwyr yn ystod y Cyngor presennol, ond fe fydd y cyfarpar wedi oesi erbyn yr etholiad nesaf.

Fe fydd y gwasanaeth TG yn cydweithio gydag aelodau o'r pwyllgor gwasanaethau democrataidd er mwyn darparu technoleg addas i gefnogi'r Cynghorwyr gyda'u dyletswyddau cyhoeddus.

# Dod a gwasanaethau'n agosach at bobol Gwynedd

## Buddsoddiad ychwanegol er mwyn gwireddu'r penawd

### CYFALAF

£15,000 (pecyn adrodd ar dueddiadau pori'r we)

£7,500 (ar gyfer dadansoddi sawl man cyswllt di-wifr sydd ei angen)*

Mae'r eitemau a nodwyd yma yn rai dylid eu cysidro'n ddymunol iawn o ran blaenoriaethu cefnogaeth ariannol, ac yn faterion y dylid eu cymeradwyo pe byddai modd darganfod adnodd i'w gwireddu drwy wyro cyllidebau.

*Fe allai'r dadansoddiad arwain at achos busnes am fwy/llai o fannau cyswllt di-wifr. Gall hyn arwain at fuddsoddiad pellach mewn cyfalaf, refeniw ac Adnoddau TG

**Nid yw'n manylu am gostau ar gyfer sefydlu'r sianel ddigidol gan bod hwn yn brosiect ychwanegol i ddatblygu achos busnes ac yn debygol o ofyn am gefnogaeth o £600,000

### ADNODD TG

DIM

**Nid yw'n manylu am gostau ar gyfer sefydlu'r sianel ddigidol gan bod hwn yn brosiect ychwanegol i ddatblygu achos busnes ac yn debygol o ofyn am gefnogaeth o un datblygwr llawn amser ar gost o £35,000 y flwyddyn

### REFENIW

£30,000 (Meddalwedd APIs ar gyfer y sianel ddigidol)

£3,000 (pecyn adrodd ar dueddiadau pori'r we)

Mae'r eitemau a nodwyd yma yn rai dylid eu cysidro'n ddymunol iawn o ran blaenoriaethu cefnogaeth ariannol, ac yn faterion y dylid eu cymeradwyo pe byddai modd darganfod adnodd i'w gwireddu drwy wyro cyllidebau.

**Nid yw'n manylu am gostau ar gyfer sefydlu'r sianel ddigidol gan bod hwn yn brosiect ychwanegol i ddatblygu achos busnes ac yn debygol o ofyn am gefnogaeth o £30,000 y flwyddyn

### Gweithgareddau sy'n gysylltiedig a'r buddsoddiad

- Cryfhau'n gallu i adrodd ar ddefnydd o'r we fel ymateb i agor ei ddefnydd e.e. galluogi mynediad i gyfryngau cymdeithasol
- Adolygu'n darpariaeth di-wifr
- Gweithio yn y maes*

*Fe all y gwaith ymchwil arwain at gostau cyfalaf a refeniw gyda'r symiau'n ddibynnol ar lefel y datrysiad a sut bydd yn cael ei gyflenwi. Bydd achosion busnes yn cael eu paratoi pe byddai angen mynediad at ffynhonnell ariannol

# Thema 2. Arwain, cefnogi a gwneud gwasanaethau'n fwy effithiol

**Amcanion cynllun Strategol Gwynedd sy'n cael eu gwireddu:**

**(1) Rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud**
**(2) Gwella gweithio'n integredig gan ganolbwyntio ar yr hyn sy'n cyfri i unigolion**
**(3) Paratoi'r gweithlu gofal er mwyn cwrdd a'r ffordd newydd o weithio**
**(4) Hybu defnydd y Gymraeg yng Ngwynedd**
**(5) Sicrhau cyllideb gytbwys gynaliadwy i'r dyfodol**



**Cefnogaeth TG**—fe fydd adolygiad llawn o'r trefniadau sydd mewn lle ar gyfer diwallu problemau defnyddwyr yn mynd rhagddo, gyda'r trefniadau yn cael eu hadeiladu o safbwynt gwella ac esmwytho'r profiad i'r cwsmer a thorri ar lwyth gwaith y Ddesg Gymorth. Fe fydd hyn yn cynnwys sut byddwn yn rhyngweithio gyda'n cwsmeriaid ac yn gwella eu profiad gan ddatrys eu problemau ar y pwynt cyswllt cyntaf.

Byddwn hefyd yn edrych i wneud yn well gyda'r wybodaeth sy'n cael ei gasglu yn ystod cyswllt y cwsmeriaid gyda'r Ddesg Gymorth a hyn ar gyfer adnabod a diwallu problemau'n well.

**Syrjeris**—mae'r Gwasanaeth TG wedi ei leoli'n gyfan gwbl yn y Pencadlys yng Nghaernarfon. Yn draddodiadol fe roedd cefnogaeth weledol i'w gael yn y swyddfeydd ardal, ond mae presenoldeb y gwasanaeth yn y mannau hyn bellach wedi crebachu'n arw. Byddwn yn ail gyflwyno cyfle i staff y swyddfeydd ardal ymweld a swyddogion y gwasanaeth drwy drefn syrjeris, gydag amledd a hyd i'w benderfynu.

**Ystafelloedd Cyfarfod**—fe fydd y gwasanaeth TG yn derbyn cyfrifoldeb am y dechnoleg sy'n cael ei gyflwyno a'i ddefnyddio oddi fewn yr ystafelloedd. Yn achlysurol, fe fydd angen ymweld a'r ystafelloedd pan fydd problemau'n codi. Byddwn yn cynnal adolygiad o'r holl gyfarpar yn yr ystafelloedd cyfarfod gan gynnwys cyfrifiaduron, offer cyflwyno, offer fideo gynadleddau a cyfarpar teleffoni.

**Rheolaeth Rhaglen**—ar hyn o bryd mae dau reolwr cyfrif yn gweithio oddi fewn yr uned rheoli rhaglen, a hyn yn adnodd sy'n cydweithio gydag adrannau eraill er mwyn hwyluso'r broses i wireddu datrysiadau TG. Mae un rheolwr cyfrif wedi bod yn ei le ers 2011, gyda'r ail yn ymuno yn 2014. Mae'r adrannau'n gweld gwerth mawr i'r rôl yma, ac mae'r llwyddiant wedi cynyddu'r galw a tydi dau reolwr cyfrif bellach ddim yn ddigon. Gwendid arall yn y rôl yma yw ei fod yn ceisio cyfarch pob elfen o'r ymgysylltu gyda'r cleient e.e. dadansoddi, rheoli prosiect, ond ddim yn gallu mynd yn ddigon twfn i'w wireddu'n llawn. Er mwyn cryfhau ar y ddarpariaeth i'r adrannau, mae cynnig bod yr uned rheolaeth rhaglen yn cael ei ymestyn i gynnwys rolau ar gyfer dadansoddwyr busnes a rheolwyr prosiect.

Mae angen i'r rôl rheolwr cyfrif esblygu ym mhellach ac i gael cyswllt aml gyda'r gweithwyr sy'n gwasanaethu'r cyhoedd yn uniongyrchol, hyn er mwyn dallt eu rolau ac er mwyn addysgu'r gweithwyr am ddatblygiadau technegol gall gyfoethogi'r ffordd mae'r gwasanaeth yn cael ei wireddu.

Gyda mwy o adnodd, fe allai'r uned rheoli rhaglen ymestyn i gynnwys gwasanaeth i ecsbloetio adnoddau'r adrannau'n well e.e. gwella safon a chywirdeb data, lleihau'r nifer o systemau gan wneud defnydd gwell o'r hyn sydd ganom.

Fe fydd angen i'r rheolwyr cyfrif ddod yn fwy amlwg oddi fewn yr adrannau ac yn gynharach yn y broses o gaffael systemau newydd gan adolygu'r gofyn am bolisi caffael TG, fel a nodwyd yn y strategaeth flaenorol.





# Arwain, cefnogi a gwneud gwasanaethau'n fwy effithiol

**Darparu technoleg i gyflawni**—eithriad yw'r angen i gael technoleg arbenigol ar gyfer unigolyn. Yn amlach na pheidio mae'r dechnoleg ei angen ar gyfer cyfarch gofynion y gwaith, nid yn annhebyg i swydd ddisgrifiad neu fanylion y person. i hwyluso'r drefn o ddyrannu offer i staff ac i wneud yn siŵr bod swyddogion y Cyngor yn derbyn y dechnoleg cywir i gyflawni eu dyletswyddau fe ddylid gwneud ymarferiad i ychwanegu categorïau o ddefnydd technoleg i'r system swyddi. Mae sawl mantais i hyn:

- Darparu offer ffit i bwrpas
- Adnabod costau cyflenwi offer yn erbyn swydd
- Lleihau ar wastraff ble mae penderfyniad mympwyol yn cael ei wneud
- Hwyluso trefn casglu cyfarpar pan fo swyddog yn gadael ei swydd



**Y Gymraeg**—mae'r Cyngor yn gweithredu polisi iaith lle bo gan bob aelod o'r cyhoedd yr hawl i dderbyn neu ddefnyddio eu holl wasanaethau unai yn y Gymraeg neu yn Saesneg. Mae safonau newydd y Gymraeg yn dod i rym ar Ebrill y 1af, 2016 gyda trefniadau penodol ar gyfer darparu gwasanaeth TG i'r cyhoedd. Fe fydd unrhyw gynnyrch TG sydd a phwrpas at wasanaethu'r cyhoedd yn ymrwymo i'r safonau iaith newydd.

Y Gymraeg yw iaith gweinyddol y Cyngor a'r strategaeth blaenorol yn datgan y byddai meddalwedd mewnol yn cyflenwi gwasanaeth yn y Gymraeg yn unig. Yn achlysurol, mae meddalwedd sydd wedi ei ddatblygu'n fewnol yn cael sylw allanol, a datblygiadau fel "Y Gwe Iaith" wedi cael sylw cenedlaethol. Er mwyn hwyluso rhannu systemau sydd wedi eu datblygu'n fewnol fe fydd oll o systemau'r Cyngor yn cael eu darparu yn y Gymraeg ond wedi ei bensaernio i gefnogi amlieithrwydd.

Byddwn yn casglu ystadegau am ddefnydd swyddogion y Cyngor o lwyfan Microsoft Windows ac Office yn y Gymraeg er pwrpas hyrwyddo ei ddefnydd ar y cyd gyda'r uned iaith.

**Hyfforddi**—mae'r Ddesg Gymorth yn delio a llawer o wahanol alwadau, rhai yn adrodd ar broblemau technegol ac eraill yn cysylltu a'r Ddesg Gymorth oherwydd nad yw eu sgiliau technegol yn ddigonol. Mae angen harnesu'r wybodaeth yma i adnabod gwendidau technegol cyffredinol a cydweithio gyda'r uned Dysgu a Datblygu i greu pecynnau hyfforddi i staff y Cyngor.




Mae sôn am syrjeris wedi bod yn barod, sy'n gyfle i roi cefnogaeth anffurfiol i staff. Gallwn wella ar hyn drwy gyflwyno ymarferion gwaith da fel rhan o drefniadau anwytho staff, a newid y drefn o gyflwyno cyfarpar. Ar hyn o bryd mae cyfarpar yn mynd i staff mewn llif parhaus, gyda'r disgwyliad eu bod yn gwybod sut i'w ddefnyddio. Byddai cyflwyno'r cyfarpar i staff ar ffurf gweithdy yn rhoi cyfle i'r Gwasanaeth TG hyfforddi ar ei ddefnydd ac yn osgoi cyflwyno yr un wybodaeth sawl gwaith.

**Technoleg fel galluogwr i drawsnewid**—Fe fydd y gwasanaeth TG yn profi nifer o wahanol ddyfeisiadau fydd yn galluogi staff i weithio yn lle bynnag a phryd bynnag sy'n gyfleus iddyn nhw. Yn hanesyddol, mae'r adran wedi bod yn cyflenwi cyfarpar ar gyfer gweithio traddodiadol, sef darpariaeth yn y swyddfa, ond mae'r ddelfryd a disgwyliadau staff a rheolwyr yn newid. Mae gwaith yn gyfres o dasgau sy'n cael eu cyflawni yn hytrach na rhywle mae rhywun yn ei fynychu, ac mae angen i'r gwasanaeth TG arfogi'r gweithlu gyda'r cyfarpar pwrpasol i wireddu hyn.

# Arwain, cefnogi a gwneud gwasanaethau'n fwy effithiol

**Gweithio Rhyng-Asiantaethol** - tydi gweithio ar draws sawl asiantaeth ddim yn rhywbeth newydd, ond yn hanesyddol, tydi'r dechnoleg ddim wedi ei ddarparu mewn modd sy'n ei gwneud hi'n hwylus i gefnogi'r math yma o weithio. Mae sawl esiampl o swyddogion Gwynedd yn cydweithio â swyddogion o sefydliadau eraill heddiw, er enghraifft:

- gweithwyr gofal a tîm Derwen, sef Tîm Integredig Plant Anabl sy'n cydweithio â staff o'r bwrdd Iechyd
- swyddogion polisi cynllunio'n cydweithio gyda gweithwyr cyfatebol o Ynys Môn
- swyddogion Ymgynghoriaeth Gwynedd yn cydweithio gyda swyddogion o'r Asiantaeth Cefnffyrdd.





Mae mwy o bwyslais ar gydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd am ddod drwy law'r System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru, sydd yn olynydd i'r system wybodaeth gofal cymdeithasol presennol (RAISE). Mae nawdd wedi ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru i gaffael system sy'n cefnogi gweithio ar y cyd ar gyfer gofal cymdeithasol a chymunedol a hyn er mwyn ceisio cael un golwg ar y cleient/claf gan hyrwyddo Gwybodaeth gywirach, ddiweddar a gan osgoi dyblygu.

Mae angen paratoi technoleg mewn modd ble rydym yn caniatáu mynediad i swyddogion o asiantaethau eraill i systemau Gwynedd, gan alluogi a dylanwadu ar yr asiantaethau eraill i roi mynediad cyfatebol i staff Gwynedd.



**Dallt ein data** - fe amlygodd data ei hun mewn amryw o sgyrsiau yn ystod yr ymchwil a wnaethpwyd ar gyfer ffurfio'r Strategaeth hon. Fe gododd cwestiynau yn ymwneud ac adrodd ar wybodaeth, y wybodaeth sy'n cael ei gadw a'r systemau sy'n bodoli ar gyfer cofnodi ac ymdrin a'r data. Canlyniad y sgyrsiau oedd bod amheuaeth mawr a ydym yn:

- Gwybod pa ddata sy'n cael ei gasglu a'i gofnodi
- Cadw a chasglu data nad oes ei angen
- Cadw a chasglu data sy'n gwneud gwahaniaeth
- Gwybod ym mhle mae'n data cywir
- Y ffordd orau i adrodd ar ein data

Mae'n amhriodol i'r Strategaeth TG gyflwyno atebion ar gyfer yr uchod, ond mae digon o gwestiynau wedi eu gofyn i amlygu bod angen edrych ym mhellach i hyn a dod ag argymhellion pellach yn dilyn ymchwil ar y cyd gyda'r uned ddata corfforaethol ac adrannau'r Cyngor ac yn cael eu cefnogi gan y gwasanaeth TG.

# Arwain, cefnogi a gwneud gwasanaethau'n fwy effithiol

**Mewnrwyd i bawb**—mae 2,350 o swyddogion coler wen y Cyngor gyda mynediad at y fewnrwyd. Mae'r Cyngor yn cyflogi oddeutu 6,500 o staff, sy'n golygu bod mwy na 4,000 o weithwyr yn cael eu heithrio o gael at wybodaeth a buddiannau sy'n cael eu cyflwyno ar y fewnrwyd.

Yn ogystal â'r fewnrwyd, mae darpariaethau eraill ar gynnydd, sy'n cyflwyno ffyrdd newydd a fwy effeithlon i weithwyr y Cyngor ymdopi a thasgau gweinyddol megis cwblhau hawliadau teithio, amserlenni gwaith, cwblhau ffurflenni gwyliau/absenoldeb. Mae'r ddarpariaeth hunan wasanaeth yma yn ymestyn i gynnwys mynediad at slipiau talu cyfredol a hanesyddol, ac wedi ei bensaernïo mewn modd ble gall unrhyw un cofrestredig gael mynediad i'r system, boed hynny yn y gwaith neu o gartref.






Mae'r ddarpariaeth mewnrwyd angen ei bensaernïo yn yr un ffordd a'r system hunan wasanaeth, gan gefnogi mynediad at y fewnrwyd gan unrhyw un cofrestredig o unrhyw le, boed hynny yn y gwaith neu o gartref.

**EDRMS**—mae'r prosiect iGwynedd wedi ei sefydlu fel rhan o'r strategaeth ddiwethaf, ond y gweithgaredd yn cario yn ei flaen i'r strategaeth bresennol. Mae iGwynedd wedi ei adeiladu ar lwyfan Microsoft Sharepoint, ac yn lwyfan cynhwysfawr sy'n gallu cynnig gwasanaethau lu. Fe fydd iGwynedd yn cael ei ddefnyddio gan oll o staff y Cyngor erbyn diwedd 2017 ac fe fydd Sharepoint yn cael ei gysidro fel llwyfan datblygu unrhyw system i'r dyfodol a'r cwestiwn o integreiddio gyda Sharepoint ac iGwynedd yn gwestiwn fydd yn cael ei sgorio a'r dendrau ar gyfer systemau gan ddarparwyr allanol.

Mae llwyddiant iGwynedd yn flaenoriaeth i'r Cyngor a hyn yn cael ei adlewyrchu yn ymdrechion oll o unedau'r gwasanaeth TG.

# Arwain, cefnogi a gwneud gwasanaethau'n fwy effithiol

**Ymchwil**—mae technoleg yn newid ar cryn dipyn o gyflymder ac mae angen neilltuo amser i ymchwilio i dueddiadau a datblygiadau er mwyn cyflwyno'r gwasanaeth gorau. Mae disgwyliadau swyddogion y Cyngor yn newid hefyd a'u defnydd o dechnoleg personol yn cynyddu ac yn mynd yn fwy soffistigedig, ond yn wahanol i'r defnydd o offer personol ar gyfer dibenion pleser, mae cryn gyfyngiadau arnom o ran diogelwch. Y sialens yw cyflwyno technoleg gwydn, arloesol, ffit i bwrpas, effeithlon, effeithiol a diogel. Mae angen buddsoddi amser ar gyfer profi'r technoleg newydd a'i addasrwydd ar gyfer maes gwaith y Cyngor.




Mae gweithlu'r Cyngor yn ymestyn i oddeutu 6,500 aelod o staff, gyda 2,350 o'r rhain yn ddefnyddwyr cyfrifiaduron traddodiadol, a'r ddarpariaeth yma'n gritigol i'r swyddogion hynny gwblhau eu tasgau. Yn y gorffennol, mae ymdrechion y gwasanaeth TG wedi ei ganoli ar y defnyddwyr traddodiadol hyn, ond efallai bod cyfleon nad ydym wedi ymchwilio ble gall ddarpariaeth technegol fod yn gymorth i 'r staff a'r swyddi ble nad ydym yn paratoi darpariaeth ar hyn o bryd, gan gynnwys ymledu i ddefnydd y cyhoedd.

- *Gwasanaethau casglu gwastraff*—gall technoleg systemau gwybodaeth daearyddol gael eu defnyddio i wneud llwybrau casglu'n fwy effeithiol e.e. Cyngor Dosbarth East Northamptonshire yn arbed £200,000 y flwyddyn drwy ddefnyddio'r dechnoleg yma

- *Cynnal a chadw priffyrdd*—mae cwmni ceir Jaguar Land Rover yn arbrofi gyda technoleg sy'n cofnodi tyllau yn y ffordd a chwmni technoleg Google wedi derbyn patent ar gyfer technoleg tebyg. Gall technoleg o'r math yma gael ei ddefnyddio i ddarganfod diffygion cyn eu bod yn datblygu i fod yn broblemau costus

- *Cartrefi cysylltiedig*—mae technoleg megis teleofal yn cael ei ddefnyddio ers peth amser ar gyfer diogelu pobl hyn a'r bregus yn eu cartrefi. Mae'r IoT (*Internet of Things*) yn ymestyn ar hyn ac yn galluogi i dechnoleg ymddwyn yn llawer mwy deallus a'i bosibiliadau yn bell gyrhaeddol. Drwy ymchwilio fe allwn fanteisio ar y datblygiadau hyn er mwyn gwella ansawdd bywyd ein trigolion a cyflwyno gwasanaethau gofal yn rhatach.

- *Diogelu staff*—rydym eisoes wedi ymchwilio i dechnoleg sy'n tracio ceir gan ddefnyddio cyfuniad o gyfarpar tracio a'r system GIS. Mae ymchwil pellach yn arwain at ffyrdd y gallwn ddefnyddio'r math yma o dechnoleg i ddiogelu'n staff mewn sefyllfaoedd eithaf bregus e.e. gweithwyr yn ymweld â chleientiaid ar eu pen eu hunain neu sy'n gweithio ar eu pen eu hunain yn gyffredinol. Fe all ffôn symudol gael ei ddefnyddio fel teclyn i adnabod ym mhle mae rhywun, felly yn aml iawn, ni fyddai angen cyfarpar ychwanegol.

**Strategaeth TG Addysg** – mae ysgolion Gwynedd yn cael eu cefnogi gan sawl sefydliad, sef yr Awdurdod Addysg oddi fewn Cyngor Gwynedd, cwmni lled braich Cynnal, Gwasanaeth Effeithlonrwydd a Gwella Ysgolion Gogledd Cymru (GwE), Consortiwm Addysg ôl 16, Gwasanaeth Anghenion Addysgol Arbennig, Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru ac ESTYN. Mae'r rhain yn gymysgedd o gyrff lleol, is-ranbarthol, rhanbarthol a chenedlaethol

# Gwasanaeth TG Effeithiol ac Effeithlon

Ers 1996, cwmni Cynnal sydd wedi bod yn rhoi darpariaeth a chefnogaeth TG i ysgolion Gwynedd, ac ers sefydlu GwE yn 2013, yr elfen TG yn unig mae Cynnal yn ei gefnogi, gyda'r agwedd cwricwlwm wedi ei drosglwyddo i GwE. Gan bod rheolaeth a chyllideb yr ysgolion wedi eu datganoli, mae eu ymrwymiad, cefnogaeth a phrofiad TG yn gwahaniaethu'n arw, a gall profiad ac amlygiad disgyblion i dechnoleg wahaniaethu'n fawr o un ysgol i'r llall.

Mae buddsoddiad sylweddol wedi ei wneud ar gyfer cryfhau isadeiledd TG oddi fewn ein ysgolion, a hyn drwy nawdd gan Lywodraeth Cymru o dan y rhaglen Dysgu yn y Gymru Ddigidol.

Byddwn yn cydweithio gyda'r Adran Addysg er mwyn llunio Strategaeth Ddigidol Ysgolion Gwynedd er mwyn uchafu ar y defnydd o dechnoleg i wella safon addysg yn y Sir.

# Arwain, cefnogi a gwneud gwasanaethau'n fwy effithiol

**Buddsoddiad ychwanegol er mwyn gwireddu'r penawd**



## CYFALAF

**£45,000 (safonni ar y cyfarpar sydd ar gael yn yr ystafelloedd—cyfanswm o 9 ystafell)**

**Dibynnu ar ddarganfyddiadau ymchwil**

Mae'r eitemau a nodwyd yma yn rai dylid eu cysidro'n ddymunol iawn o ran blaenoriaethu cefnogaeth ariannol, ac yn faterion y dylid eu cymeradwyo pe byddai modd darganfod adnodd i'w gwireddu drwy wyro cyllidebau.

## ADNODD TG

**2.0 FTE Parhaol ar raddfa S3 (Dadansoddwr Busnes / Rheolwr Prosiect—cyfanswm o £74,000 am y ddwy swydd)**

**Dibynnu ar ddarganfyddiadau ymchwil**

Mae'r eitem a nodwyd yma yn hanfodol i wireddu'r strategaeth ac angen cefnogaeth ariannol.

## REFENIW

**DIM**

## Gweithgareddau sy'n gysylltiedig a'r buddsoddiad

- Cryfhau darpariaeth ystafelloedd cyfarfod
- Cryfhau'r swyddogaeth rheoli rhaglen
- Dibynnu ar ddarganfyddiadau ymchwil

# Thema 3. Gwasanaeth TG Effeithiol ac Effeithlon

**Amcanion cynllun Strategol Gwynedd sy'n cael eu gwireddu:**

**(1) Rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud**
**(2) Sicrhau cyllideb gytbwys gynaliadwy i'r dyfodol**

**Rheoli newid**—i osgoi dryswch gyda rheoli newid corfforaethol, mae hwn yn ymwneud ac ymarfer da o drafod unrhyw newid fydd yn cael ei wneud i systemau cyfrifiadurol y Cyngor. Cwmpas yr ymarferiad yma fydd ceisio lleihau unrhyw aflonyddu ar y gwasanaeth pan yn cyflwyno newid. Mae buddsoddi amser i ymchwilio pe byddai newid yn achosi problem yn talu ar ei ganfed i gymharu a'r amser gallwn ei wastraffu yn ceisio ymateb i gywiro sefyllfa pan fo newid wedi mynd o chwith. Nid gwastraffu amser y tîm technegol yw'r byrdwn mwyaf pan fod newid yn mynd o chwith, ond ei sgîl effaith ar ein defnyddwyr a'r amser cynhyrchiol byddai'n cael ei golli oherwydd diffygion dianghenraid.



Byddwn yn edrych i ymgorffori trefn o reoli newid fel rhan o ddarpariaeth y system ddesg gymorth, sydd hefyd yn cael ei adolygu i'r pwrpas o wneud yn well gyda'r hyn sydd ganom. Mae'n hanfodol bod y drefn yn un bragmataidd, sy'n cael ei gyflwyno gyda'r bwriad o arbed amser ac yn cefnogi'n ymdrechion yn hytrach na ychwanegu atynt.

**Dogfennu a chofnodi gwybodaeth**—nifer cyfyngedig o swyddogion technegol sydd gan y gwasanaeth TG, a golyga hyn, mewn sawl achlysur, bod arbenigedd ar ambell system yn gyfyngedig i unigolyn. Yn ddelfrydol byddwn yn cael mwy nag un swyddog yn arbenigwr ar y systemau, ond tydi ddim yn ymarferol gan y byddai'n ychwanegu'n sylweddol i'r gweithlu. Fodd bynnag fe allwn wella ar ein trefn o ddogfennu systemau a chadw cronfa wybodaeth am ein systemau.

**Adolygu a rhesymoli gweithgareddau'r ddesg gymorth**—y ddesg gymorth yw'r adwy i rhan fwyaf o staff y Cyngor at y gwasanaeth TG. Mae oddeutu 20,000 o ddigwyddiadau'n cael eu cofnodi gyda'r ddesg gymorth, ond tua dwbl hyn o gofnodion o gyswllt gyda'r ddesg gymorth, gyda nifer cynyddol o staff y Cyngor yn methu gwneud cyswllt ar yr ymdrech gyntaf oherwydd bod swyddogion y ddesg gymorth yn prosesu galwadau eraill. Tydi hyn ddim yn gynaliadwy, ac mae cefnogaeth wedi ei dderbyn gan y Cyngor i ychwanegu adnoddau i'r uned yma, gyda'r bwriad o gynyddu y nifer o alwadau sy'n cael eu diwallu ar y pwynt cyswllt cyntaf o 63% i 85%.

Ymgais arall sydd angen ei wella yw i ddod a'r nifer o broblemau sy'n cael eu cofnodi yn is, ond mae'n debyg taw cynyddu bydd y rhain ar y cychwyn gan bod nifer sylweddol o broblemau'n cael eu diwallu heb eu cofnodi ar hyn o bryd, hyn oherwydd diffyg amser. Mae'n hanfodol ein bod yn cofnodi popeth er mwyn cael gwell dealltwriaeth o ble mae ein problemau'n bodoli, a dim ond drwy adnabod hyn y gallwn ddadansoddi a rhoi mesurau i gryfhau y mannau hynny o'r gwasanaeth sy'n arddangos canran uchel o broblemau.

Fe fydd uned y ddesg gymorth yn cael ei wella drwy:

- Adolygu ein defnydd o'r system ffôn
- Symleiddio'r broses o gofnodi galwadau
- Cyflwyno elfennau o hunan wasanaeth i swyddogion y Cyngor fonitro cynnydd ar eu galwadau
- Cryfhau ein presenoldeb ar y fewnrwyd mewn ymgais i swyddogion y cyngor helpu eu hunain drwy wneud defnydd o gronfa wybodaeth gynhwysfawr

# Gwasanaeth TG Effeithiol ac Effeithlon

**Rhaglenni gwaith**—yn hanesyddol, mae cryn wahaniaeth wedi bod yn y ffordd mae'r uned ddatblygu ac unedau isadeiledd yn rheoli eu rhaglen waith, gyda'r uned ddatblygu yn cynhyrchu a monitro rhaglen gynhwysfawr a'r timau isadeiledd yn trin pob darn o waith fel gwaith ymatebol. Un o'r rhesymau dros hyn yw diffyg amser yn y tîm isadeiledd, ond gyda'r buddsoddiad diweddar a wnaethpwyd i gryfhau'r unedau hyn, mae amser yn gallu cael ei ryddhau yng ngwaith dyddiol yr arweinwyr tîm ac arweinwyr technegol i greu a monitro rhaglenni gwaith. Golyga hyn y byddwn yn gallu cyfathrebu'n gliriach a mwy hyderus i'n cleientiaid ar gynnydd, a rheoli disgwyliadau am unrhyw lithriadau.

Mantais arall rhaglen waith gynhwysfawr yw'r gallu i gasglu gwybodaeth hanesyddol gall ein helpu i gynhyrchu rhaglenni gwaith cywirach i'r dyfodol ac adnabod tueddiadau ar gyfer llithro. Mae'r uned ddatblygu yn cofnodi amser y datblygwyr, gan gofnodi prun a'i gwaith datblygu neu gynnal a chadw sy'n cael ei wneud. Mae'r ystadegyn yma'n hanfodol er mwyn darganfod faint o adnodd sydd ar gael ar gyfer unrhyw waith datblygol newydd ac felly'n golygu bod y rhaglenni gwaith yn cyd-redeg gyda'n disgwyliadau gwreiddiol. Tydi hyn ddim yn wir ar gyfer yr unedau isadeiledd ac mae bron yn amhosib cael rhaglen waith i redeg yn erbyn yr amcanion gwreiddiol. Fe fydd yr unedau hyn yn dilyn ymarfer da yr unedau datblygu ac yn cofnodi eu ymdrechion i adnabod faint o waith datblygol/cynnal a chadw sy'n cael ei wneud.



Mae rhaglenni gwaith clir yn rhoi darlun o'r llwyth gwaith sydd yn nhimau'r gwasanaeth ac yn hwyluso'r broses o flaenoriaethu. Fe fydd y rhaglen waith yn cael ei hadolygu yn nhîm rheoli'r gwasanaeth TG ac blaenoriaeth yn cael ei rannu gan y rheolwyr cyfrif, gydag unrhyw brosiect sydd angen newid blaenoriaeth yn cael ei gyfeirio i'r Grŵp Llywodraethu TG.

**Rhagweithiol v Ymatebol**—mae natur presennol y gwasanaeth TG yn gymysgedd o ymarferion rhagweithiol, ble mae ymdrechion y gwasanaeth yn cael ei reoli gyda rhaglenni gwaith, a'r eraill yn ymarferion ymatebol ble nad oes posib rhagdybio hyd a lled eu heffaith ar adnoddau'r gwasanaeth.

Mae gwaith ymatebol yn dod atom o ddau wahanol gyfeiriad, gwaith sydd angen ei wneud ar frys oherwydd bod nam neu broblem a gwaith ble mae gofyn ychwanegol wedi dod i wasanaeth y Cyngor ac mae angen creu datrysiad ar fyrder. Yn bresennol, er mwyn cyflawni'r gwaith ymatebol, rydym yn ail flaenoriaethu'r gwaith rhagweithiol gan atal rhai digwyddiadau'n llwyr, ac er ein bod yn diwallu'r broblem/cais ymatebol, rydym yn esgeuluso ar ddyletswyddau cynnal a chadw, sy'n gallu creu problem i'r dyfodol.

Y bwriad yw ceisio osgoi cymaint ac y gallwn o'r gwaith ymatebol gwastraffus, ble rydym yn cywiro nam neu broblem, gan ryddhau mwy o amser i'r gwaith ymatebol datblygol. Rhagwelir y gellir gwneud hyn drwy fuddsoddi mwy o amser yn y rhaglen waith rhagweithiol er mwyn tawelu problemau cyn eu bod yn digwydd gan ryddhau mwy o amser na'r buddsoddiad a wneir. Mae hyn yn hanfodol ar gyfer rhyddhau amser staff i weithio ar becynnau gwaith sy'n gwella'r Cyngor ac i ymateb i geisiadau a ddaw o weithgareddau fel ymyraethau Ffordd Gwynedd.

# Gwasanaeth TG Effeithiol ac Effeithlon



**Y Cwmwl**—bob yn hyn a hyn mae'r diwydiant technoleg yn sefydlu gweithgaredd neu drefn sydd a disgwyl i sefydliadau eu dilyn. Mae'r "cwmwl" yn ddisgrifiad o drefn ble mae llai o ddibyniaeth ar galedwedd ac ystafelloedd pwrpasol i gynnal offer ble mae gwasanaethau'n cael eu lletya. Mae gan Gyngor Gwynedd ddau ganolfan ddata, y brif un yn y Pencadlys yng Nghaernarfon ac un wrth gefn yn lleoliad Galw Gwynedd ym Mhenrhyndeudraeth. Mae oll o systemau'r Cyngor a'n gwybodaeth yn cael eu lleoli yn y mannau hyn.

Bellach, mae'n amhosib diystyru'r "cwmwl" ar gyfer lleoli systemau ac/neu wybodaeth y Cyngor, ond mae'n rhaid gwerthuso hyn yn nhermau costau, ymarferoldeb a diogelwch. Yn ystod tair blynedd y strategaeth hon, byddwn wedi creu strategaeth cwmwl y Cyngor gan roi cyfeiriad at ddarpariaeth y dyfodol.

**Gwerth am arian**—un datrysiad yw cael darpariaeth mewnol i wasanaethu dibenion technegol y Cyngor. Mae esiamplau ble mae'r gwasanaeth wedi ei allanoli i gyrff masnachol ac esiamplau ble mae cyfansoddiad cydweithredol neu gwmni hyd braich yn cael ei ddefnyddio i gyflenwi gwasanaethau TG. Mae'r gwasanaeth TG yng Nghyngor Gwynedd yn dilyn y model traddodiadol o gael gwasanaeth mewnol yn gwasanaethu ar anghenion technoleg y Cyngor.

Ychydig yw'r esiamplau o allanoli gwasanaethau TG yng Nghymru. Yn 2006 fe arwyddodd Cyngor Abertawe gytundeb 10 mlynedd gyda Capgemini ar gyfer allanoli eu gwasanaeth TG, gan ddatgan y byddai'n arbed gwerth £70m yn y cyfnod. Erbyn 2013, dim ond £6m oedd wedi ei arbed, a bellach yn 2016 mae'r gwasanaeth TG yn dod yn ôl i fewn i'r Cyngor.

Yr esiampl arall y gallwn droi ato yng Nghymru yw'r cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru ac Atos. Ers ei sefydlu yn 1998, mae gwasanaeth TG y llywodraeth wedi ei allanoli o dan gytundeb "Merlin". Yn 2012 fe ymestynnwyd y gytundeb i 2017 gyda Llywodraeth Cymru'n asesu beth fydd eu camau nesaf o ran parhau gyda'r trefniadau o allanoli neu gysidro mewnoli'r gwasanaeth neu gyfuniad o'r ddau.

O ran cymhariaeth gyda Chynghorau eraill Cymru, mae'r Gwasanaeth TG yn sylweddol rhatach na'r rhan fwyaf o Gynghorau eraill Cymru. Yn ôl adroddiad KPMG ar gostau gweinyddol cynghorau Cymru yn Mehefin 2015, mae costau TG Cyngor Gwynedd yn 12% yn is na chyfartaledd Cymru. Nid adroddiad ynysig yw hwn ychwaith, gydag adroddiad meincnodi CIPFA adrodd ar sefyllfa tebyg a gwariant ar TG yng Ngwynedd yn 1/3 yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru.

Byddwn yn cymryd rhan mewn ymarferiad meincnodi ar y cyd gyda'r 21 Awdurdod arall yn ystod 2016/17. Mae hwn yn ymarferiad ar gomisiwn i Socitm (Society of IT Managers) ac wedi derbyn mewnbwn gan oll o'r Awdurdodau. Fe fydd cyfle i ni redeg yr ymarferiad ar gychwyn y flwyddyn ariannol ac unwaith eto ar y diwedd, mewn ymgais i'r gymhariaeth fod cyn agosed a phosib.

Yn dilyn ymchwil, yn ystod 2017/18, byddwn yn cyflwyno argymhelliad o ddyfodol y gwasanaeth i'r Cyngor.

## Gwasanaeth TG Effeithiol ac Effeithlon

**Buddsoddiad ychwanegol er mwyn gwireddu'r penawd**

| **CYFALAF**<br>DIM | **ADNODD TG**<br>Dim |
|---|---|
| **REFENIW**<br>Dim | **Gweithgareddau sy'n gysylltiedig a'r buddsoddiad**<br>Gwerth am arian |



# Adolygu a Gwerthuso'r Strategaeth



Fe fydd cynnydd yn erbyn y Strategaeth TG yn cael ei adrodd i'r Grŵp Llywodraethu Technoleg Gwybodaeth ac fel rhan o drefniadau adrodd perfformiad y Cyngor. Mae'r Strategaeth hon wedi ei pharatoi i gwrdd a blaenoriaethau presennol Cyngor Gwynedd ac fe all y blaenoriaethau hyn newid wrth i'r Cyngor lunio strategaethau newydd i'r dyfodol, gyda'r newidiadau hyn angen ei adlewyrchu yn y Strategaeth TG.

Gall ffactorau oddi allan i drefniadau mewnol y Cyngor hefyd gael dylanwad ar ddatblygiad y Strategaeth TG. Ers i Lywodraeth Cymru diddymu rôl y Prif Swyddog Gwybodaeth, ac yn ei sgîl tîm cefnogaeth Swyddfa'r Prif Swyddog Gwybodaeth, mae unrhyw ddatblygiad ar strategaeth cenedlaethol wedi dirwyn ei ben. Mae strategaethau eraill yn cael eu datblygu, megis "Digidol yn Gyntaf", sy'n weledigaeth yn hytrach na strategaeth ar hyn o bryd a Strategaeth TG y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, sy'n cynnwys blaenoriaethau gweinidogaethol.

Fel rhan o unrhyw adolygiad, mae angen pwyso a mesur y gwahaniaeth mae'r Strategaeth yn ei wneud. Mae hyn yn adlewyrchu ar lwyddiant y strategaeth neu'n codi cwestiynau ar beth sydd angen ei newid er mwyn neud gwelliannau. Golyga hyn ein bod yn gwerthuso effaith a safon gweithredu'r strategaeth, gyda'r bwriad o ddefnyddio technoleg i wneud gwelliannau parhaus i'r gwasanaethau sydd ar gael i fobol Gwynedd.

# Crynodeb o'r adnoddau ychwanegol sydd eu hangen i wireddu'r Strategaeth

| Gweithgaredd | Cyfalaf | Refeniw (cynnwys adnodd TG) |
|---|---|---|
| Hwyluso cysylltu gyda'r Cyngor | £22,500* (gall fod yn sylweddol fwy os yw'r di-wifr yn cael ei ymestyn) | £3,000* (efallai byddai angen ychwanegu at adnodd TG os yn ymestyn y rhwydwaith di-wifr yn sylweddol) |
| Ystafelloedd Cyfarfod | £45,000* | DIM |
| Rheolaeth Rhaglen | DIM | £74,000** |
| CYFANSWM | £67,500 | £77,000 |



* Mae'r eitemau a nodwyd yma yn rai dylid eu cysidro'n ddymunol iawn o ran blaenoriaethu cefnogaeth ariannol, ac yn faterion y dylid eu cymeradwyo pe byddai modd dargan-fod adnodd i'w gwireddu drwy wyro cyllidebau.

** Mae'r eitem a nodwyd yma yn hanfodol i wireddu'r strategaeth ac angen cefnogaeth ariannol.

# Gweithgareddau a all arwain at achosion busnes pellach

| Gweithgaredd | Cyfalaf | Refeniw (cynnwys adnodd TG) |
|---|---|---|
| Gweithio yn y maes | Yr adrannau i ariannu unrhyw ddarpariaeth o weithio yn y maes | |
| Ymchwil | DIM (ond fe all ymchwil arwain at ddarganfyddiadau gall ddatblygu'n brosiect ar gyfer y dyfodol. Byddai'r prosiectau hyn yn cael eu cefnogi gyda achosion busnes ychwanegol) | |
| Gweithio rhyng-asiantaethol | Gall fod angen buddsoddi er mwyn cyflwyno gwasanaeth effeithiol. Ni fyddwn yn adnabod yr union gostau ychwanegol tan bod ymchwil pellach wedi ei wneud | |
| Y Sianel Ddigidol | Mae prosiect penodol wedi ei lunio ar gyfer y sianel ddigidol, ble mae darogan cost un tro o oddeutu £600,000 (£200,000 y flwyddyn dros dair blynedd) a chostau parhaol o £65,000, fydd yn cynnwys un datblygwr TG | |

# Camau ymdrech y strategaeth

## Rhoi pobol Gwynedd yn ganolog i bopeth

| Gweithgaredd | Cam | 2016 | 2017 | 2018 | Cyfalaf | Refeniw (cynnwys adnodd TG) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Y Sianel Ddigidol | | | | | | |
| | Ymchwil a sefydlu'r system fydd yn sail i'r datrysiad | | | | | |
| | Darparu sianel ddigidol i 18 gwasanaeth | | | | | |
| | Darparu sianel ddigidol i 14 gwasanaeth | | | | | |
| | Darparu sianel ddigidol i 6 gwasanaeth | | | | | |
| Gweithio yn y maes | | | | | Yr adrannau i ariannu unrhyw ddarpar-iaeth o weithio yn y maes | |
| | Adolygiad o'r isadeiledd cefnogi | | | | | |
| | Adolygu cytundeb ffonau symudol | | | | | |
| | Darparu ymarfer da ar gyfer defnydd o offer teleffoni yn y swyddfa/yn y maes | | | | | |
| | Adolygu gwahanol ddarpar-iaethau a chyfarpar i weithio yn y maes | | | | | |
| | Darparu datrysiad corffor-aethol | | | | | |

# Camau ymdrech y strategaeth

## Rhoi pobol Gwynedd yn ganolog i bopeth (parhad)

| Gweithgaredd | Cam | 2016 | 2017 | 2018 | Cyfalaf | Refeniw (cynnwys adnodd TG) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Hwyluso cysylltu gyda'r Cyngor (eitem dymunol iawn o ran cefnogaeth ariannol) | | | | | £22,500 (gall fod yn sylweddol fwy os yw'r di-wifr yn cael ei ymestyn) | £3,000 (efallai byddai angen ychwanegu at adnodd TG os yn ymestyn y rhwydwaith di-wifr yn sylweddol) |
| | Sefydlu trefn ddiogel ble mae defnydd o'r we a chyfryngau cymdeithasol yn cael ei ryddhau o rwystrau mynediad | ↔ | | | | |
| | Darparu arolwg i ledaenu mynediad at rwydwaith di-wifr yn swyddfeydd y Cyngor | | ↔ | | | |
| | Adolygu a rhesymoli defnydd o gyfrifiaduron i'r cyhoedd yn ein llyfrgelloedd | | ↔ | ↔ | | |
| | Paratoi adroddiad ar sut y gallwn wneud defnydd gwell o'r system ffôn newydd a gwella profiad cysylltu gyda'r Cyngor i'r dinesydd | ↔ | | | | |
| | Ymchwilio a darparu ffyrdd amgen i'r dinesydd gysylltu a'r Cyngor | | ↔ | | | |

# Camau ymdrech y strategaeth

## Rhoi pobol Gwynedd yn ganolog i bopeth (parhad)

| Gweithgaredd | Cam | 2016 | 2017 | 2018 | Cyfalaf | Refeniw (cynnwys adnodd TG) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Aelodau Etholedig | | | | | DIM. Fe fydd unrhyw fuddsoddiad mewn technoleg yn cael ei wneud drwy gyllideb y gwasanaeth cefnogi democratiaeth | |
| | Adolygu i dechnoleg ar gyfer Aelodau Etholedig erbyn y Cyngor nesaf | | | | | |
| | Darparu technoleg i'r Aelodau Etholedig | | | | | |
| | Hyfforddi'r Aelodau i ddefnyddio'r technoleg newydd | | | | | |

# Camau ymdrech y strategaeth

## Arwain, cefnogi a gwneud gwasanaethau'n fwy effithiol

| Gweithgaredd | Cam | 2016 | 2017 | 2018 | Cyfalaf | Refeniw (cynnwys adnodd TG) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cefnogaeth TG | | | | | DIM | |
| | Adolygiad o drefniadau cefn-ogi'r Ddesg Gymorth | | | | | |
| | Cryfhau presenoldeb y gwas-anaeth TG ar y mewnrwyd er mwyn gwella argaeledd ein cefnogaeth | | | | | |
| | Defnyddio'r system ffôn newydd i wella'r gwasanaeth i'r defnyddwyr | | | | | |
| Syrjeris | | | | | DIM | |
| | Sefydlu syrjeris i swyddogion yn swyddfeydd ardal gael mynediad gweledol at y gwasanaeth TG | | | | | |

# Camau ymdrech y strategaeth

## Arwain, cefnogi a gwneud gwasanaethau'n fwy effithiol (parhad)

| Gweithgaredd | Cam | 2016 | 2017 | 2018 | Cyfalaf | Refeniw (cynnwys adnodd TG) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ystafelloedd Cyfarfod** (eitem dymunol iawn o ran cefnogaeth ariannol) | | | | | £45,000 | DIM |
| | Adolygu addasrwydd ystaf-elloedd cyfarfod y Cyngor | | | | | |
| | Dylunio unrhyw newidiadau i gyfarpar ac/neu defnydd yr ystafelloedd | | | | | |
| | Cyflwyno'r ddarpariaeth newydd | | | | | |
| | Ail ddylunio'r gwasanaeth neilltuo ystafelloedd cyfarf-od | | | | | |
| **Rheolaeth Rhaglen** (eitem hanfodol o ran cefnogaeth ariannol) | | | | | DIM | £74,000 |
| | Sefydlu a hyfforddi rheolwr rhaglen a dadansoddwr bus-nes | | | | | |
| | Cynllunio trefn gwaith new-ydd ar gyfer rhedeg prosiec-tau'r gwasanaeth TG | | | | | |

# Camau ymdrech y strategaeth

## Arwain, cefnogi a gwneud gwasanaethau'n fwy effithiol

| Gweithgaredd | Cam | 2016 | 2017 | 2018 | Cyfalaf | Refeniw (cynnwys adnodd TG) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Technoleg fel galluogwr i drawsnewid a chyflawni | | | | | DIM | |
| | Adolygu tueddiadau gwaith a'r dechnoleg sydd ar gael i gyfarch hyn | | | | | |
| | Addasu'r system swyddi Gwynedd i gynnwys manylion am y dechnoleg sydd ei angen i gyflawni dyletswyddau'r swydd | | | | | |
| | Creu trefn ar gyfer casglu asedau staff pan yn gadael eu swydd | | | | | |

# Camau ymdrech y strategaeth

## Arwain, cefnogi a gwneud gwasanaethau'n fwy effithiol

| Gweithgaredd | Cam | 2016 | 2017 | 2018 | Cyfalaf | Refeniw (cynnwys adnodd TG) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Hyfforddi | | | | | DIM | |
| | Creu rhaglen anwytho staff newydd | | | | | |
| | Sefydlu gweithgor hyfforddi staff ar y cyd gyda'r gwasan-aeth dysgu a datblygu | | | | | |
| | Adolygu'r drefn o gyflwyno cyfarpar/meddalwedd new-ydd i staff | | | | | |
| Y Gymraeg | | | | | DIM | |
| | Sefydlu safonau datblygu aml-ieithog | | | | | |
| | Datblygiadau systemau mewnol newydd i ddilyn y safonau datblygu newydd | | | | | |
| | Datblygu safonau defnydd o'r Gymraeg ar gyfer dogfen-naeth tendr | | | | | |

# Camau ymdrech y strategaeth

## Arwain, cefnogi a gwneud gwasanaethau'n fwy effithiol

| Gweithgaredd | Cam | 2016 | 2017 | 2018 | Cyfalaf | Refeniw (cynnwys adnodd TG) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gweithio rhyng-asiantaethol | | | | | Gall fod angen buddsoddi er mwyn cyflwyno gwasanaeth effeithiol. Ni fyddwn yn adnabod yr union gostau ychwanegol tan bod ymchwil pellach wedi ei wneud | |
| | Cydweithio gydag Awdurdodau lleol ac asiantaethau cyhoeddus eraill er sefydlu isadeiledd sy'n galluogi | | | | | |
| | Sefydlu system WCCIS (olynydd RAISE) i weithio'n ryng-asiantaethol | | | | | |
| Dallt ein data | | | | | DIM | |
| | Cyfoethogi'r gofrestr meddalwedd gyda gwybodaeth am ddata (parhaol) | | | | | |
| | Cydweithio gyda'r uned ymchwil er mwyn dod ag argymhellion am welliannau | | | | | |

# Camau ymdrech y strategaeth

## Arwain, cefnogi a gwneud gwasanaethau'n fwy effithiol

| Gweithgaredd | Cam | 2016 | 2017 | 2018 | Cyfalaf | Refeniw (cynnwys adnodd TG) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Mewnrwyd i bawb | | | | | DIM | |
| | Cydweithio gyda'r uned datblygu'r sefydliad er mwyn adnabod yr anghenion | | | | | |
| | Ymchwilio i gyflwyno dull o gyflwyno gwasanaethau ar-lein cefnogol i staff mewn modd diogel o unrhyw le | | | | | |

# Camau ymdrech y strategaeth

## Gwasanaeth TG Effeithiol ac Effeithlon

| Gweithgaredd | Cam | 2016 | 2017 | 2018 | Cyfalaf | Refeniw (cynnwys adnodd TG) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rheoli newid | | | | | DIM | |
| | Sefydlu gweithdrefn rheoli newid | | | | | |
| | Hyfforddi staff i ddefnyddio'r weithdrefn newydd ac adolygu ei chwmpas | | | | | |
| Dogfennu a cofnodi gwybodaeth | | | | | DIM | |
| | Creu cyfres o dempledi technegol ar gyfer cofnodi gwybodaeth am systemau | | | | | |
| | Adolygu defnydd o system y ddesg gymorth i gofnodi manylion am namau'n well | | | | | |
| Ymchwil | | | | | DIM (ond fe all ymchwil arwain at ofyn am gefnogaeth i sefydlu prosiect i ddatblygu'r ymchwil ym mhellach) | |
| | Rhyddhau amser i bob aelod o staff gael y cyfle i ymchwilio i dechnoleg newydd | | | | | |
| | Adolygu prosiectau ymchwil a'u darganfyddiadau'n chwarterol | | | | | |

# Camau ymdrech y strategaeth

## Gwasanaeth TG Effeithiol ac Effeithlon (parhad)

| Gweithgaredd | Cam | 2016 | 2017 | 2018 | Cyfalaf | Refeniw (cynnwys adnodd TG) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Adolygu gweithgaredd-au'r ddesg gymorth | | | | | DIM | |
| | Adolygiad llwyr o fesurau'r uned | | | | | |
| | Adnabod yr allbynnau sydd eu hangen ar gyfer data rheolaethol, mesurau a banc gwybodaeth | | | | | |
| | Dylunio system gefnogol Desg Gymorth yn unol a'r datblygiadau uchod | | | | | |
| | Gwerthuso'r newid sydd wedi ei gyflwyno ac ail gych-wyn y broses | | | | | |

# Camau ymdrech y strategaeth

## Gwasanaeth TG Effeithiol ac Effeithlon (parhad)

| Gweithgaredd | Cam | 2016 | 2017 | 2018 | Cyfalaf | Refeniw (cynnwys adnodd TG) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhaglenni gwaith | | | | | DIM | |
| | Oll o staff yr adran yn cofnodi prun ai amser prosiect, cynnal a chadw, ymchwil neu gweinyddol sy'n cael eu wneud | | | | | |
| | Cynhyrchu templedi ar gyfer cofnodi ac adrodd ar raglenni gwaith | | | | | |
| | Uned rheoli rhaglen i gyfarfod gyda'r unedau isadeiledd a datblygu yn wythnosol i adrodd ar gynnydd y rhalenni gwaith | | | | | |
| Y Cwmwl | | | | | DIM | |
| | Sefydlu strategaeth ar ddefnydd Cyngor Gwynedd o'r "Cwmwl" | | | | | |

# Camau ymdrech y strategaeth

## Gwasanaeth TG Effeithiol ac Effeithlon (parhad)

| Gweithgaredd | Cam | 2016 | 2017 | 2018 | Cyfalaf | Refeniw (cynnwys adnodd TG) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhagweithiol v Ymatebol | | | | | DIM | |
| | Cynhyrchu rhaglen rhag-weithiol a cyhoeddi dyddiau cynnal a chadw cyffredinol | | | | | |
| Strategaeth TG Addysg | | | | | DIM | |
| | Cydweithio gyda'r Adran Addysg ar gyflwyno Strateg-aeth TG | | | | | |
| | Cydweithio gyda'r Adran Addysg ar gyflwyno argym-helliad i gefnogi a darparu technoleg yn yr ysgolion | | | | | |
| Adolygu a Gwerthuso'r Strategaeth (parhaus) | | | | | | |
| Gwerth am arian | | | | | DIM | |
| | Meincnodi | | | | | |
| | Cyflwyno argymhelliad o fodel gwasanaeth | | | | | |

**ADRODDIAD I'R CABINET**
(03/05/16)

**Aelodau Cabinet:** Cynghorydd Gareth Roberts &
Cynghorydd Mair Rowlands

**Pwnc:** Ymateb i ofynion Rhan 8 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

**Swyddog cyswllt:** Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Corfforaethol

---

**Y penderfyniad a geisir/pwrpas yr adroddiad**

Gofynnir i'r Cabinet gytuno mae mabwysiadu a gweithredu Protocol yw'r ffordd orau o sicrhau ein bod yn ymateb yn llawn i ofynion Rhan 8 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Os y cytunir ar uchod, gofynnir i'r Cabinet dderbyn y Protocol (Atodiad 1) fel dull o sicrhau ein bod yn ymateb i ofynion Rhan 8 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

---

**Cyflwyniad**

Bydd yr aelodau yn ymwybodol o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sydd yn weithredol ers y 6ed o Ebrill eleni. Mae sawl rhan i'r Ddeddf sydd yn gosod cyfeiriad newydd ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, gan gynnwys Rhan 8 sydd yn ymwneud yn benodol a dyletswyddau'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

Er mwyn sicrhau bod Rhan 8 o'r Ddeddf yn cael ei weithredu, byddai mabwysiadu 'protocol gweithdrefnau'(Protocol), sydd yn gosod allan sut mae gwahanol ofynion o'r Rôl yn cael eu cyflawni, yn ffordd effeithiol i'r Cyngor sicrhau ei fod yn cwrdd â'r gofynion yn llawn.

Bwriad felly y Protocol sydd ynghlwm (Atodiad 1) yw gosod trefniadau'r Cyngor parthed sut mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn diwallu ei rôl yn erbyn disgwyliadau o fewn Rhan 8. Er mwyn gwneud y Protocol yn hwylus i'w ddilyn, mae wedi ei lunio fesul gofyn. Yn gyntaf mae'r gofynion wedi eu rhestru, yn unol threfn y Cod Ymarfer, ac yna

amlygir sut mae'r Cyngor yn ymateb i'r gofynion dan sylw. Y gobaith yw bod hyn yn gwneud hi'n bosib croesgyfeirio beth sydd yn ddisgwyliedig yn y Protocol gyda'r gofynion yn y Ddeddf.

Os tybir bod y trefniadau yn gadarn ac yn cwrdd â'r gofynion sydd wedi eu gosod o fewn y Ddeddf, gall y Cabinet fod yn sicr ei bod yn ymateb yn llawn i Ran 8 o'r Ddeddf a bod y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Aelodau a Staff perthnasol yn gwbl glir o'r hyn sydd yn ofynnol ohonynt.

Unwaith bydd y Cabinet wedi cymeradwyo'r Protocol (Atodiad 1), y bwriad fyddai i sicrhau bod yr unigolion perthnasol yn derbyn copi a'i fod yn cael ei adolygu yn flynyddol. Os bydd angen gwneud newidiadau i'r Protocol bydd fersiwn diwygiedig yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet er ystyriaeth.

**Rhesymau dros argymell y penderfyniad**

Fel yr amlinellir uchod, drwy fabwysiadu'r Protocol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, mae'r Cabinet yn rhoi trefniadau clir ac eglur yn ei lle sydd yn sicrhau bod pawb perthnasol yn deall beth sydd yn ofynnol ohonynt o ran cwrdd â gofynion Rhan 8 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

<u>Dyma isod grynodeb weithredol o'r prif drefniadau a gweithrediadau o fewn y Protocol. (Mae'r Protocol llawn i'w weld yn Atodiad 1).</u>

1. Mae'n rhaid i'r Panel Penodi Prif Swyddogion ystyried y cymwyseddau sydd eu hangen ar gyfer y Rôl Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol wrth recriwtio a phenodi.

2. Mae'n rhaid i'r Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig eistedd ar y Panel Penodi fel bod modd rhoi cyngor i'r panel ar y penodiad.

3. Mae'n rhaid i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fod yn aelod llawn o'r Tîm Rheoli Corfforaethol.

4. Mae'n rhaid i'r Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig gyfarfod yn ffurfiol ac yn rheolaidd gyda'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, gan drafod y materion priodol.

5. Mae'n rhaid i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol sicrhau ei bod yn diweddaru'r aelodau yn briodol ar faterion o bwys ac ynghyd a'r

Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig yn, eu bod yn deall y gofynion o Rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. Byddai sicrhau ei bod yn mynychu'r pwyllgorau/cyfarfodydd isod yn ffordd o alluogi'r Cyfarwyddwr i ddiwallu hyn:-

- Cyngor Llawn
- Cabinet
- Pwyllgorau Craffu perthnasol
- Panel Cyflawni perthnasol

Bydd cyfle yn ogystal i fynychu cyfarfod mwy anffurfiol eu natur a bydd gofyn i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol geisio adnabod y cyfleoedd hyn yn briodol.

6. Mae'n rhaid i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol sicrhau ei hun bod trefniadau addas yn eu lle ar gyfer derbyn gwybodaeth gan benaethiaid adran ac uwch swyddogion perthnasol o fewn y Cyngor. Byddai sicrhau ei bod yn mynychu neu yn arwain y cyfarfodydd isod hyn yn ffordd o geisio cyflawni hyn:-

- Tîm Rheoli Corfforaethol
- Grŵp Rheoli
- Cyfarfod llywodraethu maes gofal gyda'r Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig
- Cyfarfodydd gyda'r Cyfarwyddwr Arweiniol Plant a Phobl Ifanc
- Tîm Statudol Gofal
- Timau Rheoli Adrannol perthnasol
- Panel Rhiant Corfforaethol
- Panel Strategol Diogelu

Yn ogystal, yn y cyfarfod Panel Strategol Diogelu mae eitem safonol ar y rhaglen sydd yn rhoi cyfle i aelodau o'r panel rannu gwybodaeth berthnasol gyda'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

7. Mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau bod gweithio mewn partneriaeth yn digwydd er mwyn cwrdd â'r gofynion y Ddeddf, ac mae disgwyliad bod y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn cydweithio gyda'r partneriaid hyn yn effeithiol. Byddai sicrhau ei bod yn mynychu neu yn sicrhau presenoldeb addas yn y fforymau/cyfarfodydd isod yn cyflawni llawer o'r gofyn:-

- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
- Fforwm Sirol neu gyfarfodydd perthnasol
- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
- Grŵp Arweinyddiaeth Rhanbarthol
- Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol
- Bwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol
- Grŵp Cyswllt Trydydd Sector Gwynedd

- Grŵp Arweinyddiaeth gyda Phrifysgol Bangor - (cwrs M.A. Gwasanaethau Cymdeithasol)

8. Mae'n rhaid i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol gyfarfod dwywaith y flwyddyn (Mawrth a Medi) yn ffurfiol gyda'r AGGCC mewn cyfarfodydd adolygu perfformiad. Yn y cyfarfod mis Mawrth bydd disgwyliad i gadeirydd y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau dderbyn gwahoddiad i ran o'r cyfarfod, ac ar gyfer y cyfarfod mis Medi, bydd disgwyliad i'r ddau Aelod Cabinet perthnasol dderbyn gwahoddiad i'r cyfarfod.

9. Mae'n rhaid i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyno Adroddiad Blynyddol i'r Cyngor Llawn, a dylid gwneud hyn mor fuan â phosib ar ôl ddiwedd y flwyddyn a phosib.

10. Mae gofyn i holl swyddogion y Cyngor sicrhau eu bod yn hysbysu'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol o unrhyw fater o bryder yn ymwneud a'r maes yn syth.

**Ystyriaethau perthnasol**

Dim ystyriaethau perthnasol

**Camau nesaf ac amserlen**

Sicrhau bod y Protocol yn cael ei rannu gyda'r unigolion perthnasol a bod adolygiad ohono yn digwydd yn rheolaidd gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac yn cael ei drafod yn y Tîm Rheoli Corfforaethol.

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**

Dim i'w ychwanegu i'r cynigion sydd wedi bod yn destun cryn drafod wrth eu datblygu.

**Y Swyddog Monitro:**

Mae'r Adroddiad yma yn argymell Protocol newydd ar gyfer y Cyfarwyddwr sydd yn sefydlu ymateb priodol gan y Cyngor i ofynion Rhan 8 o'r Ddeddf Gwasanaethau a Llesiant 2014 a'r cod statudol sydd yn deillio o'r ddarpariaeth.

**Y Pennaeth Cyllid:**

Deallaf nad oes ymhlygiadau ariannol o weithredu'r penderfyniad a geisir yn yr adroddiad hwn.

**Atodiadau**

Atodiad 1 – Protocol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol

**Dogfennau Cefndirol**

Dim.

**ATODIAD 1**

**PROTOCOL Y CYFARWYDDWR GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**

**Cefndir**

Mae adran 144 o'r Ddeddf yn atgyfnerthu y gofyn bod awdurdod lleol yn gorfod penodi swyddog, a enwir yn gyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol, ar gyfer ei ddyletswyddau gwasanaethau cymdeithasol. Mae rhaid i awdurdod lleol benodi person sydd yn gallu arddangos y cymwyseddau sydd wedi cael eu nodi gan Gweinidogion Llywodraeth Cymru.

**Pwrpas**

Prif bwrpas y Protocol hwn yw ceisio gosod allan y trefniadau lleol ar gyfer diwallu gofynion Rhan 8 o'r Ddeddf mewn un dogfen sydd yn glir i bawb. Credir y bydd gwneud hyn yn sicrhau bod pawb perthnasol o fewn yr awdurdod yn deall y gofynion ohonynt o fewn y Ddeddf parthed y Rôl Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae'r Cod Ymarfer wedi ei ddefnyddio fel rhan o'r Protocol er mwyn gwneud croes gyfeirio o'r gofyn a'r hyn sydd i ddigwydd yng Ngwynedd yn eglur a chlir i bawb.

Mae'r Protocol felly yn gosod yr angen o ran ein ymddygiad ac ymarfer parthed Rhan 8 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

[Bydd y Cod Ymarfer mewn ysgrifen arferol a bydd ymateb y Cyngor i'r gofynion wedi ei roi mewn ysgrifen italig.]

[Mae paragraff 1 – 16 o'r Cod Ymarfer yn cynnig cyflwyniad yn unig.]

**Swyddogaeth yn strwythur gweithredol yr awdurdod lleol (para 17 – 19)**

Dyma sydd wedi ei osod allan o fewn y Cod Ymarfer:-

17. Rhaid bod gan y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol statws digon uchel i gyflawni swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod a chyflawni ei atebolrwydd. Rhaid bod

cynghorwyr a swyddogion perthnasol yn deall y lefel hon o awdurdod yn dda.

18. Ni waeth beth fo y trefniadau strwythurol gweithredol a gyflwynwyd gan awdurdod lleol, rhaid i'r cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol fod yn aelod o'r tîm rheoli corfforaethol bob amser a rhaid bod ganddo gyswllt uniongyrchol a'r pennaeth gwasanaeth cyflogedig a chynghorwyr a'i fod yn adrodd yn uniongyrchol wrthynt.

19. Aelodaeth o'r tîm rheoli corfforaethol yw'r system ffurfiol sy'n galluogi'r cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol i gyfrannu at weledigaeth y cyngor a'r cyfeiriad y mae'r cyngor yn mynd iddo a sicrhau bod gwasanaethau'n ceisio hyrwyddo llesiant pobl sydd ag anghenion o ran gofal a chymorth.

- ***Trefniadau Cyngor Gwynedd ar gyfer ymateb i'r uchod***

*Mae Rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ei osod o fewn swydd un o'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol. Mae'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol yn atebol yn uniongyrchol i'r Prif Weithredwr, sef Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, ac mae'r rôl y Cyfarwyddwr Corfforaethol, sydd a chyfrifoldeb statudol am wasanaethau cymdeithasol, yn gwbl glir i aelodau ac i swyddogion ac wedi ei nodi o fewn gwybodaeth strwythurol ar wefan y Cyngor ac ar wybodaeth ysgrifenedig.*

*Mae'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol yn aelodau o'r Tîm Rheoli Corfforaethol ac mae hyn yn galluogi'r Cyfarwyddwr penodol yma, yn ei rôl statudol i sicrhau ei bod yn gallu dylanwadu ar weledigaeth a chyfeiriad y Cyngor o ran materion yn ymwneud a llesiant a gofynion gofal unigolion.*

**<u>Cyd-berthynas a'r Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig ac Uwch Swyddogion eraill (para 20 – 27)</u>**

20. Rhaid i'r cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol adrodd yn uniongyrchol wrth y pennaeth gwasanaeth cyflogedig. Nid y pennaeth gwasanaeth cyflogedig sy'n penodi'r cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol ond mae'n debyg y bydd yn chwarae rhan yn y broses.

21. Rhaid i'r pennaeth gwasanaeth cyflogedig sicrhau ei fod yn goruchwylio trefniadau'n fanwl bob amser a sicrhau bod gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu hystyried yn flaenoriaeth gorfforaethol. Mae gan y pennaeth gwasanaeth cyflogedig swyddogaeth allweddol o safbwynt galluogi'r cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol i gyflawni swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol, a rhaid iddo sicrhau bod seilwaith corfforaethol yn cynorthwyo'r cyfarwyddwr i gyflawni ei atebolrwydd statudol.

22. Rhaid cytuno'n iawn ar y berthynas rhwng y pennaeth gwasanaeth cyflogedig a'r cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol a rhaid iddi gael ei chyfleu'n briodol i gynghorwyr, swyddogion a phartneriaid. Rhaid i hynny gael ei ategu mewn dogfennau llywodraethu a dirprwyo a ddylai gael eu hadolygu'n rheolaidd.

23. Rhaid i drefniadau atebolrwydd a llywodraethu alluogi'r pennaeth gwasanaeth cyflogedig i ganfod unrhyw fethiant systemig a pharhaus yng nghyswllt safonau ac ansawdd gwasanaethau gofal a chymorth, a'i alluogi i sicrhau bod y methiant hwnnw'n gael ei gywiro.

24. Fel aelod o'r tîm rheoli corfforaethol, mae'n bosibl y bydd yn ofynnol i gyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol ystyried goblygiadau cyffredinol o ran adnoddau, gan gynnwys materion cyllidebol. Mae'r pennaeth gwasanaeth cyflogedig a'r cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol yn gyfrifol am sicrhau bod cynghorwyr yn cael cyngor clir ynghylch lefel yr adnoddau sy'n ofynnol er mwyn i awdurdod lleol allu cyflawni ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yn effeithiol.

25. Yn ogystal, rhaid i drefniadau gweithio a ddiffiniwyd fod ar waith rhwng y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol ac uwch-swyddogion eraill yn yr awdurdod lleol er mwyn sicrhau bod atebolrwydd y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol yn cael ei gyflawni. Yn ogystal, dylai unrhyw achosion o rannu'r cyfrifoldebau hynny gael eu trafod yn fanwl a'u cyfleu'n glir.

26. Rhaid i effeithiolrwydd y trefniadau a ddiffiniwyd, o safbwynt cynorthwyo i gyflawni swyddogaethau cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol, gael ei werthuso'n rheolaidd.

27. Caniateir i'r unigolion a benodwyd yn gyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol ymgymryd a swyddogaethau eraill ar yr un pryd yn yr

awdurdod lleol, gan gynnwys swyddogaeth y cyfarwyddwr arweiniol ar gyfer plant a phobl ifanc. (Ceir cyfeiriadau pellach at y berthynas rhwng y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol a'r cyfarwyddwr arweiniol ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc, os caiff y swyddogaethau hynny eu dal ar wahân, ym mharagraffau 50-52). Fodd bynnag, rhaid i awdurdodau lleol fod yn fodlon nad yw cyfrifoldebau ychwanegol yn effeithio'n andwyol ar allu unigolyn i gyflawni swyddogaethau cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol.

- ***Trefniadau Cyngor Gwynedd ar gyfer ymateb i'r uchod***

*Mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Weithredwr. Mae trefniadau yn eu lle yn ogystal ar gyfer sicrhau bod y Prif Weithredwr yn rhan allweddol o'r broses benodi y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.*

*Mae cyfarfod wythnosol o'r Tîm Rheoli Corfforaethol lle mae modd i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol godi unrhyw fater yn ymwneud a'r maes.*

*Yn ogystal, bob 6-8 wythnos mae angen i'r Prif Weithredwr gyfarfod yn unigol gyda'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol i drafod materion perthnasol. Enwir y cyfarfodydd hyn yn "<u>cyfarfodydd llywodraethu maes gofal</u>". Yn y cyfarfodydd hyn mae materion o bwys o fewn y maes gofal yn cael eu trafod a mae gofyn i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol rannu unrhyw bryder gyda'r Prif Weithredwr. Dylai'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ddefnyddio gwybodaeth perfformiad a chofrestrau risg o'r Adrannau Oedolion a Phlant. Yn ogystal bydd y Prif Weithredwr yn defnyddio'r cyfle yma i drafod gyda'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol unrhyw broblem o ran llwyth gwaith a'r rhwystrau gallai fod yn bresennol o ran diwallu'r rôl.*

*Uwchben y trefniadau uchod, mae gofyn i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol hysbysu'r Prif Weithredwr os bydd mater o bryder yn codi rhwng y cyfarfodydd hyn.*

*Yn ogystal, yn y cyfarfod Panel Strategol Diogelu mae eitem safonol ar y rhaglen sydd yn rhoi cyfle i aelodau o'r panel i rannu gwybodaeth perthnasol gyda'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.*

**<u>Penaethiaid gwasanaeth (para 28 – 29)</u>**

28. Rhaid bod trefniadau atebolrwydd cywir ar waith ar gyfer holl staff gwasanaethau cymdeithasol, p'un a ydynt yn cael eu rheoli'n uniongyrchol gan gyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol ai peidio. O fewn ffiniau'r awdurdod lleol, caiff cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol geisio strwythuro adrannau gwasanaethau cymdeithasol mewn modd sy'n golygu bod pobl eraill yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau. Er y caniateir i'r cyfrifoldeb am gyflawni rhai swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol gael ei drosglwyddo, er enghraifft, i benaethiaid gwasanaethau oedolion a phenaethiaid gwasanaethau plant a theuluoedd, bydd y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol yn parhau'n atebol am y swyddogaethau hynny.

29. Os nad y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol yw rheolwr llinell uniongyrchol y sawl sy'n gyfrifol am ddarparu unrhyw elfen o wasanaethau cymdeithasol, rhaid sicrhau o hyd bod cyswllt rheolaidd rhwng y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol a'r pennaeth gwasanaeth dan sylw. Rhaid i ddogfennau fframwaith ysgrifenedig nodi'n glir sut y mae cyfrifoldebau wedi'u cyflwyno i sicrhau bod swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu cyflawni'n effeithiol.

- ***Trefniadau Cyngor Gwynedd ar gyfer ymateb i'r uchod***

*Mae gan y Cyngor ddwy Adran sydd yn ymwneud yn uniongyrchol gyda materion gwasanaethau cymdeithasol, sef Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd a'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant. Mae gan yr adrannau hyn bennaeth bob un, ac mae'r penaethiaid hyn yn gyfrifol am y gwasanaethau o fewn eu hadrannau. Mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol serch hyn yn parhau i fod yn atebol am y meysydd gwaith hyn. Mae'r swydd ddisgrifiadau perthnasol yn gosod allan yn glir sut mae'r cyfrifoldebau wedi eu rhannu.*

*Bydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd (pob 6 – 8 wythnos) gyda'r ddau bennaeth perthnasol er mwyn trafod materion o bwys, perfformiad eu gwasanaethau a hefyd y cofrestr risg. Bydd materion sydd wedi eu codi o fewn arolygiadau allanol a mewnol hefyd yn cael eu trafod yn y cyfarfodydd hyn. Enwir y cyfarfodydd hyn yn "<u>cyfarfodydd Tîm Statudol</u>". Mae cylch gorchwyl ar gyfer y cyfarfod hyn.*

*Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol sydd i werthuso y Penaethiaid o'r ddwy adran yma a bydd y Cyfarwyddwr hefyd yn rhan o'r broses benodi ar gyfer trefn recriwtio i'r swyddi hyn.*

*Mae penaethiaid eraill yn rhan o'r Grŵp Rheoli a hefyd mae'r rhai fwyaf allweddol, er enghraifft Pennaeth Addysg yn aelodau o'r Panel Strategol Diogelu. Bwriad hyn yw sicrhau bod gan y Penaethiaid fynediad rhwydd at y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol o ran rhannu pryderon ac hefyd i ymateb i ofynion gan y Cyfarwyddwr.*

**<u>Atebolrwydd y Cyfarwyddwr (para 30 – 33)</u>**

30. Mae'r cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol yn atebol i pennaeth gwasanaeth cyflogedig, a thrwyddo efo i'r cyngor, am gyflawni swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol yn effeithiol. Rhaid i'r pennaeth gwasanaeth cyflogedig a'r cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol gael amser cyfarfod rheolaidd yn rhan o'r perthynas atebolrwydd.

31. Os caiff gwasanaethau eu darparu mewn partneriaeth, y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol sy'n atebol o hyd am gyflawni swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.

32. Rhaid i'r cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol godi ymwybyddiaeth o'i swyddogaeth ymysg cynghorwyr. Mae hynny'n cynnwys codi ymwybyddiaeth o sut y gall cynghorwyr, gan gynnwys pwyllgorau craffu a'r aelodau arweiniol perthnasol, gynorthwyo'r swyddogaeth a dwyn deiliad swyddi i gyfrif, gan gynnwys yng nghyswllt llunio'r adroddiad blynyddol. Rhaid i'r cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol sicrhau y ceir ymrwymiadau clir sy'n nodi pa wybodaeth y dylai cynghorwyr ddisgwyl ei chael ynghylch y modd y caiff swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol penodol eu cyflawni ac ynghylch gweithgareddau ehangach i hyrwyddo llesiant pobl sydd ag anghenion o ran gofal a chymorth.

33. Rhaid i'r cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol:
- Sicrhau bod y pennaeth gwasanaeth cyflogedig, y tîm gweithredol a chynghorwyr yn gallu cael y cyngor a'r wybodaeth broffesiynol orau, ddiweddaraf am bob agwedd ar wasanaethau gofal a chymorth;
- Rhoi sicrwydd i'r pennaeth gwasanaeth cyflogedig a chynghorwyr bod swyddogaethau statudol a bennwyd i'r

awdurdod wedi'u cyflawni, a bod gwybodaeth reoli briodol a chofnodion cywir yn cael eu cadw;

- Sicrhau bod prosesau effeithiol ar waith ar gyfer rheoli perfformiad;
- Adnabod blaenoriaethau, heriau a risgiau ar draws pob agwedd ar wasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys meysydd lle ceir cyd-ddibyniaeth rhwng asiantaethau ac amgylchiadau lle mae problemau staffio'n effeithio ar allu'r cyngor i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol, a chynghori cynghorwyr yn eu cylch;
- Briffio'r pennaeth gwasanaeth cyflogedig a chynghorwyr ynghylch achosion a phroffil uchel a materion eraill sy'n debygol o beri pryder i'r cyhoedd;
- Cynghori cynghorwyr ynghylch strategaethau ar gyfer gwella dulliau o ymyrryd, darparu gwasanaethau, ymarfer a defnyddio adnoddau.

34. Mae pennod 3 yn egluro swyddogaeth y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol o safbwynt gweithio mewn partneriaeth drwy'r byrddau partneriaeth rhanbarthol a'r Byrddau Diogelu.

➢ ***Trefniadau Cyngor Gwynedd ar gyfer ymateb i'r uchod***

*Fel sydd wedi nodi eisoes, mae gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol sawl fforwm lle gall godi materion gyda'r Prif Weithredwr. Mae cyfarfodydd wythnosol Tim Rheoli Corfforaethol yn eu lle a hefyd cyfarfodydd un i un bob chwech i wyth wythnos. Yn ogystal, mae gan y Prif Weithredwr drefniadau gwaith agored sydd yn sicrhau bod gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fynediad ato unrhyw adeg os oes angen.*

*Mewn perthynas a sicrhau bod aelodau etholedig yn deall Rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, mae'r canlynol yn bodoli:-*

- *Bydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyflwyno yn flynyddol Adroddiad Blynyddol i'r Cyngor Llawn. Fel rhan o'r digwyddiad hyn, mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn egluro ei rôl ac yn gosod allan prif ddyletswyddau'r rôl i'r aelodau.*
- *Bydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyfarfod gyda'r Cadeirydd ac Is-Gadeirydd o'r Pwyllgor Craffu perthnasol i amlinellu beth yw'r prif faterion o bwys o fewn y maes gofal. Bydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnwys yn hyn materion sydd angen sylw y craffwyr o ran cefnogaeth i'r rôl a hefyd o ran dal materion i*

*gyfri. Bydd er enghraifft yr Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Asesiad Blynyddol yr AGGCC yn cael ei anfon at y drefn craffu am ystyriaeth. Bydd y broses yma yn cynnwys yr ystod eang o ddyletswyddau sydd gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys yr agweddau o hybu llesiant yr unigolion hynny gydag anghenion gofal a chefnogaeth.*

- *Bydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn diweddaru'r Prif Weithredwr a'r aelodau i newidiadau sydd yn digwydd i Ddeddfau perthnasol neu wybodaeth perthnasol arall. Bydd yn gwneud hyn drwy gyfrwng cyfarfodydd anffurfiol neu ffurfiol fel sydd yn briodol.*

*Bydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn defnyddio gwybodaeth rheolaethol a dangosyddion perfformiad cenedlaethol er mwyn monitro gweithrediadau a pherfformiad, gan gynnwys perfformiad yn erbyn gyllidebau a gofynion ariannol. Mae sawl cyfrwng ple mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn derbyn gwybodaeth a sicrwydd:-*

- *Mae'n mynychu Timau Rheoli Adrannol er mwyn derbyn sicrwydd o hyn.*
- *Derbyn gwybodaeth ac adborth gan y ddau Bennaeth perthnasol yn y cyfarfodydd Tîm Statudol (sydd yn cyfarfod bob 6-8 wythnos).*
- *Derbyn asesiad risg/asesiad llywodraethu gan y ddau Bennaeth sydd yn crynhoi y meysydd sydd angen sylw a beth yw'r cynlluniau gweithredu ar gyfer ymateb.*
- *Monitro cyflawniad prif feysydd strategol drwy y Paneli Cyflawni perthnasol a chodi unrhyw ddatblygiadau perthnasol gyda'r aelodau cabinet perthnasol.*
- *Monitro penodol o'r maes diogelu parthed agweddau corfforaethol eu natur o fewn y Panel Strategol Diogelu.*
- *Aelod o'r Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant a'r Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Oedolion a drwy hynny yn gallu sicrhau bod unrhyw wersi o ddigwyddiadau yn cael eu hymgorffori mewn ymarfer.*

*Fel rhan o'r Tîm sydd yn cefnogi'r Cabinet, mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn gallu adnabod a chynghori arweinyddiaeth lefel uchaf y Cyngor ar y blaenoriaethau, sialensiau a risgiau sydd yn bodoli yn y maes gofal cymdeithasol. Mae hyn yn amlwg yn cynnwys unrhyw risgiau gall godi o ran materion staffio, boed rhain yn*

*faterion staffio uniongyrchol neu gan ddarparwyr neu asiantaethau allanol.*

*O bryd i'w gilydd mae achosion proffil uchel yn codi. Y drefn yw bod y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn sicrhau bod y Prif Weithredwr, Arweinydd y Cyngor, Is-Arweinydd y Cyngor, Aelodau Cabinet perthnasol yn ymwybodol o'r achos. Er mwyn i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fod yn ymwybodol, mae trefniadau mewn lle i sicrhau fod swyddogion yn deallt eu bod angen dyrchafu materion o'r fath i sylw'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn syth.*

**<u>Rheoleiddwyr (para 35-36)</u>**

35. Rhaid i'r cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol arwain a chynorthwyo gwaith ymgysylltu a chydweithredu parhaus ag arolygiaethau a rheoleiddwyr gan bob un o swyddogion yr awdurdod lleol yng nghyswllt paratoi a chynnal unrhyw adolygiadau o berfformiad swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol, ac unrhyw wasanaethau gofal a chymorth eraill a ddarperir yn ardal yr awdurdod lleol. Mae hynny'n cynnwys sicrhau bod arolygiaethau a rheoleiddwyr yn cael yr holl wybodaeth berthnasol.

36. Yn rhan o'i atebolrwydd, rhaid i'r cyfarwyddwr statudol adrodd wrth y cyngor ynghylch manylion unrhyw adroddiad arolygu neu reoleiddio ar berfformiad gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol. Rhaid bod hynny'n cynnwys egluro pa gamau gweithredu priodol a gymerir, mewn ymateb i'r adroddiad, er mwyn gwella gwasanaethau sy'n hyrwyddo llesiant pobl ag anghenion o ran gofal a chymorth neu er mwyn atal anghenion o'r fath rhag datblygu neu arafu'r graddau y maent yn datblygu. Yn ogystal, dylai'r cyfarwyddwr gyfrannu at y trefniadau llywodraethu cyffredinol sydd gan yr awdurdod lleol (a'i bartneriaid).

- ***Trefniadau Cyngor Gwynedd ar gyfer ymateb i'r uchod***

*Mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn glir o'r angen i sicrhau bod rheoleiddwyr yn derbyn y wybodaeth sydd angen arnynt i gyflawni eu dyletswyddau. Bydd trefniadau yn cael eu rhoi yn eu lle ar gyfer cyfarfod ffurfiol gyda'r prif rheoleiddwyr o fewn y maes gofal, sef yr AGGCC, dwywaith y flwyddyn. Gelwir y cyfarfodydd hyn yn*

*"cyfarfodydd Adolygu Perfformiad". Mae cyfarfodydd cyswllt yn cael eu cynnal, lle mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ynghyd a'r Penaethiaid yn bresennol. Yn y cyfarfod Mis Mawrth fydd disgwyliad i cadeirydd neu is gadeirydd y pwyllgor craffu perthnasol fynychu o leiaf rhan o'r cyfarfod. Yn y cyfarfod Mis Medi, fydd disgwyliad i'r aelodau cabinet perthnasol fynychu o leiaf rhan o'r cyfarfod.*

*Pwrpas y cyfarfodydd adolygu perfformiad yw ystyried ac adolygu cynnydd yn erbyn blaenoriaethau strategol yr awdurdod, yn unol a'r Ddeddf a'r fframwaith canlyniadau cenedlaethol, gan gynnwys amcanion gwella a nodwyd mewn unrhyw arolygiad perthnasol neu drwy waith craffu rheolaidd o berfformiad yr awdurdod lleol. Bydd cyfarfodydd adolygu perfformiad hefyd yn darparu adborth ar weithgaredd ymgysylltu lleol AGGCC.*

*Yn ogystal, mae angen i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyno ei Adroddiad Blynyddol i'r Cyngor Llawn yn amserol. Disgwylir i hyn ddigwydd mor fuan a phosib ar ôl diwedd y flwyddyn yr adroddir arni, gan wrth gwrs ystyried amserlen pwyllgorau y Cyngor.*

**Llesiant (para 37-42)**

37. Mae adran 5 y Ddeddf yn mynnu bod yn rhaid i bob person geisio hyrwyddo llesiant pobl y mae arnynt angen gofal a chymorth, a gofalwyr y mae arnynt angen cymorth, wrth arfer eu swyddogaethau dan y Ddeddf.

38. Mae'r dyletswyddau holl gyffredinol eraill a nodir yn adran 6 yn mynnu bod yn rhaid i bob person sy'n arfer swyddogaethau dan y Ddeddf ystyried barn, dymuniadau, teimladau, nodweddion, diwylliant a chredoau unigolyn. Yn ogystal, rhaid iddynt hyrwyddo a pharchu urddas yr unigolyn a'i gynorthwyo i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arno. Mae hynny'n golygu cynorthwyo a grymuso'r unigolyn i leisio barn drosto'i hun neu gael rhywun a all wneud hynny ar ei ran.

39. O safbwynt oedolion, rhaid i bersonau ddechrau gyda'r rhagdybiaeth mai'r oedolyn sydd yn y sefyllfa orau i farnu ei lesiant ei hun, a rhaid iddynt hyrwyddo annibyniaeth yr oedolyn pryd bynnag y bo'n bosibl. Rhaid i hynny gael ei ymgorffori mewn ymarfer er mwyn i bobl fod yn bartneriaid cyfartal wrth i'w gofal gael ei ddylunio a'i ddarparu. Rhaid i awdurdodau lleol ystyried

barn, dymuniadau a theimladau pobl wrth eu hadnabod, eu hasesu a'u cynorthwyo i sicrhau llesiant.

40. O safbwynt plant, rhaid i bersonau hyrwyddo magwraeth y plentyn yn ei deulu, i'r graddau y mae gwneud hynny'n gyson a hyrwyddo llesiant y plentyn. Rhaid i awdurdodau lleol ystyried barn, dymuniadau a theimladau personau sydd a chyfrifoldeb rhiant dros blentyn dan 16 oed, i'r graddau y mae gwneud hynny'n gyson a hyrwyddo llesiant y plentyn ac i'r graddau y mae gwneud hynny'n rhesymol ymarferol.

41. Mae adran 7 yn mynnu bod yn rhaid i bob person sy'n arfer swyddogaethau dan y Ddeddf roi sylw dyladwy i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae'r cod ymarfer a gyflwynwyd dan Ran 2 y Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i roi sylw dyladwy i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl wrth arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yng nghyswllt pobl y mae arnynt angen gofal a chymorth a gofalwyr y mae arnynt angen cymorth.

42. Mae'r cod ymarfer ar gyfer Rhan 2 y Ddeddf yn nodi'r manylion ynghylch dyletswyddau i hyrwyddo llesiant pobl y mae arnynt angen gofal a chymorth, a dyletswyddau holl gyffredinol eraill.

43. Rhaid i'r cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol ystyried y ddyletswydd llesiant a dyletswyddau holl gyffredinol eraill sy'n ymwneud a'r modd y mae'r awdurdod lleol yn arfer pob un o'i swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Rhaid i'r cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol ddangos arweinyddiaeth strategol o safbwynt sicrhau bod yr holl wasanaethau gofal a chymorth a ddarperir yn ardal yr awdurdod lleol yn ceisio hyrwyddo llesiant pawb sydd ag anghenion o ran gofal a chymorth. Mae hynny'n cynnwys cyfrifoldeb cyffredinol am ddiwallu'r anghenion o ran gofal a chymorth a nodwyd ar gyfer dinasyddion byddar/ddall. Bydd hynny'n golygu sicrhau bod yr holl wasanaethau gofal c chymorth yn gweithio gyda phobl i'w grymuso i gyfrannu at sicrhau eu llesiant eu hunain gyda'r lefel briodol o gymorth a gwasanaethau. Rhaid i'r cymorth gael ei ddarparu'n unol a'r chwe safon ansawdd a ddisgrifir yn y cod ymarfer mewn perthynas a mesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol, a gyflwynwyd dan y Ddeddf. Mae'r safonau ansawdd yn disgrifio'r gweithgareddau awdurdodau lleol sy'n

cyfrannu at gyflawni canlyniadau llesiant fel y nodir yn y datganiad llesiant.

- ***Trefniadau Cyngor Gwynedd ar gyfer ymateb i'r uchod***

*Mae'r Cyngor wedi cydnabod y gofyn ychwanegol sydd yn ofynnol o fewn y Ddeddf yn ymwneud a llesiant. Mae'r gweithlu o fewn y maes gofal cymdeithasol wedi ac yn derbyn hyfforddiant. Bydd yr hyfforddiant yma yn cael ei loywi yn gyson, a bydd yn cyfarch ac yn hyrwyddo yr angen i ystyried llesiant pobl sydd a gofynion gofal a chefnogaeth.*

*Mae egwyddor sylfaenol ffordd o weithio y Cyngor, sef rhoi yr unigolyn yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud yn ategu y gofyn hwn yn amlwg yn ogystal.*

*Bydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymgeisio i hyrwyddo llesiant ar draws y Gwasanaethau Cymdeithasol, ac yn sicrhau fod dealltwriaeth glir a threfniadau cadarn mewn lle er mwyn ymateb yn llawn i anghenion llesiant ein trigolion.*

*Er bod trefniadau mewn lle er mwyn ymateb i ofynion deddfwriaethol o ran Llesiant, bydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn herio'n barhaus llwyddiant y trefniadau hyn. Bydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn herio perfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol o ran hyrwyddo a chyfarch anghenion llesiant yn y fforymau ffurfiol perthnasol, ond hefyd yn anffurfiol wrth ymgymryd â'r swyddogaeth o ddydd i ddydd.*

**<u>Cydweithredu a gweithio mewn Partneriaeth ac mewn modd integredig (para 44-48)</u>**

44. Yn aml, bydd gwella llesiant pobl ag anghenion o ran gofal a chymorth, ac atal anghenion o ran gofal a chymorth rhag datblygu neu leihau'r graddau y maent yn datblygu, yn gofyn am wasanaethau sydd y tu hwnt i'r rhai a ddarperir yn draddodiadol gan wasanaethau cymdeithasol. Yn aml, bydd angen dull gweithredu sy'n cynnwys gwasanaethau ar draws yr awdurdod lleol a gwasanaethau gan bartneriaid perthnasol eraill.

45. Rhaid i'r cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol arwain y gwaith o ddatblygu trefniadau effeithiol, gan gynnwys ar lefel

partneriaeth ranbarthol, er mwyn hyrwyddo cydweithredu i gyflawni'r dibenion canlynol:

a) gwella llesiant pobl sydd ag anghenion o ran gofal a chymorth, gan gynnwys gofalwyr y mae arnynt angen cymorth;
b) gwella ansawdd gofal a chymorth i bobl, gan gynnwys cymorth i ofalwyr;
c) gwarchod oedolion ag anghenion o ran gofal a chymorth, sydd mewn perygl neu sy'n cael eu cam-drin neu'u hesgeuluso;
ch) gwarchod plant sydd mewn perygl neu sy'n cael eu cam-drin neu'u hesgeuluso.

46. Dylai'r cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol sicrhau bod unrhyw broblemau'n ymwneud a chydweithredu rhwng asiantaethau ac unrhyw fylchau rhwng gwasanaethau'n cael eu hadnabod ac yn cael sylw. Er mai'r cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol sy'n gyfrifol am ddatblygu trefniadau effeithiol ar gyfer cydweithredu er mwyn gwella llesiant pobl sydd ag anghenion o ran gofal a chymorth, nid yw hynny'n caniatáu i bartneriaid eraill ddileu eu cyfrifoldebau a'u dyletswyddau.

47. Dylai'r ffaith bod y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol yn aelod o'r tîm rheoli corfforaethol ynghyd a'r trefniadau atebolrwydd a ddiffiniwyd gydag uwch-swyddogion eraill gael eu defnyddio i hyrwyddo cydweithredu yn yr awdurdod lleol. Bydd hynny'n golygu sicrhau bod pob un o wasanaethau'r awdurdod lleol ar y cyd yn ceisio cyflawni'r dibenion uchod.

48. Yn yr un modd, rhaid i'r cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol geisio datblygu amgylchedd effeithiol ar gyfer hyrwyddo cydweithredu a phartneriaid allanol, gan gynnwys y Bwrdd Iechyd Lleol, y trydydd sector a'r sector annibynnol, yng nghyswllt pobl sydd ag anghenion o ran gofal a chymorth. Mae paragraffau 53-57 yn nodi swyddogaeth y cyfarwyddwr o safbwynt y trefniadau partneriaeth ffurfiol y darperir ar eu cyfer gan Ran 9 y Ddeddf, y gallir ei defnyddio at y diben hwnnw.

- ***Trefniadau Cyngor Gwynedd ar gyfer ymateb i'r uchod***

*Mae gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol er mwyn sicrhau bod gofynion unigolion yn cael eu cwrdd.*

*Mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn aelod o'r Tîm Rheoli Corfforaethol a hefyd yn aelod o'r Grŵp Rheoli, sydd yn cynnwys holl Benaethiaid y Cyngor. Drwy hyn, bydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol sicrhau bod gan yr uwch swyddogion hyn ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r gofynion o'u gwasanaethau hwy ar gyfer sicrhau bod llesiant pobl sydd ag anghenion o ran gofal a cymorth eu gwella.*

*Mae'r Cyngor yn adnabod y trydydd sector fel un o'i brif bartneriaid, ac yn sicr o fewn y maes hwn mae cyfraniad y trydydd sector yn amhrisiadwy. Mae gan y Cyngor drefniadau o gysylltu yn ffurfiol gyda chynrychiolwyr o'r trydydd sector drwy y Grŵp Cyswllt Trydydd Sector, a mae Compact ffurfiol yn amlinellu yr amcanion a threfniadau o gwmpas hyn. Mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn aelod llawn o'r Grŵp Cyswllt yma, ynghyd a nifer o aelodau'r Cabinet.*

*Mae'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn bartneriaid allweddol ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac maent yn adnabod y meysydd hynny lle mae angen iddynt weithio ar y cyd i gyflawni nodau llesiant. Er nad yw'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, mae yn gallu dylanwadu ar y cyfeiriad drwy y Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig.*

*Mae yna cydnabyddiaeth bod angen cydweithio agos iawn o fewn y maes hwn, ac mae Fforwm Sirol wedi ei sefydlu er mwyn sicrhau bod gweithredu fwy lleol yn digwydd. Mae cylch gorchwyl ar gyfer y Fforwm Sirol wedi ei gytuno a bydd yn adrodd i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gynnydd yn erbyn y prif feysydd o gydweithio.*

*O ran trefniadau rhanbarthol, mae'r cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ar hyn o bryd yn aelod o Grŵp Arweinyddiaeth Rhanbarthol a bydd yn aelod o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (gweler Rhan 9 o'r Ddeddf) wedi iddo gael ei sefydlu.*

**<u>Rôl y Cyfarwyddwr Arweiniol ar gyfer Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc (para 49-51)</u>**

49. Mae adran 27 Deddf Plant 2004 yn mynnu bod awdurdodau lleol yn penodi cyfarwyddwr arweiniol ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc er mwyn cydgysylltu a goruchwylio trefniadau i wella llesiant plant yn ardal yr awdurdod lleol. Diben y swyddogaeth hon yw hyrwyddo hawliau plant, a gallir ei chysylltu ag unrhyw gyfarwyddwr priodol yn y tîm rheoli corfforaethol, gan gynnwys y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol.

50. Mewn awdurdodau le caiff swydd y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol a swydd y cyfarwyddwr arweiniol ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc eu dal ar wahân, bydd rhywfaint o orgyffwrdd rhwng y ddwy swyddogaeth. Bydd y cyfarwyddwr arweiniol ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc yn ceisio mynd i'r afael ag anghenion pob plentyn o ran llesiant. Rhaid i'r cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol ganolbwyntio ar wella llesiant plant sydd ag anghenion o ran gofal a chymorth yn benodol a chanolbwyntio ar warchod plant rhag niwed.

51. Rhaid i unigolion sy'n ymgymryd a'r ddwy swyddogaeth dan sylw gysylltu a'i gilydd ac yn ffurfiol yn unol a threfniadau a ddiffiniwyd. Dylid adolygu effeithiolrwydd y trefniadau hyn fel y bo angen.

- ***Trefniadau Cyngor Gwynedd ar gyfer ymateb i'r uchod***

*Mae'r swydd Cyfarwyddwr Arweiniol ar gyfer Gwasanaethau Plant a phobl ifanc a'r swydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael eu dal ar wahân o fewn y Cyngor. Mae'r ddwy swyddogaeth yn cael eu dal gan un o'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol.*

*Bydd y ddau gyfarwyddwr corfforaethol gwrdd yn ffurfiol bob 2 fis er mwyn trafod y meysydd dan sylw. Bydd hefyd cyfle i'r ddau drafod y maes o fewn trefniadau y Tîm Rheoli Corfforaethol gyda'r pennaeth gwasanaeth cyflogedig yn bresennol.*

**<u>Integreiddio a Gweithio mewn Partneriaeth (para 52 - 56)</u>**

52. Mae'r canllawiau ynghylch trefniadau partneriaeth a gyflwynwyd dan Ran 9 y Ddeddf yn egluro sut y mae'n rhaid i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd lleol weithio gyda'i gilydd, ynghyd a phartneriaid eraill, i gynllunio gwasanaethau gofal a chymorth integredig ar sail ranbarthol a sicrhau bod gwasanaethau o'r fath yn cael eu darparu. Mae Rheoliadau'n darparu ar gyfer y byrddau partneriaeth rhanbarthol canlynol:

- Bwrdd Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro
- Bwrdd Rhanbarthol Cwm Taf
- Bwrdd Rhanbarthol Gwent
- Bwrdd Rhanbarthol Gorllewin Cymru

- Bwrdd Rhanbarthol Powys
- Bwrdd Rhanbarthol Gogledd Cymru – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r awdurdodau lleol canlynol: Ynys Môn, Conwy, Sir Dinbych, Sir y Fflint, Gwynedd a Wrecsam
- Bwrdd Rhanbarthol Bae'r Gorllewin

53. Rhaid i'r person a benodwyd yn gyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol pob awdurdod lleol a sefydlodd y bwrdd partneriaeth rhanbarthol, neu gynrychiolydd a enwebwyd, fod yn aelod o'r Bwrdd.

54. Mae angen sicrhau bod ansawdd y wybodaeth a roddir i byrddau partneriaeth rhanbarthol yn ddigonol i'w galluogi i weithredu'n effeithiol. Yn yr un modd, dylai'r cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol sicrhau bod gwybodaeth gan y bwrdd partneriaeth rhanbarthol yn dangos yn glir sut y mae unrhyw swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol wedi'u cyflawni.

55. Rhaid i'r cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol sicrhau bod ei bwrdd partneriaeth rhanbarthol perthnasol yn hwyluso ac yn hyrwyddo cydweithredu er mwyn gwella canlyniadau a llesiant pobl y mae arnynt angen gofal a chymorth, gan gynnwys gofalwyr y mae arnynt angen cymorth.

56. Yn ogystal, rhaid i'r cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol sicrhau bod y cydweithredu rhanbarthol hwn yn arwain at effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gwell o safbwynt darparu gwasanaethau gofal a chymorth i fynd i'r afael a'r anghenion o ran gofal a chymorth, ac anghenion gofalwyr o ran cymorth, a nodwyd yn yr Adroddiad Asesiad Poblogaeth. Mae gan byrddau partneriaeth rhanbarthol ran allweddol i'w chwarae o safbwynt dod a phartneriaid ynghyd i benderfynu, gan ymgynghori a defnyddwyr gwasanaeth, ble y bydd darparu gwasanaethau gofal a chymorth mewn modd integredig yn sicrhau'r budd mwyaf i bobl yn eu rhanbarth.

- ***Trefniadau Cyngor Gwynedd ar gyfer ymateb i'r uchod***

*Bydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn aelod o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn unol a'r gofyn o fewn Rhan 9 o'r Ddeddf ac yn gweithredu i wireddu'r gofynion uchod.*

**Dull ataliol ar gyfer gofal ac anghenion cefnogaeth (para 57-59)**

57. Rhaid i'r cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol sicrhau bod yr awdurdodau lleol a'u partneriaid yn datblygu dull strategol o atal anghenion o ran gofal a chymorth. Mae'n hanfodol nad yw gwasanaethau gofal a chymorth yn aros tan y bydd pobl mewn argyfwng cyn ymateb.

58. Mae'r cod ymarfer ar gyfer Rhan 2 y Ddeddf yn egluro'r gofynion yn adrannau 14 a 15 i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol gynnal asesiad poblogaeth o anghenion o ran gofal a chymorth; ac i awdurdodau lleol ddarparu neu drefnu ystod o wasanaethau ataliol. Rhaid i'r cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol sicrhau bod gwasanaethau ataliol yn cael eu darparu neu'u trefnu yn benodol er mwyn mynd i'r afael a'r anghenion o ran gofal a chymorth a nodwyd gan yr asesiad poblogaeth.

59. Bydd sicrhau bod diwylliant ataliol yng nghyswllt gofal a chymorth yn cael ei ymgorffori ar draws yr awdurdod lleol, a'r adran gwasanaethau cymdeithasol yn benodol, yn gofyn am arweinyddiaeth ar draws yr awdurdod lleol gan bob prif swyddog, ac yn bennaf gan y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol.

- ***Trefniadau Cyngor Gwynedd ar gyfer ymateb i'r uchod***

*Mae gan y Cyngor weledigaeth o roi Pobl Gwynedd yn ganolog i'r oll maent yn eu gwneud, a drwy wneud hynny mae sicrhau dull ataliol ar gyfer gofal ac anghenion cefnogaeth yn greiddiol i'r meddylfryd hyn. Nid yw pobl eisiau dod i fod yn ddibynnol ar wasanaethau statudol, ac felly mae ffocws ein gwaith o fewn y maes yn sicrhau bod diwylliant ataliol yng nghyswllt gofal a chymorth yn cael ei ymgorffori ar draws y Cyngor.*

*Mae'r term "Ffordd Gwynedd" wedi ei ddefnyddio ar gyfer egluro hyn wrth staff o fewn y Cyngor. Mae'r holl arweinwyr o fewn y Cyngor, yn swyddogion ac yn aelodau etholedig yn ceisio arddel yr ymddygiadau priodol ar gyfer sicrhau bod y newid hwn yn digwydd. Mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhan o hyn yn amlwg ac yn defnyddio ei drefniadau adrodd, megis yr Adroddiad Blynyddol, er mwyn pwysleisio hyn.*

*Bydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn sicrhau fod trefniadau cadarn mewn lle er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r Asesiad Poblogaeth o Anghenion. Bydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn sicrhau fod y Gwasanaethau Cymdeithasol yn*

*defnyddio gwybodaeth yr asesiad poblogaeth er mwyn cynllunio'n strategol i'r dyfodol. Bydd yr asesiad poblogaeth yn adnabod cyfleoedd i ddatblygu gwasanaethau ataliol a bydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn amlygu'r angen i weithredu lle'n berthnasol.*

**Ymgysylltu gyda Thrigolion a Chymunedau (para 60 - 63)**

60. Rhaid i awdurdodau lleol gynnwys pobl y bwriedir darparu gwasanaethau gofal a chymorth neu wasanaethau ataliol ar eu cyfer, wrth ddylunio a gweithredu'r gwasanaeth dan sylw.

61. Mae'r cod ymarfer ar gyfer Rhan 2 y Ddeddf yn egluro'r gofyniad yn adran 16 sy'n rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo datblygiad sefydliadau dielw yn eu hardal er mwyn darparu gwasanaethau gofal a chymorth, gan gynnwys gwasanaethau ataliol. Mae'r modelau hynny yn cynnwys mentrau cymdeithasol, sefydliadau cydweithredol, trefniadau cydweithredol, gwasanaethau a gaiff eu harwain gan ddefnyddwyr, a'r trydydd sector. Mae'r gofyniad hwn yn ategu perthynas newydd rhwng yr awdurdod lleol a darparwyr gwasanaeth.

62. Rhaid i'r cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol, wrth nodi ystod a lefel y gwasanaethau sy'n ofynnol i ymateb i'r anghenion o ran gofal a chymorth a nodwyd gan yr asesiad poblogaeth, sicrhau y mabwysiedir dull cydweithredol o gynllunio datblygu, caffael a darparu gwasanaethau.

63. Caiff y gofyniad ynghylch gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy yn adran 17 y Ddeddf ei egluro hefyd yn y cod ymarfer ar gyfer Rhan 2. Yn ogystal, rhaid i'r cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol sicrhau effeithiolrwydd y gwasanaeth hwn o safbwynt y modd y mae'n cynorthwyo pobl i cyflawni eu canlyniadau llesiant.

- ***Trefniadau Cyngor Gwynedd ar gyfer ymateb i'r uchod***

*Mae trefniadau yn datblygu ar gyfer cyflawni y gofyn o ran cynnal asesiad poblogaeth a bydd hwn yn cael ei ddefnyddio fel sail cynllunio gwasanaethau addas ar gyfer y dyfodol. Yn ogystal bydd trefniadau yn cael eu datblygu ar gyfer sicrhau bod gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy yn addas i bwrpas ac yn cyd-fynd a datblygiadau eraill perthnasol fel y newid sydd yn digwydd ar hyn o bryd yn y maes pobl hyn.*

*Y ffocws ar holl wasanaethau yw cynorthwyo pobl i gyflawni eu canlyniadau llesiant.*

**Diogelu (para 64 - 69)**

64. Mae pawb yn gyfrifol am ddiogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu'u hesgeuluso. Fodd bynnag, rhaid i'r cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol ddangos arweinyddiaeth er mwyn sicrhau bod trefniadau diogelu effeithiol ar waith yn yr awdurdod lleol a chan bartneriaid perthnasol.

65. Rhaid i'r cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol oruchwylio'n gyson y modd y caiff systemau diogelu plant ac oedolion yn yr awdurdod lleol eu gweithredu, eu monitro a'u gwella, a rhaid iddo adrodd ynghylch hynny yn gyson wrth y cynghorwyr.

66. Rhaid i drefniadau a ddiffiniwyd gyda swyddogion eraill yn yr awdurdod lleol, yn enwedig y pennaeth gwasanaethau oedolion a'r pennaeth gwasanaethau plant, fod yn glir ynghylch y trefniadau dirprwyo ac adrodd sy'n ymwneud a materion diogelu.

67. Mae Canllawiau Statudol ynghylch Rhan 7 y Ddeddf yn egluro'r gofynion ar gyfer Byrddau Diogelu Plant a Byrddau Diogelu Oedolion.

    Dyma yw'r ardaloedd Byrddau Diogelu:

    - Caerdydd a'r Fro
    - Bwrdd Rhanbarthol Cwm Taf
    - Gwent
    - Canolbarth a Gorllewin Cymru
    - Gogledd Cymru
    - Bae'r Gorllewin

68. Rhaid i Byrddau Diogelu Plant a Byrddau Diogelu Oedolion gynnwys cynrychiolydd a statws digon uchel o bob un o'r awdurdodau lleol sydd yn ardal y Bwrdd. Mae hynny yn cynnwys y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol, ymhlith pobl eraill. Yn absenoldeb y cyfarwyddwr, caniateir i swyddog arall sy'n dderbyniol i'r cyfarwyddwr ac sydd a statws digon uchel fynychu'r Bwrdd yn ei le.

69. Mae pob partner yn gyfrifol i'r un graddau am arfer swyddogaethau Byrddau Diogelu; nid yw hynny yn swyddogaeth benodol ar gyfer awdurdod lleol. Rhaid i'r cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol hybu dulliau effeithiol o weithio mewn partneriaeth a sicrhau bod dyletswyddau diogelu'n cael eu cyflawni'n effeithiol ac mewn modd cydweithredol gan Byrddau Diogelu. Mae'r dyletswyddau hynny yn cynnwys rhai sy'n ymwneud a:

- Chyfrannu at adolygu a datblygu polisïau a gweithdrefnau i ddiogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl
- Codi ymwybyddiaeth o achosion o gam-drin, esgeuluso a niweidio mewn ardal Bwrdd
- Adolygu'n rheolaidd pa mor effeithiol yw mesurau diogelu lleol
- Cynnal Adolygiadau Ymarfer Plant ac Adolygiadau Ymarfer Oedolion a sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu ohonynt
- Dosbarthu gwybodaeth am arfer gorau a gwaith dysgu'n ymwneud a diogelu
- Sicrhau bod ymarferwyr ar draws pob partner diogelu'n cael hyfforddiant priodol ynghylch diogelu neu'n gallu cael gafael ar hyfforddiant o'r fath
- Sicrhau y ceir trefniadau effeithiol a ddeellir ac a hyrwyddir ar gyfer adrodd ynghylch plant ac oedolion yr amheuir eu bod mewn perygl o gael eu cam-drin neu'u hesgeuluso.

➢ ***Trefniadau Cyngor Gwynedd ar gyfer ymateb i'r uchod***

*Mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn aelod llawn o'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Oedolion a'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Plant. Mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol wedi adnabod Pennaeth Adran Plant y Cyngor fel yr uwch swyddog arweiniol o fewn y maes diogelu yn ogystal a bydd y pennaeth hyn yn sicrhau, fel sydd yn bosib, ei mewnbwn cyson ar y ddau Bwrdd Rhanbarthol hyn.*

*Mae'r Cabinet wedi sefydlu trefniadau mewnol ar gyfer arwain a rheoli materion diogelu corfforaethol, ac er mwyn rhoi pwyslais priodol iddo wedi sefydlu Panel Strategol Diogelu. Mae aelod o'r Cabinet yn cadeirio'r Panel yma, ond yn cael ei chefnogi gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. Bwriad y Panel Strategol Diogelu yma yw cynorthwyo'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol i sicrhau ei bod yn gallu cyflawni ei dyletswyddau drwy amlygu camau gweithredu angenrheidiol. Mae adroddiadau cyson yn mynd o'r Panel yma i'r aelodau Cabinet drwy drefniadau monitro perfformiad, a mae*

*adroddiad ffurfiol yn cael eu cyflwyno i sylw'r Cabinet dwy waith y flwyddyn.*

*Ar lefel mwy gweithredol ac achosion unigol, mae'r Cyfarwyddwr Corfforaethol yn cynnal trafodaethau ffurfiol gyda'r Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd a Phennaeth Adran Oedolion drwy y cyfarfodydd Tîm Statudol. Yn y cyfarfodydd hyn bydd cyfle i'r uwch swyddogion drafod materion o bwys a rhwystrau neu faterion o bryder. Mae cylch llywodraethu/rheoli risg yn cael ei gyflwyno gan y ddau bennaeth i sylw'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn chwarterol.*

*Mae trefniadau rheoli perfformiad arferol adran hefyd yn eu lle a bydd cyfle i'r penaethiaid godi materion o bwys o'r wybodaeth hyn. Mae hefyd gofyn i unrhyw un sydd yn adnabod mater o bryder yn y maes diogelu ei ddod i sylw y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn syth.*

**<u>Plant a'u Teuluoedd (para 70 - 71)</u>**

70. Mae cynorthwyo teuluoedd i aros gyda'i gilydd, drwy ganolbwyntio ar ymyrraeth gynnar a chamau atal ar draws pob gwasanaeth a ddarperir ar gyfer plant a'u teuluoedd, yn allweddol i alluogi plant i gael y canlyniadau gorau posibl. Rhaid i'r cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol ddarparu arweinyddiaeth a dangos strategaeth i reoli risg yn hyderus, a rhaid iddo gydweithredu'n effeithiol a'r ystod lawn o bartneriaid er mwyn gweithio gyda theuluoedd sydd ar 'gyrion gofal', gan wneud yn siŵr bod anghenion yn cael eu hasesu'n gywir a'u diwallu er mwyn sicrhau mai dim ond y plant iawn a gaiff eu lletya ar yr adeg iawn.

71. Mae'r cod ymarfer ar gyfer Rhan 6 y Ddeddf yn nodi fframwaith cynhwysfawr o gymorth ar gyfer y plant hynny nad yw eu teuluoedd yn gallu gofalu amdanynt mwyach ac y mae angen iddynt gael gofal gan awdurdod lleol. Rhaid i'r cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol sicrhau bod trefniadau strategol ar waith i alluogi cydweithredu ar draws yr awdurdod lleol a gyda phartneriaid er mwyn gallu darparu gwasanaethau gofal a chymorth yn effeithiol ar gyfer pobl plentyn sy'n derbyn gofal. Rhaid i'r trefniadau alluogi gwaith cynllunio sy'n ymdrin a phob agwedd ar lesiant y plentyn, gan gynnwys anghenion o ran iechyd a datblygiad, sefydlogrwydd a pharhauster, a chyrhaeddiad

addysgol, ac sy'n canolbwyntio ar wella canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

- ***Trefniadau Cyngor Gwynedd ar gyfer ymateb i'r uchod***

*Mae newidiadau strwythurol eithaf diweddar wedi lleoli gwasanaethau plant a phobl ifanc gydag un pennaeth o fewn y Cyngor, sef Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd. Mae hefyd aelod cabinet yn arwain ar y maes Plant a Phobl Ifanc. Bwriad gwneud hyn oedd er mwyn sicrhau bod y ffocws o ran ymyrraeth gynnar a chamau atal yn cael eu cymryd.*

*Bydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn sicrhau arweinyddiaeth yn y maes hwn ac yn sicrhau hefyd fod perthynas waith agos gyda Phennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd - hynny er mwyn ymdrin â materion strategol a gweithredol.*

*Bydd y Cyfarwyddwr Corfforaethol yn cynnal trafodaethau ffurfiol gyda'r Pennaeth Adran Plant yn y cyfarfodydd Tîm Statudol. Yn y cyfarfodydd hyn bydd cyfle i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Pennaeth Adran Plant a chefnogi Teuluoedd drafod achosion unigol, materion o bwys, rhwystrau neu faterion o bryder. Bydd y Pennaeth yr Adan Plant a Chefnogi Teuluoedd yn cyflwyno cylch llywodraethu/rheoli risg yn chwarterol i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.*

*Mae Panel Rhiant Corfforaethol yn ei le o fewn y Cyngor er mwyn ceisio sicrhau bod holl anghenion y plant hynny nad yw eu teuluoedd yn gallu gofalu amdanynt mwyaf ac y mae angen iddynt gael gofal gan awdurdod lleol yn cael eu cwrdd. Mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn aelod llawn o'r Panel Rhiant Corfforaethol ac yn gallu sicrhau bod trefniadau strategol ar waith i alluogi cydweithredu ar draws yr awdurdod lleol a gyda phartneriaid.*

**<u>Datblygiad y Gweithlu (para 72 -79)</u>**

72. Mae gan y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol swyddogaeth darparu arweinyddiaeth er mwyn hybu safonau uchel ar draws y gweithlu gofal a chymorth, gan gynnwys y sector preifat a'r trydydd sector.

73. Rhaid i'r cyfarwyddwr sicrhau bod cynllun gweithlu sector cyfan ar waith, sy'n nodi mesurau i sicrhau gweithlu digon mawr, medrus, diogel a phwrpasol er mwyn hyrwyddo llesiant pobl ag anghenion

o ran gofal a chymorth, ac sy'n sicrhau bod y mesurau dan sylw'n cael eu gweithredu. Mae hynny yn cynnwys mesurau sy'n ymdrin a recriwtio a chadw, archwilio hanes pobl cyn eu cyflogi, cofrestru, gwobrwyo, mynd i'r afael a pherfformiad gwael, llwybrau o ran gyrfa, cymhwysedd a gofynion o ran cymwysterau, cymysgedd sgiliau, anghenion o ran hyfforddiant, ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth, cydymffurfio a chodau ymarfer a chyfrannu i ddata ynghylch y gweithlu.

74. Dylid darparu'r arweinyddiaeth strategol hon yn rhan o'r gwaith o ddatblygu trefniadau effeithiol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth, fel y disgrifir ym mharagraffau 53 i 57. Fodd bynnag, rhaid i'r cyfarwyddwr nodi'n glir nad yw hynny yn rhyddhau asiantaethau a darparwyr eraill o'u cyfrifoldebau unigol hwy o ran cynllunio a datblygu'r gweithlu.

75. Dylai'r cyfarwyddwr hyrwyddo dysgu cydweithredol gan y gweithlu drwy rwydweithiau a chydberthnasau a chyrff eraill. Mae hynny yn cynnwys gweithio gyda darparwyr addysg a hyfforddiant, megis cyrff addysg uwch, i sicrhau eu bod yn gallu darparu hyfforddiant perthnasol ac effeithiol a chefnogi gweithlu cymwys.

76. Un o swyddogaethau hollbwysig y cyfarwyddwr yw sicrhau bod ymddygiad cadarnhaol o ran arweinyddiaeth yn cael ei ddatblygu drwy y gwasanaeth. Wrth weithio gyda chyrff proffesiynol, mae angen arweinyddiaeth glir i hyrwyddo diwylliant o ddysgu parhaus, ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ac atebolrwydd proffesiynol. Mae'r cyfarwyddwr yn esiampl i eraill a dylai hyrwyddo'r gwaith o ddatblygu'r ymddygiad a'r sgiliau hyn ymysg rheolwyr gwasanaeth.

77. Dylai swyddogaeth y cyfarwyddwr o safbwynt darparu arweinyddiaeth yng nghyswllt datblygu'r gweithlu yn yr awdurdod lleol gael ei chynnwys yn y trefniadau gweithio a ddiffiniwyd, fel y disgrifir ym mharagraffau 26 i 27. Yn rhan o'i swyddogaeth fel uwch-arweinydd corfforaethol, rhaid i'r cyfarwyddwr sicrhau bod gan yr awdurdod lleol bolisïau holl-gyffredinol ynghylch personél a gwaith recriwtio diogel, sy'n ategu'r angen am weithlu gofal cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau gofal chymorth effeithiol. Mae hynny yn cynnwys sicrhau bod y gweithwyr cymdeithasol a gyflogir yn cael eu cofrestru gyda'r corff rheoleiddio yng Nghymru er mwyn sicrhau cysylltiad cryf rhwng cyflogwyr a rheoleiddwyr.

78. Rhaid i'r cyfarwyddwr gynghori cynghorwyr, partneriaid a darparwyr eraill os yw diffygion o ran y gweithlu'n rhwystro capasiti

yr awdurdod lleol i gyflawni cyfrifoldebau statudol, a rhaid iddo nodi'r camau gweithredu sy'n angenrheidiol i gywiro'r diffygion hynny.

79. Yn unol a'r fframwaith strategol Mwy na Geiriau, bydd cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol yn sicrhau bod strategaeth recriwtio a chadw effeithiol ar waith er mwyn sicrhau'r capasiti i ddarparu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd gallu'r sector annibynnol a'r trydydd sector i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg yn cael ei ystyried hefyd pan fydd gwasanaethau'n cael eu comisiynu neu'u prynu ar gontract ganddynt.

- ***Trefniadau Cyngor Gwynedd ar gyfer ymateb i'r uchod***

*Mae ansawdd a chynaliadwyedd gweithwyr o fewn y sector gofal yn holl bwysig a mae gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol sawl adnodd i geisio sicrhau bod y flaenoriaeth cywir yn cael ei rhoi i'r maes.*

*Mae Uned Cefnogi a Datblygu'r Gweithlu yn bodoli ac wedi ei lleoli o fewn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant. Mae'r tîm yma yn gyfrifol am faterion hyfforddi y sector gyfan a hefyd am gynllunio materion datblygol ar gyfer y gweithlu, gan gynnwys rhagweld meysydd o angen a phroblemau sgiliau a recriwtio. Mae'r tîm yma yn adrodd drwy eu rheolwr i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a hefyd ar gael i fynychu'r Tîm Statudol yn unol a'r angen. Yn ogystal a hyn, ac fel rhan o drefniadau'r Tîm Statudol, bydd Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd a'r Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn cyflwyno Cylch Llywodraethu / Cofrestr Risg bob chwarter blwyddyn. Wrth gyflwyno'r Cylch Llywodraethu / Cofrestr Risg, bydd disgwyl iddynt roi sylw penodol i holl ystyriaethau 'Datblygu'r Gweithlu'.*

*Trwy'r dulliau hyn felly bydd unrhyw risgiau yn cael eu hamlygu i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, ble bydd modd wedyn cytuno ar unrhyw weithred.*

*Yn ogystal mae'r Uned Cefnogi a Datblygu'r Gweithlu yn gweithio mewn cyd-destun rhanbarthol ac mae Bwrdd Gweithlu Rhanbarthol yn rhoi cefnogaeth strategol ychwanegol i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ar faterion o bwys. Ymddengys bellach bod y Llywodraeth yn annog yn gynyddol fwy o faterion i gael eu ymdrin yn rhanbarthol. O fewn y cyd-destun hyn mae materion cysylltiol fel y gweithlu maes iechyd yn cael eu trafod.*

*O ran y gweithlu proffesiynol, mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn cwrdd a phrif arweinwyr Prifysgol Bangor er mwyn trafod agweddau a datblygiadau o fewn y cwrs MA Gwaith Cymdeithasol. Mae'r berthynas hon yn holl bwysig er mwyn sicrhau cynaliadwyedd y gweithlu i'r dyfodol a hefyd yn amlwg argaeledd gweithwyr sydd yn gallu'r Gymraeg yn rhugl.*

*O ran trefniadau comisiynu a chontractio, mae gan y Cyngor drefniadau o ran sicrhau bod darparwyr yn recriwtio staff sydd yn gallu'r Gymraeg i lefel briodol ar gyfer y swydd. Bydd y trefniadau hyn cael eu monitro a bydd y wybodaeth yma ar gael i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd yn monitro os yw'r nifer hyn yn ddigonol i ddiwallu anghenion sydd wedi codi o'r asesiad poblogaeth.*

**Adroddiad Blynyddol (para 80 - 90)**

80. Rhaid i'r cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol baratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol ynghylch y modd y mae swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol yn cael eu hymarfer. Rhaid i'r adroddiad blynyddol hwn gael ei gyhoeddi cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.

81. Rhaid i'r adroddiad blynyddol werthuso perfformiad yr awdurdod lleol o safbwynt y modd y mae wedi cyflawni ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yng nghyswllt y flwyddyn dan sylw, a rhaid iddo gynnwys y gwersi a ddysgwyd. Yn ogystal, rhaid iddo nodi amcanion ar gyfer hyrwyddo llesiant pobl y mae arnynt angen gofal a chymorth, a gofalwyr y mae arnynt angen cymorth, ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

82. Dylai'r adroddiad blynyddol gael ei gyflwyno mewn modd sy'n nodi sut y mae'r awdurdod lleol wedi cyrraedd y chwech safon ansawdd ar gyfer canlyniadau llesiant, a ddisgrifir yn y cod ymarfer mewn perthynas a mesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol, a gyflwynwyd dan adran 145 y Ddeddf.

83. Rhaid i'r adroddiad blynyddol nodi sut y mae'r awdurdod lleol wedi hyrwyddo llesiant pobl y mae arnynt angen gofal a chymorth, a gofalwyr y mae arnynt angen cymorth, a nodwyd yn yr Adroddiad

Asesiad Poblogaeth a luniwyd ynglŷn ag ardal yr awdurdod lleol hwnnw.

84. Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys manylion am y graddau y mae'r awdurdod wedi gweithredu'n unol a'r gofynion perthnasol mewn cod sy'n ymwneud ag asesu anghenion unigolyn yn unol a Rhan 3 a diwallu anghenion dan Ran 4.

85. Yn ogystal, rhaid i'r adroddiad blynyddol nodi sut y mae'r awdurdod lleol wedi cyflawni'r gofynion perthnasol mewn cod ymarfer, er mwyn darparu'r canlynol:

- Sicrwydd o safbwynt trefniadau strwythurol yn yr awdurdod lleol, sy'n galluogi gwaith llywodraethu da ac atebolrwydd cryf
- Sicrwydd o safbwynt dulliau effeithiol o weithio mewn partneriaeth drwy fyrddau partneriaeth
- Sicrwydd o safbwynt trefniadau diogelu
- Gwybodaeth am berfformiad o safbwynt ymdrin a chwynion a sylwadau ac ymchwilio iddynt
- Ymateb i unrhyw arolygiadau a cynhelir yng nghyswllt swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.

86. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau gofal cymdeithasol o safon sy'n canolbwyntio ar anghenion defnyddwyr. Mwy na Geiriau yw fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwireddu'r nod hwnnw. Felly, yn yr adroddiad blynyddol, mae'n ofynnol i gyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y ddarpariaeth sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg a'r modd y maent yn gweithredu Mwy na Geiriau.

87. Mae'n bwysig bod barn defnyddwyr gwasanaeth ynghylch y modd y mae'r awdurdod lleol wedi cyflawni ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yn cael ei chynnwys yn yr adroddiad blynyddol. Rhaid i bobl, gan gynnwys plant, sydd a phrofiad o ddefnyddio gwasanaethau gofal a chymorth, a rhieni plant sydd ag anghenion o ran gofal a chymorth, a gofalwyr yn ardal yr awdurdod lleol gael eu cynnwys yn y broses o lunio adroddiad blynyddol. Yn ogystal, dylai hynny gael ei ddangos gan y wybodaeth statudol am berfformiad y mae'n rhaid i bob awdurdod lleol ei chasglu, fel y nodir yn y cod ymarfer mewn perthynas a mesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol, yn flynyddol. Mae hefyd yn bwysig bod darparwyr allanol ac

asiantaethau partner yn cyfrannu eu barn am ansawdd dulliau o weithio mewn partneriaeth. Rhaid i'r adroddiad blynyddol nodi sut y mae'r awdurdod lleol wedi ymgysylltu a phobl wrth lunio'r adroddiad. Dylai'r adroddiad blynyddol adlewyrchu profiadau darparwyr gwasanaeth a defnyddwyr gwasanaeth.

88. Mae adroddiadau blynyddol yn ffordd allweddol y gall awdurdodau lleol ddangos atebolrwydd i ddinasyddion, ac felly dylent fod yn hygyrch i bobl, gan gynnwys defnyddwyr gwasanaeth. Dylai'r cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol sicrhau nad yw adroddiadau blynyddol yn rhy hir a'u bod yn cael eu hysgrifennu mewn modd clir a chryno.

89. Er mwyn sicrhau atebolrwydd effeithiol, rhaid i'r adroddiad blynyddol gael ei gyflwyno i'r cyngor gan y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol.

90. Rhaid i gopi o'r adroddiad blynyddol a gyhoeddwyr gael ei anfon at Weinidogion Cymru. Rhaid i'r adroddiad fod ar gael ar wefan yr awdurdod lleol hefyd.

- ***Trefniadau Cyngor Gwynedd ar gyfer ymateb i'r uchod***

*Mae trefniadau yn eu lle i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyno ei adroddiad blynyddol i'r Cabinet a'r Cyngor Llawn. Mae pob ymgais i wneud hyn yn y cyfarfod cyn yr Haf, sydd yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol - bydd copi hefyd ar gael ar gyfer trefniadau craffu.*

*Bydd yr agweddau uchod o ran cynnwys yn cael eu hymgorffori o fewn yr adroddiad a bydd cyfeiriad at faterion ee Mwy na Geiriau hefyd wedi eu cynnwys.*

*Bydd copïau o'r adroddiad ar gael ar wefan y Cyngor a bydd wedi ei anfon, yn unol a'r gofyn, i reoleiddwyr a'r Llywodraeth.*

**<u>Cymwyseddau sydd angen gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (para 91)</u>**

91. Ni chaniateir i awdurdod lleol benodi person yn gyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol iddo oni bai ei fod yn fodlon bod y person hwnnw wedi dangos y gyfres iawn o gymwyseddau rhyngberthynol sy'n diffinio'r wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiad

sy'n ofynnol gan y swyddogaeth. Yn gyffredinol, mae'r cymwyseddau hyn yn gyson a Model Ymddygiad Grŵp Arwain y Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru.

Rhinweddau Craidd

Hunanymwybyddiaeth a dysgu

- Y gallu i ddangos gweledigaeth, creadigrwydd, hyblygrwydd, blaengaredd a deallusrwydd emosiynol gan fabwysiadu agwedd eangfrydig at gyfleoedd dysgu a datblygu ar ei gyfer ei hun ac ar gyfer pobl eraill
- Ymrwymiad i sicrhau bod pob gwasanaeth a phob person ar draws pob sector sy'n ymwneud a darparu gwasanaethau gofal a chymorth yn datblygu'n barhaus

Awydd i sicrhau canlyniadau a chydnerthedd

- Profiad sylweddol ym maes rheoli a darparu gwasanaethau gofal a chymorth effeithiol
- Gwybodaeth am gyd-destun deddfwriaethol a strwythurol gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru, yn enwedig Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Parodrwydd i'w ddwyn ei hun i gyfrif, a dwyn pobl eraill i gyfrif, am y modd y caiff canlyniadau eu cyflawni

Gweithio yn y dyfodol

Hyrwyddo blaengaredd a newid

- Y gallu i ddarparu arweinyddiaeth broffesiynol gre, a'r gallu i sicrhau ac ysbrydoli newid a gwelliant drwy fod yn ddylanwadol, bod yn agored a chyfathrebu'n effeithiol
- Y gallu i gymryd camau rhagweithiol i hyrwyddo a hwyluso integreiddio a chydweithredu rhwng gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i bobl sydd ag anghenion o ran gofal a chymorth

Chyfeiriad strategol

- Gwybodaeth a phrofiad ym maes cynllunio a datblygu'r gweithlu, a dealltwriaeth dda o bwysigrwydd effeithiol ym mhob sector
- Y gallu i ddwyn pobl a gwasanaethau i gyfrif drwy sicrhau bod llif a systemau gwybodaeth, llinellau adrodd a dulliau archwilio proffesiynol ac archwilio rheolaeth ar waith

Cydweithio ag eraill

Meithrin cydweithredu a phartneriaeth

- Y gallu i hyrwyddo dulliau effeithiol o weithio mewn partneriaeth, gan gyfrannu at ddatblygu atebion cydweithredol a lunnir ar y cyd rhwng y sector gyhoeddus, y sector annibynnol a'r trydydd sector wrth gynllunio a darparu gwasanaethau sy'n gwneud yn fawr o arbenigedd ac adnoddau
- Y gallu i wneud penderfyniadau strategol sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn datblygu gwasanaethau gofal a chymorth effeithiol mewn modd cydweithredol
- Y gallu i fod yn hyblyg ac yn barod i addasu werth arwain, a pharodrwydd i ddysgu oddi wrth eraill er mwyn gwella'r ddarpariaeth o ran gwasanaethau

Sgil ac ymwybyddiaeth wleidyddol

- Dealltwriaeth o weithio, a phrofiad o weithio, ar lefel uwch mewn cyd-destunau gwleidyddol cenedlaethol a lleol sy'n atebol i'r cyhoedd
- Gwybodaeth dda am amgylchedd gweithredol mudiadau yn y sector annibynnol a'r trydydd sector sy'n darparu gwasanaethau gofal a chymorth

<u>Cyflawni</u>

Canolbwyntio ar ddinasyddion a gwerth

- Sicrhau bod yr awdurdod lleol a phob partner yn mabwysiadu dull gweithredu sy'n ceisio hyrwyddo llesiant pobl y mae arnynt angen gofal a chymorth, a gofalwyr y mae arnynt angen cymorth.
- Darparu arweinyddiaeth strategol er mwyn sicrhau bod pob gwasanaeth gofal a chymorth yn cael ei ddylunio a'i ddarparu mewn partneriaeth a dinasyddion a'i fod yn canolbwyntio ar alluogi dinasyddion i sicrhau eu llesiant eu hunain
- Dangos sgiliau ardderchog o safbwynt rheolaeth ariannol yng nghyswllt cyllideb yr awdurdod lleol a chyllidebau o rhennir

Rhannu arweinyddiaeth

- Y gallu i ddangos arweinyddiaeth a gaiff ei thywys gan werthoedd er mwyn sicrhau ymrwymiad staff a rheolwyr ar bob lefel i gynnal safonau uchel ac arfer da, drwy eu grymuso i ddangos uchelgais a chymryd cyfrifoldeb

- ***Trefniadau Cyngor Gwynedd ar gyfer ymateb i'r uchod***

*Mae trefniadau penodi a recriwtio prif swyddogion y Cyngor yn ymateb i'r gofyn gyda'r uchod. Mae pennaeth y gwasanaeth cyflogedig yn rhan o'r Panel Penodi Prif Swyddogion ac yn gallu rhoi arweiniad i'r aelodau etholedig ar gyfer y cymwyseddau uchod. Bydd y Panel Penodi yn ystyried canlyniadau canolfan asesu priodol fel rhan o'u proses penodi y ogystal.*

**ADRODDIAD I'R CABINET**
(03/05/16)

**Aelodau Cabinet:** Cynghorydd Gareth Roberts & Cynghorydd Mair Rowlands

**Pwnc:** Ymateb i ofynion Rhan 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

**Swyddog cyswllt:** Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Corfforaethol

---

**Y penderfyniad a geisir/pwrpas yr adroddiad**

1. Gofynnir i'r Cabinet dderbyn nodi sefydlu'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, yn unol â Rhan 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

2. Gofynnir i'r Cabinet gefnogi sefydlu'r Bwrdd Cysgodol Partneriaeth Rhanbarthol am y cyfnod hyd nes bydd y trefniadau ffurfiol wedi eu cadarnhau.

3. Gofynnir i'r Cabinet enwebu aelod o'r Cabinet, sydd â chyfrifoldeb o fewn y maes gwasanaethau cymdeithasol, i eistedd ar y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Gofynnir i'r Cabinet hefyd enwebu dirprwy.

4. Gofynnir i'r Cabinet dderbyn y strwythur arfaethedig o ran trefniadau adrodd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. (Atodiad 1)

5. Gofynnir i'r Cabinet ymrwymo i ariannu'r costau i gefnogi'r trefniadau rhanbarthol o 2017/18, yn unol â'r lefel trefniadau presennol.

---

**Cyflwyniad**

1. Bydd yr aelodau yn ymwybodol o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac sydd wedi bod yn weithredol ers y 6ed o Ebrill eleni.

2. Mae Rhan 9 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gofyn i awdurdodau lleol i wneud trefniadau i hyrwyddo cydweithredu gyda phartneriaid perthnasol ac eraill mewn perthynas ac oedolion gyda gofynion gofal a chefnogaeth, gofalwyr a phlant.

3. Mae hefyd yn gosod dyletswydd ar y partneriaid perthnasol i gydweithredu gyda'r awdurdodau lleol ar gyfer y pwrpas o gynllunio a darparu eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Maent hefyd gyda dyletswydd i rannu gwybodaeth a bydd y wybodaeth yma yn greiddiol i gwblhau'r asesiad angen rhanbarthol, a fydd yn cynnig arweiniad ar y gwaith o ddarparu gweithio integredig yn lleol.

4. Pwrpas Rhan 9 o'r Ddeddf yw gwella canlyniadau a llesiant pobl yn ogystal â gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd darparu gwasanaethau. Mae'r prif amcan o gyd-weithio, partneriaeth ac integreiddio yn cael eu disgrifio yn y canllaw statudol fel:-
   - Gwella gofal a chefnogaeth, gan sicrhau bod gan bobl fwy o lais a rheolaeth
   - Gwella canlyniadau o ran iechyd a llesiant
   - Sicrhau gofal a chefnogaeth sydd yn berson ganolog ac sydd wedi ei gydlynu
   - Gwneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau, sgiliau ac arbenigedd

5. Un rhan o'r Ddeddf yw'r gofyn am sefydlu Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar sail ardaloedd y byrddau iechyd yng Nghymru. Felly i ni yma, mae gofyn am sefydlu Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru. Bydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn gorff statudol gyda swyddogaethau sydd wedi eu gosod yn unol â'r Ddeddf a rheoliadau perthnasol. Mae Rhan 9 o'r Ddeddf hefyd yn darparu pwerau gosod rheoliadau i Weinidogion Cymreig mewn perthynas â threfniadau partneriaeth ffurfiol, adnoddau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth (gan gynnwys 'pooled funds') a byrddau partneriaeth.

6. Mae'r adroddiad hwn yn gosod allan sut mae oll o'r partneriaid yng Ngogledd Cymru wedi bod yn gweithio tuag at sefydlu y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn unol a gofynion y Ddeddf, yn ogystal a beth fydd disgwyliadau o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

7. Dylid nodi bod Bwrdd Cysgodol Partneriaeth Rhanbarthol wedi ei sefydlu yn ddiweddar er mwyn rhoi rhai materion ar waith.

<u>Gofynion Rhan 9 o'r Ddeddf</u>

8. Mae gofyn i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol i sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i reoli a datblygu gwasanaethau, i sicrhau cynllunio strategol a gweithio mewn partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol ac i sicrhau bod gwasanaethau effeithiol, gofal a chefnogaeth yn eu lle i ddiwallu anghenion eu poblogaethau perthnasol.

9. Mae Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth yn gofyn i drefniadau partneriaeth gael eu sefydlu gan y partneriaid yn unol ag ardaloedd y byrddau iechyd, o dan arweiniad y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

10. Amcanion y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yw is sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol er mwyn
    - Ymateb i'r asesiad anghenion poblogaeth fydd wedi ei gynhyrchu yn unol â'r gofyn o ran 14 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
    - Gweithredu cynlluniau ar gyfer pob ardal awdurdod lleol sydd yn cael eu dal gan y Bwrdd, fydd yn ofynnol i'r awdurdodau lleol a'r byrddau iechyd lleol i'w paratoi a chyhoeddi o dan rhan 14A o'r Ddeddf
    - Sicrhau bod y cyrff partneriaeth yn darparu adnoddau digonol ar gyfer y trefniadau partneriaeth, yn unol â'u pwerau yn rhan 167 o'r Ddeddf
    - Hyrwyddo sefydlu, lle'n berthnasol, 'pooled funds'.

11. Bydd angen i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol flaenoriaethu integreiddio gwasanaethau mewn perthynas â:-
    - Pobl Hyn gyda gofynion dwys a chyflyrau tymor hir, gan gynnwys dementia
    - Pobl gydag anableddau dysgu
    - Gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc
    - Gwasanaethau Integredig Cefnogaeth Teulu (IFSS)
    - Datblygu gwasanaethau integredig ar gyfer plant a gofynion dwys oherwydd anabledd neu salwch a phobl ifanc gyda phroblemau iechyd meddwl
    - Sicrhau bod 'pooled funds' yn cael eu sefydlu a'u rheoli ar gyfer swyddogaethau llety cartrefi gofal a cefnogaeth teuluol yn ogystal a swyddogaethau fydd yn cael eu gweithredu ar y cyd yn dilyn asesiad o dan rhan 14 o'r Ddeddf. Mae sicrhau trefniadau 'pooled funds' mewn perthynas a llety cartrefi gofal yn ofynnol erbyn 6ed o Ebrill 2018.

12. Mae'r rheoliadau dan Rhan 9 o'r Ddeddf yn gosod allan pwy sydd angen bod yn aelodau o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, ac mae wedi nodi isod, ond gall rhanbarthau gyfethol unigolion ychwanegol i fod yn aelodau o'r Bwrdd fel sydd yn briodol.
    - O leiaf un aelod etholedig o awdurdod lleol sydd wedi sefydlu'r bwrdd partneriaeth rhanbarthol
    - O leiaf un aelod o'r Bwrdd Iechyd Lleol sydd wedi sefydlu'r bwrdd partneriaeth rhanbarthol
    - Y person sydd wedi ei benodi fel y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol o dan rhan 144 o'r Ddeddf mewn perthynas â'r

awdurdod lleol sydd wedi sefydlu'r bwrdd partneriaeth rhanbarthol, neu gynrychiolwyr i'r unigolyn hyn

- Cynrychiolydd o'r Bwrdd Iechyd Lleol sydd wedi sefydlu'r bwrdd partneriaeth rhanbarthol
- Dau unigolyn sydd yn cynrychioli buddiannau y sefydliadau trydydd sector o fewn yr ardal sydd yn cael ei chynrychioli gan y bwrdd partneriaeth rhanbarthol
- O leiaf un unigolyn sydd yn cynrychioli buddiannau'r darparwyr gofal yn yr ardal sydd yn cael ei chynrychioli gan y bwrdd partneriaeth rhanbarthol
- Un unigolyn i gynrychioli pobl sydd â gofynion gofal a chefnogaeth yn yr ardal sydd yn cael ei chynrychioli gan y bwrdd partneriaeth rhanbarthol
- Un unigolyn i gynrychioli gofalwyr yn yr ardal sydd yn cael ei chynrychioli gan y bwrdd partneriaeth rhanbarthol.

13. Bydd angen sicrhau bod y trefniadau priodol yn cael eu rhoi ar waith i ymgysylltu gyda byrddau a sefydliadau eraill a bydd angen meithrin trafodaethau priodol drwy rwydweithiau a fforymau presennol lle'n berthnasol. Yng Ngogledd Cymru, mae bwriad i ddefnyddio fforymau presennol fel y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ynghyd a'r Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol (Gweler siart yn Atodiad 1).

14. Mae gofyn bod y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn paratoi a chyflwyno adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymreig ar y cyflawniad yn erbyn amcanion y bwrdd. Bydd angen paratoi a chyflwyno'r adroddiad cyntaf erbyn y 1 Ebrill 2017.

15. Bydd angen i'r adroddiad yma gael ei gyhoeddi a bydd angen cynnwys ynddo:-
    - gwybodaeth am aelodaeth y Bwrdd,
    - gwybodaeth am sut mae'r Bwrdd wedi cyflawni ei amcanion gan gynnwys gwybodaeth ariannol
    - adroddiadau cynnydd
    - trefniadau partneriaeth sydd yn eu lle ar gyfer cyflawni'r asesiad anghenion poblogaeth
    - sut mae'r Bwrdd wedi ymgysylltu gyda defnyddwyr gwasanaeth neu grwpiau sydd yn cynrychioli defnyddwyr gwasanaeth
    - gwybodaeth am sut mae'r trefniadau partneriaeth wedi cyfrannu at wella canlyniadau a darpariaeth gwasanaeth a sut mae adnoddau yn cael eu defnyddio yn fwy effeithiol
    - gwybodaeth am y swyddogaethau statudol sydd wedi eu defnyddio neu'r trefniadau anffurfiol sydd wedi cael eu tanategu gan gytundeb ysgrifenedig.

16. Er fod y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn statudol, nid oes ganddo bwerau penderfynu.

<u>Y sefyllfa bresennol</u>

17. Ers nifer o flynyddoedd bellach mae Gogledd Cymru wedi cael trefniadau llywodraethu rhanbarthol yn ymwneud a cheisio hyrwyddo cydweithio a gweithio ar y cyd ar draws y meysydd iechyd a gofal cymdeithasol. Yn 2011 bu i'r Bwrdd Rhaglen Gofal Cymdeithasol ac Iechyd gael ei sefydlu fel un o bedwar bwrdd rhaglen ar draws Gogledd Cymru. Roedd bob un o'r byrddau rhaglen hyn yn cael eu cadeirio gan Brif Weithredwr a oedd yn noddwr y rhaglen.

18. Yn ogystal, ers nifer o flynyddoedd, mae Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol a Chyfarwyddwyr o'r Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr wedi cyfarfod yn chwarterol i drafod materion strategol.

19. Ers 2014/15, o dan ofynion arian grant Llywodraeth Cymru - Grant Cyflawni Trawsnewid - roedd rhaid sefydlu trefniadau llywodraethu i adlewyrchu'r strwythur cenedlaethol gan greu Fforwm Partneriaeth Rhanbarthol a Grŵp Arweinyddiaeth Rhanbarthol. O'r dyddiad hwn ymlaen, bu i'r trefniadau uchod (17&18) newid i'r rhai hyn, a dyma yw'r trefniadau sydd yn bodoli ar hyn o bryd.

20. Er mwyn paratoi at ofynion Rhan 9 o'r Ddeddf, bu i'r Fforwm Partneriaeth Rhanbarthol drafod dau opsiwn strwythurol. Mae'r opsiwn strwythurol sydd yn cael ei ffafrio i'w weld yn Atodiad 1. Daethpwyd i'r casgliad yn dilyn gweithdy rhanbarthol ar y 14 Mawrth, 2016, lle be aelodau o'r byrddau/grwpiau bresennol ynghyd ag unigolion eraill ddod ynghyd i drafod y mater. Roedd barn glir yn y gweithdy hwn bod angen cadw ffocws lleol o ran darpariaethau gwasanaeth a bydd trafodaethau yn parhau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru er mwyn manylu a datrys y rolau a chyfrifoldebau rhanbarthol, isranbarthol a lleol.

21. Y cynnig yw y bydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn adrodd yn uniongyrchol i'r Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol ynghyd a'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a bydd ganddynt rôl allweddol o ran gweithio gyda'r panel trigolion rhanbarthol. Bydd angen i bob partner sicrhau eu bod yn gallu adrodd yn ôl i'w corff priodol gan fod yn atebol i'w endid statudol (Cyngor/Bwrdd Iechyd Lleol).

22. Gan y bydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn gyfrifol am swyddogaeth statudol bydd yn gweithredu gyda gwasanaethau cyfieithu.

23. Er mwyn ceisio gwireddu'r gofyn, bu i'r Fforwm Partneriaeth Rhanbarthol gytuno yn eu cyfarfod olaf ar y 14 Mawrth 2016 y byddent yn ymddwyn fel Bwrdd Cysgodol o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol hyd nes y bydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi ei sefydlu yn ffurfiol. Cytunwyd yn ogystal y byddai Cadair y Fforwm Partneriaeth Rhanbarthol yn cadeirio'r Bwrdd Cysgodol hyn.

24. Bydd yr awdurdodau lleol yn cael ei chynrychioli gan eu Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, sef i Wynedd - Morwena Edwards yn ogystal ag un aelod cabinet sydd â chyfrifoldeb am y maes gwasanaethau cymdeithasol. Bydd angen yma enwebu unai y Cynghorydd Gareth Roberts neu'r Cynghorydd Mair Rowlands, a byddai'n ddelfrydol eu bod ar gael i ddirprwyo i'w gilydd yn amlwg.

25. Mae trafodaethau cynnar o'r Bwrdd Cysgodol Partneriaeth Rhanbarthol wedi cynnig bod cynrychiolaeth o'r cyrff isod yn cael eu cyfethol i'r Bwrdd:-
- Comisiynydd Heddlu a Throsedd
- Heddlu Gogledd Cymru
- Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru

Bydd angen i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol benderfynu hyn.

26. Mae'n werth nodi, ar hyn o bryd mae'r gost o gefnogi trefniadau'r Bwrdd yn cael eu talu o grant Llywodraeth Cymru ('Delivering Transformation Grant') a bydd hyn yn parhau am y flwyddyn 2016/17. Erbyn 2017/18 bydd y grant dan sylw yn cael ei gynnwys o fewn setliad RSG awdurdodau lleol ac felly bydd angen ariannu'r gost o gefnogi'r trefniadau o gyllideb y Cyngor o 2017/18 ymlaen.

**Rhesymau dros argymell y penderfyniad**

27. Mae'r gofyn am sefydlu Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn ofyn statudol o dan rhan 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

28. Mae'r cynnig i gael Bwrdd Cysgodol Partneriaeth Rhanbarthol hyd nes y bydd y trefniadau ffurfiol yn eu lle yn un rhesymol o dan yr amgylchiadau, ac yn osgoi cyfnod o oedi.

29. Mae aelodaeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi ei sefydlu yn y rheoliadau. Yn ogystal, mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Aelod Cabinet ar gyfer Oedolion, Iechyd a Llesiant yn aelodau o'r cyn Fforwm Partneriaeth Rhanbarthol, ac yn trafod materion iechyd a gofal yn rhanbarthol. Bydd angen ceisio sicrhau bod trafodaeth gyson yn digwydd rhwng y ddau aelod cabinet perthnasol o ran y gofynion materion plant a phobl ifanc. Byddai trefn

o ofyn am drefniadau dirprwyo ffurfiol yn rhoi cyfle i'r ddau aelod cabinet fod yn ymglymedig.

30. Mae'r strwythur sydd wedi ei osod yn Atodiad 1 yn ceisio ymateb i'r angen i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol fod yn ymgysylltu a'r byrddau a grwpiau rhanbarthol sydd eisoes yn eu lle. Mae hefyd yn cynnig opsiwn sydd yn sicrhau bod gan y Bwrdd drefniadau gweithredol yn bwydo iddo er mwyn sicrhau bod materion yn cael eu symud ymlaen rhwng cyfarfodydd. Mae'r cynnig hefyd yn nodi yn glir yr angen i weithio mewn trefniadau lleol ac is-ranbarthol os yw'n addas gwneud hynny, ac nad ydym yn gorlwytho'r Bwrdd Rhanbarthol gyda materion fyddai well eu datrys yn lleol.

31. Mae ffynhonnell ariannol o ran cefnogi'r Bwrdd yn mynd i newid o 2017/18 ymlaen (gweler 26 uchod). Ni fydd hwn yn gost ychwanegol i'r Cyngor gan y bydd yr arian yn cael ei ychwanegu i'r setliad.

**Ystyriaethau perthnasol**

Dim ychwanegol i'w nodi

**Camau nesaf ac amserlen**

32. Os bydd cytundeb i'r argymhellion gan y Cabinet, bydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cyfarfod unwaith y bydd y saith partner allweddol wedi cymeradwyo'r trefniant yn ogystal. Rhagwelir y bydd hyn yn cymryd hyd at Mehefin i'w gyflawni. Bydd angen i'r Bwrdd ffurfioli eu trefniadau o ran cadeiryddiaeth ac aelodaeth yn fuan wedi hynny. Mae rhai terfynau amser wedi eu gosod a bydd angen gweithio tuag at rhain yn fuan yn y flwyddyn gyntaf. Er enghraifft, bydd angen paratoi a chyflwyno adroddiad blwyddyn erbyn 2017 a bydd angen sefydlu 'pooled funds' ar gyfer cartrefi gofal erbyn Ebrill 2018. Mae'r targedau amser yma yn rhai heriol a bydd elfen o risg ynghlwm i'w cyflawni o fewn y terfynau amser.

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**

Dim i'w ychwanegu i'r cynigion sydd wedi bod yn destun cryn drafod wrth eu datblygu.

**Y Swyddog Monitro:**

Mae sefydlu Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn statudol ac yn  cael ei reoli yn helaeth iawn gan statud, yn benodol Rheoliadau Trefniadau Partneriaethu (Cymru ) 2015. Gosodir materion megis ardal, cyfrifoldebau aelodaeth yn eithaf penodol o fewn y rheoliadau. Felly, mae nifer o'r camau yn yr adroddiad yn adlewyrchu y sefyllfa yma.

**Y Pennaeth Cyllid:**

Nodaf fod paragraffau 10 ac 11 yn crybwyll "pooled funds", a bydd angen gofal wrth gynllunio'r rheiny.  Nodaf hefyd fod paragraff 26 yn sôn bydd y 'Delivering Transformation Grant' yn trosglwyddo i'r setliad yn 2017/18.  Os felly, fel dywedai paragraff 31, gall y datblygiad fod yn gost-niwtral.

---

**Atodiadau**

Atodiad 1 - Rhan 9 Trefniadau'r Bartneriaeth

**Dogfennau Cefndirol**

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Canllawiau Statudol Rhan 9 (Trefniadau Partneriaeth)

Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015

ATODIAD 1

Rhan 9 Trefniadau'r Bartneriaeth:

**Bwrdd Arweiniol Rhanbarthol**

(Bwrdd Gwirfoddol)

Byrddau Diogelu Rhanbarthol

- Plant
- Oedolion

(Byrddau Statudol)

- Bwrdd Gwasanaethau Lleol
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

(Byrddau Statudol)

**Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol**

(Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014)

**Grŵp Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant**

(x3 Cyfarwyddwr Ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, x1 Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl (BIPBC) a x6 Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol).

**Swyddogaethau Rhanbarthol**

- Asesiad Angen - Poblogaeth
- Adborth dinasyddion
- Prosiectau Rhanbarthol sy'n cael ei ariannu gan Grantiau
- Prosiectau sy'n cael ei gomisiynu a'i ariannu yn rhanbarthol

**Byrddau Gweithgarwch Ardal**

- Gweithredu gweithio'n integredig
- Cronni Cyllidebau (ardal neu lleol)
- Cyswllt a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
- Cyflawni 'r Cronfa Gofal Canolraddol

Y rhesymeg y tu ôl i'r strwythur hwn yw y byddai'r Bwrdd yn chwarae rôl allweddol wrth sicrhau bod trefniadau partneriaeth rhanbarthol yn cael eu datblygu a bydd yn bodloni gofynion y Ddeddf orau drwy:-

- Oruchwylio cynnydd trefniadau ardaloedd
- Comisiynu a goruchwylio'r ffrydiau gwaith rhanbarthol
- Galluogi i Ddinasyddion roi Adborth ac i Ddarparwyr ddylanwadu ar gyfeiriad y Bwrdd a thrwy hynny'r trefniadau yn yr ardaloedd.

Bydd y Grŵp Arweinyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, sy'n grŵp o swyddogion, yn rhoi cyngor strategol i'r Bwrdd ac yn cynorthwyo i reoli manylion Rhaglenni'r Bwrdd, gan gynnwys gweithredu fel fforwm i gyfnewid arfer orau o'r ardaloedd o fewn y rhanbarth.

Bydd y Bwrdd yn atebol i'r saith partner strategol allweddol a bydd trefniadau llac i adrodd i Fwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r chwe Awdurdod Lleol, BIPBC, Comisiynydd Heddlu a Throsedd, Heddlu Gogledd Cymru a'r Gwasanaeth Tân ac Achub.

Bydd trefniadau adrodd statudol i'r Gweinidog.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cabinet** |
| **DYDDIAD** | **3 Mai 2016** |
| **TEITL** | **Trosolwg Perfformiad Cyngor Gwynedd 2015/16 - meysydd Plant a Phobl Ifanc, Y Gymraeg, Cyngor Effeithiol ac Effeithlon a Chynllunio Ariannol** |
| **PWRPAS** | **Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad** |
| **AWDUR** | **Y Cynghorydd Dyfed Edwards** |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | **Geraint Owen, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol** |

**1.0 Cyflwyniad**

1.1 Yn unol â chyfundrefn rheoli perfformiad y Cyngor, cyflwynir trosolwg o berfformiad y Cyngor hyd yma yn 2015/16. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar Blant a Phobl Ifanc, Y Gymraeg, Cyngor Effeithiol ac Effeithlon a Chynllunio Ariannol sy'n rhan o bortffolio'r aelodau Cabinet canlynol:

Y Cynghorydd Gareth Thomas
Y Cynghorydd Mair Rowlands
Y Cynghorydd Peredur Jenkins
Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn

1.2 Mae'r adroddiad yn cyfarch y cynlluniau trawsnewidiol sydd yn y cynllun strategol yn ogystal ag yn tynnu sylw at y mesurau perfformiad sydd yn adlewyrchu gwaith dydd i ddydd y Cyngor.

**2.0 Rhesymau dros argymell y penderfyniad**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol.

**3.0 Prif negeseuon**

3.1 Gweler fod cynnydd da am y flwyddyn gyda phrosiectau ym maes Plant a Phobl Ifanc, gyda phroblemau gyda data yng nghyswllt un mesur, sef SCC/024 Canran y plant sy'n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn a chanddynt Gynllun Addysg Bersonol o fewn 20 diwrnod ysgol i dderbyn gofal neu ymuno ag ysgol newydd yn ystod y flwyddyn.

3.2 Er bod ychydig o lithriad mewn prosiectau penodol o fewn y maes Diogelu, mae ein trefniadau diogelu yn parhau i gryfhau.

3.3 Mae nifer o weithgareddau llwyddiannus wedi eu cynnal fel rhan o waith prosiectau yn maes Y Gymraeg.

3.4 Mae rhai agweddau o brosiectau yn y maes Cyngor Effeithiol ac Effeithlon yn llithro ychydig ac yn bendol o fewn prosiect C5 Hunanwasanaeth.

3.5 Mae'r maes Cynllunio Ariannol wedi bod yn llwyddiannus am y flwyddyn.

**4.0 Prosiectau'r Cynllun Strategol**

Cyflwynir isod adroddiadau cynnydd cryno ar brosiectau'r Cynllun Strategol 2015/16 yn y meysydd Plant a Phobl Ifanc, Y Gymraeg, Cyngor Effeithiol ac Effeithlon a Chynllunio Ariannol. Mae'r prosiectau ym mherchnogaeth yr aelodau Cabinet unigol.

Er mwyn atgoffa aelodau, mae geiriad y cynllun strategol wedi ei nodi mewn glas.

**4.1 Plant a Phobl Ifanc**

Y Cynghorydd Gareth Thomas

**P1 Strategaeth Ansawdd Addysg**

**Pwrpas y prosiect hwn yw paratoi a datblygu Strategaeth Ansawdd Addysg fydd yn sail i wella a chysoni safonau addysg ar draws y Sir.**

Mae Strategaeth Ansawdd Addysg wedi'i llunio a bydd yn sail i wella a chysoni safonau addysg ar draws Gwynedd. Mae'r strategaeth yn cyfateb i brif faterion sydd yng Nghynllun Busnes yr Adran Addysg.

Er bod canlyniadau haf 2015 wedi bod yn gyffredinol dda, mae'r Adran Addysg wedi adnabod meysydd sydd angen eu gwella, ac i'r perwyl hwn wedi sicrhau bod y meysydd yma yn cael eu cynnwys yng Nghynllun Busnes Gweithgor Gwella Ysgolion Rhanbarthol (GwE).

**P2 Gwella arweinyddiaeth a rheolaeth**

**Pwrpas y prosiect hwn yw gwella amodau arweinyddiaeth er mwyn codi safonau.**

Mae'r Adran Addysg wedi bod yn cydweithio gyda'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol (GwE) i ddarparu gweithdai arweiniol ym maes hunan arfarnu a chynllunio gwelliant i gynrychiolaeth o Uwch Dimau Rheoli pob ysgol. Roedd y sesiynau yn caniatáu mynediad i gyflwyniadau ar yr arferion gorau yn lleol a deunyddiau enghreifftiol i gefnogi gweithredu yn ôl yn yr ysgol. Trefnwyd hefyd bod pob ysgol yn cael mynediad i offeryn arfarnu er mwyn iddynt allu monitro bod yr arweiniad wedi miniogi gweithredu ar draws sawl ysgol.

Bu GwE hefyd yn gweithio gyda'r adran i ddarparu gweithdai i gynorthwyo arweinwyr i gael eu hysgolion yn barod ar gyfer arolygiad Estyn. Fel rhan o'r sesiynau cafwyd mewnbwn gan ymarferwyr llwyddiannus. Mae gwelliannau sylweddol i'w gweld ym mhroffil 'categori dilyniant' yr ysgolion sydd wedi cael eu harolygu ers hynny.

**Rhaglen creu rhwydwaith o ysgolion hyfyw i'r dyfodol**

**Pwrpas y rhaglen yma yw datblygu rhwydwaith o ysgolion hyfyw i'r dyfodol. Bydd cyflawni'r rhaglen yn creu gwell amodau i ddatblygu arweinyddiaeth, cynyddu a chysoni safonau addysg, a gwella profiadau i blant a phobl ifanc.**

Mae'n bwysig ystyried deilliannau'r rhaglen yma yn y tymor hir, a'r ffordd ymlaen gyda'r rhaglen ôl-2018.

**P3 Ysgol Bro Llifon**

**Pwrpas y prosiect yma yw darparu ysgol newydd yn sgil penderfyniad y Cyngor i gau ysgolion y Groeslon, Carmel a Bron y Foel.**

Mae'r prosiect yma wedi'i gwblhau yn llwyddiannus.

**P4 Hafod Lon Newydd**

**Pwrpas y prosiect yma yw darparu ysgol arbennig i ddisgyblion Meirionnydd a Dwyfor a hynny yn wyneb y penderfyniad i gau'r Ysgol Hafod Lon bresennol.**

Mae cynnydd da wedi'i wneud gyda'r gwaith adeiladu, ac mae'n parhau yn fwriad i agor yn nhymor yr hydref 2016.

**P5 Dalgylch Y Gader**

**Pwrpas y prosiect hwn yw sefydlu un Ysgol Ddalgylchol cyfrwng Cymraeg 3-16 oed yn nalgylch Ysgol y Gader.**

Disgwylir bydd gwaith adeiladu wedi'i gwblhau er mwyn i'r ysgol newydd agor ym Medi 2017. Bydd pennaeth newydd yn cychwyn yn ei swydd ar ôl gwyliau Pasg 2016. Mae plant Adran Iau Ysgol Gynradd Dolgellau wedi symud i'r cabanau ers dechrau Ionawr 2016 a rhagwelir bydd Adran y Babanod yn trosglwyddo i'r cabanau yn hwyrach yn y flwyddyn. Mae plant Ysgol Llanelltyd hefyd wedi trosglwyddo i gabanau ar ddechrau Ionawr 2016.

**P6 Glancegin**

**Pwrpas y prosiect hwn yw sicrhau buddsoddiad i ddarparu adeilad newydd i Ysgol Glancegin sydd wedi ei lleoli ym Maesgeirchen.**

Mae'r achos busnes wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, felly mae'r £5.11 miliwn yn ei le ar gyfer adeilad newydd Ysgol Glancegin.

**P7 Dalgylch Y Berwyn**

**Pwrpas y prosiect yma yw creu Campws Dysgu Gydol Oes Cyfrwng Cymraeg ar safle presennol Ysgol y Berwyn.**

Mae cam olaf yr achos busnes wedi ei gymeradwyo gan y Cabinet a Llywodraeth Cymru. Disgwylir bydd y gwaith adeiladu yn cael ei gwblhau ar amser er mwyn i'r ysgol newydd agor ym Medi 2017.

**P8 Trawsnewid y ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad**

**Pwrpas y prosiect yma fydd trawsnewid y gwasanaeth ar gyfer plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.**

Mae ymgysylltu eang wedi digwydd yn ddiweddar er mwyn derbyn cefnogaeth i egwyddorion y Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol. Cynhaliwyd fforymau penodol i drafod blaenoriaethau darpariaeth o fewn rhai gwasanaethau arbennig. Er na fydd y ddarpariaeth newydd mewn lle tan Hydref 2016, erbyn hyn mae cytundeb i roi cefnogaeth ynghynt i unigolion pan fo'r angen yn galw. Mae'r hyfforddiant yn y dulliau o ganolbwyntio ar yr unigolyn yn parhau, ac mae'r modiwlau e-ddysgu wedi'u cwblhau, ac ar gael i'r Cydlynwyr. Yn ogystal, mae hyfforddiant wedi'i drefnu ar gyfer sefydlu pencampwyr yn y dulliau yma.

Y Cynghorydd Mair Rowlands

**P9 Sicrhau ystod o wasanaethau ataliol ar gyfer grwpiau o blant a phobl ifanc bregus Gwynedd.**

**Pwrpas y prosiect yw sicrhau trosolwg o'r agenda ataliol yn y Sir, gan weithio yn amlasiantaethol er mwyn sicrhau ein bod yn canolbwyntio ein hymdrechion ar wneud y pethau cywir yn y lle cywir.**

Fel adroddwyd y tro diwethaf yn Adroddiad Trosolwg Perfformiad 16 Chwefror 2016, mai'r prif feysydd o angen sydd wedi eu hadnabod yn y ddarpariaeth ar hyn o bryd ydi:

- Llefaredd plant o dan 3 oed
- Pobl ifanc yn eu harddegau
- Materion rhiantu ac ymddygiad
- Aelwydydd incwm isel a rhieni ddim mewn gwaith

Ers mis Ionawr 2016, mae gwaith ymgysylltu wedi digwydd gyda rhanddeiliad perthnasol sy'n darparu ymyraethau cynnar i blant a phobl ifanc bregus er mwyn cael darlun cliriach o'r gwasanaethau sydd ar gael i'r garfan yma o bobl ifanc a'r meysydd o angen. Mae'r asesiad o anghenion yma yn mynd i osod cynllun tymor hir ar gyfer gwasanaethau ataliol/ ymyrraeth gynnar rhwng y Cyngor a'r partneriaid allanol, yn cynnwys y trydydd sector.

Cynhaliwyd gweithdy ar y cyd gyda phartneriaid i drafod yr asesiad a phenderfynu ar gyfeiriad y gwaith i'r dyfodol, yn cynnwys trafodaeth am beth sydd angen ei gomisiynu ac adnabod grwpiau o flaenoriaeth i'r dyfodol. Bydd eglurder ar y cynllun gweithredu yn ystod Ebrill 2016.

### 4.2 Diogelu

Y Cynghorydd Mair Rowlands

**D1 Sicrhau perchnogaeth Cyngor cyfan i'r maes diogelu**

**Pwrpas y prosiect yma yw sicrhau fod perchnogaeth gorfforaethol i'r agenda diogelu a bod gweithredu yn effeithiol o ran diogelu plant ac oedolion bregus Gwynedd.**

Mae gwaith yn symud yn ei flaen o ran yr elfennau mesur effaith a chodi ymwybyddiaeth o'r maes diogelu. Ond, fel llawer i brosiect, mae'n debyg mai'r elfen o fesur effaith sydd fwyaf heriol. Wedi dweud hyn, rhagwelir y bydd modd, am tro cyntaf eleni, i gymharu gwybodaeth gyda'r flwyddyn ddiwethaf. Cyflwynwyd Adroddiad Drafft Archwiliad Trefniadau Diogelu – Ymwybyddiaeth Staff o'r polisi 2015/16 i Banel Diogelu Plant ac Oedolion Bregus ddechrau mis Mawrth 2016.

**D2 Diogelu Plant a Phobl Ifanc**

**Pwrpas y prosiect yma yw gwella yn barhaus y trefniadau a diwylliant diogelu yn y maes plant a phobl ifanc.**

Cyflwynwyd rhaglen waith rhan gyntaf y prosiect sef Ecsploetio Plant yn Rhywiol ym mis Medi ac mae opsiynau yn cael eu hystyried ar hyn o bryd o ran defnyddio arbenigwr yn y maes er mwyn ymateb i'r risg sydd wedi ei adnabod yn genedlaethol.

Derbyniwyd copi o gynllun gweithredu rhanbarthol y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, ac mae gwaith yn cael ei wneud i sicrhau ein bod yn adolygu ein trefniadau ar gyfer y maes yn ei sgil. Mae'n bosib y bydd angen codi ymwybyddiaeth a llunio rhaglen waith leol i ymateb a sicrhau cydymffurfiaeth â'r disgwyliadau.

Mae'r amserlen wedi llithro rhyw gymaint oherwydd diffyg argaeledd yr arbenigwr ac hefyd oherwydd gofynion hyfforddi staff ar gyfer gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Mae hyn yn golygu na fydd y prosiect yn cyrraedd rhai o'r cerrig milltir a osodwyd yn wreiddiol. Fodd bynnag, nid yw'r Aelod Cabinet yn bryderus bod llithriad o ychydig wythnosau yn mynd i gael effaith ar gyflawni pwrpas y prosiect o fewn yr amserlen. Mae'r Panel Diogelu wedi trafod y llithriad ac yn fodlon nad yw llithro ychydig o fisoedd o dan yr amgylchiadau yn broblem ac yn hytrach y bydd yn fanteisiol o ran cael yr arbenigwr gorau a phresenoldeb da gan y staff.

Yr ail ran o'r prosiect yma yw'r gwaith o gryfhau gweithdrefnau a diwylliant diogelu o fewn y maes addysg. Mae rhaglen waith glir wedi'i llunio a Swyddog Diogelu wedi'i phenodi i'w weithredu. Er mwyn cynnal awdit blynyddol o'r trefniadau diogelu, mae'r Swyddog Diogelu yn ymweld ag ysgolion i wirio gweithdrefnau a pholisïau diogelu a chofnodi ac mae'r gwaith yma wedi digwydd yn ystod y misoedd diwethaf. Yr amcan yma yw sicrhau gweithdrefnau a diwylliant diogelu cadarn yn ysgolion Gwynedd. Mae cynnydd y prosiect yn unol â'r disgwyl ac mae gwaith yn mynd rhagddo hefyd o ran elfennau hyfforddiant ac adolygu polisïau.

**D3 Diogelu oedolion bregus**

**Pwrpas y prosiect yma yw anelu i wella yn barhaus y trefniadau a diwylliant diogel o fewn y maes oedolion.**

Mae rhyw faint o gynnydd wedi bod o ran y prosiect hwn ond ar y cyfan mae'r misoedd diwethaf wedi bod yn anodd o ran gyrru'r rhaglen waith yn ei blaen. Mae Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) wedi cynnal archwiliad ym maes Anabledd Dysgu ym mis Ionawr, sydd wedi golygu mai prin iawn oedd capasiti y rheolwr prosiect i gydlynu'r rhaglen waith dan sylw. Yn ystod yr un cyfnod hefyd mae'r ddwy swydd Uwch Reolwr ym maes gofal oedolion wedi bod yn wag. Rwyf yn falch o adrodd bod y swyddi bellach wedi eu llenwi ac felly rhagwelir cynnydd sylweddol o ran gweithredu'r rhaglen waith yn ystod y misoedd nesaf.

## 4.3 Y Gymraeg

Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn

**I1 Cymunedau yn hyrwyddo'r Gymraeg**

**Hyrwyddo'r Gymraeg drwy gefnogi a grymuso pedair cymuned gan gynorthwyo trigolion i gynnal asesiad o sefyllfa'r Gymraeg yn y gymuned er mwyn cryfhau statws a defnydd yr iaith.**

Yn unol â'r amserlen ar gyfer y prosiect mae'r Fframwaith wedi ei chwblhau ar gyfer cymunedau Bangor, Porthmadog a Dolgellau ac er y bu rhywfaint o lithriad yn y gwaith yn Nhalysarn, rhagwelir y bydd wedi ei gwblhau o fewn yr wythnosau nesaf.

O ganlyniad, mae rhaglen o gynlluniau wedi bod ar waith yn cynnwys y canlynol:

- Gweithgareddau plant a theuluoedd lle daethpwyd i gyswllt â dros 650 o fynychwyr ym Mlaenau Ffestiniog, Talysarn a Bangor, ymysg llefydd eraill, i boblogeiddio a hybu defnydd y Gymraeg
- Gweithgaredd blog electronig a chynnal 4 noson cymhathu dysgwyr gyda dros 30 yn mynychu
- 2 frecwast busnes wedi eu cynnal gydag 15 busnes yn mynychu gydag ymateb cadarnhaol ac ymarferol i gynyddu gwelededd a defnydd y Gymraeg yn ei sgil.

- Dros 15 o nosweithiau cymdeithasol wedi eu cynnal trwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn dangos y budd ariannol o ddigwyddiadau diwylliannol sy'n anelu i gynyddu ymwybyddiaeth a defnydd yr iaith yn y cymunedau dan sylw, gan gynnwys busnesau.
- Mae amryw o enghreifftiau o ddefnyddio digwyddiadau cymunedol sydd eisoes yn digwydd i fynd â neges poblogeiddio a chynyddu defnydd atynt.

**I2 Y Gymraeg a'r gwasanaethau cyhoeddus**

**Creu diffiniad o weithle dwyieithog y byddai'r Cyngor ac wedi hynny, Bwrdd Gwasanaeth Lleol Gwynedd a Môn yn ei fabwysiadu fel diffiniad safonol er mwyn sicrhau eglurder a safon gyson o wasanaethau cyhoeddus dwyieithog.**

Mae rhywfaint o newid cyfeiriad wedi bod yn y prosiect hwn er mwyn sicrhau sylw i hyrwyddo gallu trigolion y Sir i ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol pan yn cysylltu hefo cyrff cyhoeddus y Sir.

Yn dilyn penderfyniad y Bwrdd Gwasanaethau Lleol i flaenoriaethu'r gwaith, rydym wedi cael cryn drafferth i adnabod Uwch Swyddogion (sydd hefyd â'r awdurdod i weithredu) i arwain ar y gwaith o fewn sefydliadau partner. Mae hyn yn codi cwestiwn ynghylch ymrwymiad y sefydliadau i'r prosiect ac mae'r Dirprwy Arweinydd yn bwriadu amlygu hyn i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol os y bydd y sefyllfa yn parhau.

Mae gwaith i ddatblygu holiadur, sy'n seiliedig ar y gwe iaith yn mynd yn ei flaen er mwyn gallu sefydlu beth yw lefelau defnydd yr iaith o fewn y sefydliadau. Hyd yma mae Cyfoeth Naturiol Cymru a Pharc Cenedlaethol Eryri (ynghyd â'r Cyngor) wedi gwirfoddoli i dreialu'r holiadur.

**I3 Pobl ifanc yn defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol**

**Sefydlu gwaelodlin a mesur cynnydd yn nefnydd cymdeithasol o'r Gymraeg gyda phobl ifanc.**

Mae 12 Ysgol Uwchradd yn y Sir wedi cytuno i gymryd rhan yn y prosiect a bu cyfres o sesiynau i godi ymwybyddiaeth a hyder pobl ifanc yn eu defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg.

Bydd angen gwaith ychwanegol i ddadansoddi canlyniadau'r Siarter Iaith o fewn ysgolion cynradd a chynllunio ymateb yn ôl yr angen. Bydd y Dirprwy Arweinydd hefyd yn derbyn adroddiad pellach ar y gwaith o gyflwyno'r siarter i ysgolion uwchradd.

Rydym wedi cynnal sesiynau ymwybyddiaeth iaith gyda chlybiau ieuenctid mewn 11 ardal, yn ogystal â gwaith gydag wyth o glybiau chwaraeon lleol i annog defnyddio'r Gymraeg wrth gyfathrebu yn chwarae ac ymarfer. Hefyd cynhaliwyd pedwar o ddigwyddiadau cerdd i boblogeiddio'r defnydd o'r Gymraeg mewn gweithgareddau cerddorol.

**I4 Awdit o sefyllfa'r Gymraeg yng Nghyngor Gwynedd**
**i) Ystyried llwyddiant y Cyngor i normaleiddio'r Gymraeg drwy ei adrannau a'r gwasanaethau a ddarperir i drigolion y sir.**
**ii) Cyflawni gwaith ymchwil er mwyn canfod a chadarnhau i ba raddau y mae'r Cyngor yn mynd gam ymhellach ac yn llwyddo i fanteisio ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg drwy gyfrwng y gwasanaethau rydym yn eu darparu i drigolion y sir.**
Mae'r awdit wedi ei gwblhau ac yn cael ei ddadansoddi.

Derbyniwyd ymateb gan 172 allan o 259 o Reolwyr y Cyngor i'r awdit a gynhaliwyd yn ystod Rhagfyr ac Ionawr. Oherwydd pwysigrwydd y pwnc a'r pwyslais yr ydym yn ei roi ar y Gymraeg mae'r Dirprwy Arweinydd wedi gofyn i'r Arweinydd Prosiect fynd yn ôl at yr 87 o Reolwyr sydd heb ymateb er mwyn gofyn iddynt nodi pam.

Mae'r dadansoddiad cychwynnol o'r ymatebion wedi adnabod nifer o brif themâu posibl y bydd angen rhoi sylw iddynt. Er mwyn ymateb i rai o'r themâu sydd wedi eu hamlygu, bydd fframwaith syml yn cael ei pharatoi sy'n amlinellu beth mae Polisi Iaith Gymraeg y Cyngor yn ei olygu yn ymarferol i wasanaethau.

Bydd canfyddiadau cychwynnol yr awdit ac awgrymiadau ar gyfer ymateb yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Iaith ym mis Ebrill.

## 4.4 Cyngor Effeithiol ac Effeithlon

Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn
**C3 Ymgysylltu**
**Pwrpas y prosiect hwn yw gwella ymgysylltu ar draws y Cyngor. Erbyn diwedd Mawrth 2017, bydd y prosiect yma wedi sicrhau bod Strategaeth Ymgysylltu yn cael ei gweithredu ac yn cynnwys cyfres o weithgareddau i wella ymgysylltu ar draws y Cyngor.**
Rydym wedi sefydlu trefn o logio gweithgareddau ymgysylltu'r Cyngor ac mae gwaith wedi digwydd i gynyddu ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael i hwyluso gweithgareddau ymgysylltu.

Yn ogystal mae gwaith wedi digwydd i ymestyn defnydd y cyfryngau cymdeithasol gyda chynnydd o 1,467 yn y nifer o ddilynwyr Twitter (11,527) a chynnydd o 1,288 (5,062) yn y nifer o hoffterau Facebook.

Fel rhan o waith 'Her Gwynedd' bu i ni ymgysylltu hefo dros 2,000 o bobl ar y rhaglen doriadau. Er mwyn sicrhau ein bod yn dysgu gwersi o'r gwaith hyn byddwn yn cynnal sesiynau dros yr wythnosau nesaf hefo'r Grŵp Ymgysylltu (a fydd hefyd yn cynnwys aelodau o'r Pwyllgorau Craffu) a staff fu ynghlwm â'r sesiynau er mwyn derbyn adborth.

Mae'r holl weithgareddau oedd wedi eu hadnabod ar gyfer y flwyddyn wedi eu cwblhau eisoes.

**C4 Gweithredu cyfundrefn berfformiad**

**Pwrpas y prosiect hwn fydd datblygu a gweithredu cyfundrefn berfformiad newydd. Bydd y gyfundrefn yn sicrhau fod timau gwasanaeth yn mesur yr hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd, a defnyddir y mesurau hynny i wella perfformiad. Bydd y drefn adrodd ar hynny yn ychwanegu gwerth drwy ddal gwasanaethau yn atebol.**

Mae sesiynau Colegau Rheolwyr wedi eu cynnal gyda'r holl Adrannau. Mae'r gwaith o ddatblygu hyfforddiant modiwl perfformiad yn parhau ond ni fydd wedi ei gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn fel yr amlinellwyd yn wreiddiol.

Mae ymarfer da o fewn Tîm Rheoli'r Adran Gefnogaeth Gorfforaethol lle mae Rheolwyr yn dod ag aelodau o'r Timau gyda nhw i'r cyfarfodydd perfformiad sy'n ehangu perchnogaeth y Tîm o'r mesurau. Er na fyddwn wedi datblygu'r hyfforddiant modiwl perfformiad, rhagwelir y byddwn wedi cyflawni gweddill y gweithgareddau ar gyfer y flwyddyn.

**C8 Llywodraethu gwybodaeth**

**Pwrpas y prosiect hwn yw adolygu ein trefniadau hyfforddi ar gyfer staff sy'n gweithio gyda gwybodaeth bersonol er mwyn sicrhau bod hyfforddiant yn effeithiol a'n bod yn hyderus fod gwybodaeth bersonol pobl Gwynedd yn gwbl ddiogel yn ein dwylo.**

Mae'r holl gerrig milltir ar gyfer y prosiect oedd i'w cyflawni erbyn hyn wedi eu cyflawni a'r cynnydd yn unol â'r disgwyl. Rydym wedi cynnal rhai sesiynau hyfforddi gyda thimau a siarad gyda rheolwyr unigol i gyfleu iddynt beth yw eu cyfrifoldebau yn hyn o beth.

Mae polisi diogelu data wedi ei gynnwys fel rhan o'r Ganolfan Bolisi sydd wedi ei lansio gan y Cyngor i'w weithwyr ac mae'r modiwl e-ddysgu wedi ei baratoi a'i gyflwyno i staff dwy adran. Yn ogystal, defnyddir y drefn archwilio mewnol, lle bo modd, fel modd o wirio cydymffurfiaeth gyda'r Polisi Diogelu Data.

Y Cynghorydd Peredur Jenkins

**C1 Rhoi Ffordd Gwynedd ar waith**

**Pwrpas y prosiect hwn fydd yn arwain timau gwasanaeth i adlewyrchu ar eu trefniadau gwaith presennol, i herio a ydynt yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog, ac i ystyried a oes lle i wella.**

Mae capasiti ychwanegol wedi ei sicrhau i weithio ar y prosiect dros y misoedd diwethaf ac erbyn hyn mae saith adolygiad (Cynnal a chadw ymatebol, Digartrefedd, Gwasanaethau Cefnogol, Gofal Cymdeithasol (Alltwen), Cynnal a Chadw) yn y rhaglen, gydag adolygiadau o fewn adrannau Addysg a Priffyrdd a Bwrdeistrefol wedi cychwyn yn ystod yr wythnosau diwethaf.

Mae'r gwaith o ddatblygu rheolwyr a staff i roi pobl Gwynedd yn ganolog yn parhau gyda gwaith wedi ei gynnal ar sail adrannol i gynorthwyo staff i adnabod anghenion defnyddwyr, pwrpasau a mesurau eu gwasanaethau a dadansoddi a dehongli'r wybodaeth hynny.

Er mwyn sicrhau eglurder ynghylch rôl yr Aelodau Cabinet o fewn yr adolygiadau mae'r Arweinydd Prosiect wedi adnabod camau o fewn y broses er mwyn sicrhau cyfathrebu a thrafodaethau amserol hefo'r aelodau perthnasol pan yn cynnal yr adolygiadau.

**C2 Rhaglen datblygu arweinwyr**

**Pwrpas y prosiect hwn yw sicrhau fod arweinwyr o fewn Cyngor Gwynedd yn deall egwyddorion Ffordd Gwynedd, eu bod yn ymwybodol o beth sydd angen iddynt hwy ei wneud er mwyn atgyfnerthu egwyddorion Ffordd Gwynedd drwy holl haenau'r sefydliad, a bod yna gyfundrefn yn ei le i sicrhau bod hynny'n digwydd yn gyson.**

Mae'r cylch cyntaf o'r drefn gwerthuso newydd wedi ei gwblhau ac mae adborth adeiladol wedi bod i'r drefn oddi wrth aelodau'r Cabinet a'r Grŵp Rheoli a chytundeb wedi ei wneud i ymestyn trefniadau tebyg i Uwch Reolwyr yn y Cyngor. Yn ogystal, mae'r ymarferiad 360 (derbyn adborth oddi wrth aelodau o gylch gwaith uniongyrchol gweithiwr) wedi'i gynnal ac mae'r rhan helaethaf o benaethiaid y Cyngor wedi derbyn yr adborth. Bydd yr adborth hwn yn ffocws i'r drafodaeth yn yr ail gyfarfod gwerthuso yn y cyfnod rhwng Mawrth – Mai eleni.

Nid yw'r trefniant i adolygu anghenion datblygol Aelodau'r Cabinet wedi digwydd eto a ni fydd yn digwydd hyd nes 25 Ebrill. Er hyn, rhagwelir y bydd mwyafrif y gweithgareddau a nodwyd ar gyfer y prosiect yn ystod 2015/16 wedi eu cwblhau.

**C5 Ymestyn y defnydd o hunanwasanaeth**

**Pwrpas y prosiect hwn yw ymestyn y defnydd o hunanwasanaeth i hwyluso mynediad pobl Gwynedd at wasanaethau'r Cyngor ac ar gost is na'r sianeli traddodiadol.**

Ychydig o gynnydd sydd wedi bod yn y prosiect o ganlyniad i gwestiwn ynglŷn a'r sylfaen dechnegol i'w ddefnyddio ac nid ydym eto wedi ateb y cwestiwn hwnnw. Mae Arweinydd newydd y prosiect wedi gwneud ymchwil gan edrych ar yr opsiynau sy'n bodoli ar gyfer y sylfaen dechnegol i'w defnyddio, ond nid ydym mewn sefyllfa lle mae achos busnes wedi ei gyflwyno a'i gymeradwyo i gyfuno'r sianeli cyswllt er mwyn sefydlu tîm i arwain y gwaith.

Mae'r Aelod Cabinet wedi cytuno gyda'r Arweinydd Prosiect i aros hyd y bydd y gwaith hwn wedi ei gwblhau cyn cytuno ar amserlen ddiwygiedig.

**C6 Strategaeth Technoleg Gwybodaeth (TG)**

**Pwrpas y prosiect hwn yw llunio Strategaeth Technoleg Gwybodaeth fydd yn gosod allan y cyfeiriad am y cyfnod erbyn diwedd Mawrth 2016.**

Mae drafft o'r strategaeth wedi ei llunio, ond roedd yr Aelod Cabinet yn awyddus i'w haddasu er mwyn rhoi sylw penodol i beth yw'r prif faterion sydd angen sylw, sut i gyfarch y materion hynny a'r adnoddau fydd eu hangen. Yn ogystal, gofynnwyd i'r Rheolwr Prosiect drafod y materion hyn hefo'r penaethiaid a'r cyfarwyddwyr hefyd er mwyn sicrhau fod y strategaeth yn cwrdd â'u gofynion.

O ganlyniad, bydd rhywfaint o lithriad i'r amserlen wreiddiol a gyflwynwyd a'r bwriad erbyn hyn yw cyflwyno'r strategaeth i'r Cabinet ym mis Mai, yn hytrach na mis Mawrth.

**C7 System rheoli dogfennau a chofnodion electronig (EDRMS)**

**Pwrpas y prosiect hwn yw sefydlu system EDRMS o fewn o leiaf pum adran erbyn diwedd 2017, er mwyn sicrhau bod trefniadau rhannu gwybodaeth y Cyngor yn llawer haws ac effeithiol.**

Erbyn hyn rydym wedi datblygu ac adeiladu system ar gyfer rheoli dogfennau a chofnodion electronig ac wedi trosglwyddo'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol i ddefnyddio'r system.

Mae'r system wedi ei datblygu a'i hadeiladu ac mae'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol wedi trosglwyddo i ddefnyddio'r system, ar wahân i ddau dîm. Bydd y Tîm Arweinyddiaeth a'r Adran Economi a Chymuned yn trosglwyddo i ddefnyddio'r system yn ystod yr wythnosau nesaf yn unol a'r amserlen.

## 4.5 Cynllunio Ariannol

Y Cynghorydd Peredur Jenkins

**CA1 Gwireddu arbedion**

**Pwrpas y prosiect hwn yw sicrhau fod trefniadau yn eu lle er mwyn gwireddu'r arbedion effeithlonrwydd o £13.6m sydd eisoes wedi eu cytuno fel rhan o'r gyfundrefn arbedion ynghyd ag unrhyw arbedion pellach a adnabyddir.**

Ar y cyfan mae'r sefyllfa yn ganmoladwy gyda'r adrannau yn pontio unrhyw ddiffyg o'r llithriadau heb gymorth corfforaethol.

Fodd bynnag, fe amlygwyd pryder o fewn y maes Oedolion ynghylch risg i wireddu arbedion 2016/17, yn bennaf wrth gwrs oherwydd maint y newid sy'n wynebu'r adran ac o ganlyniad mae'r Aelod Cabinet Adnoddau wedi trafod y sefyllfa hefo'r Aelod Cabinet Gofal a'r Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant. Ar hyn o bryd maent yn y broses o ddatblygu rhaglen waith addasedig er mwyn ymateb i'r risgiau hyn gyda'r bwriad o adrodd arni i'r Cabinet o fewn yr wythnosau nesaf.

Bydd yr Aelodau Cabinet perthnasol yn parhau i gadw llygad ar y sefyllfa er mwyn sicrhau y bydd yr arbedion yn cael eu cyflawni.

**CA2 Cytundeb Canlyniadau**

**Pwrpas y prosiect hwn yw sicrhau fod y Cyngor yn gallu hawlio'r swm llawn o £1.3m sydd ar gael yn 2014-15 ac 2015-16 am gyflawni canlyniadau sydd wedi eu cytuno gyda'r Llywodraeth.**

Mae adroddiad ar berfformiad y Cyngor wedi ei baratoi a'i gyflwyno i'r Llywodraeth sy'n cadarnhau ein bod wedi cyrraedd neu wneud yn well na'r uchelgais, sy'n golygu ein bod wedi derbyn taliad o £1.3m.

**CA3 Toriadau**

**Pwrpas y prosiect hwn yw sefydlu y toriadau y gellir eu gwireddu er mwyn cau'r bwlch ariannol fydd ar ôl yn ystod cyfnod y Cynllun Strategol wedi i ni gyflawni'r arbedion effeithlonrwydd.**

Mae cynnydd y prosiect yn unol â'r rhaglen waith a'r cerrig milltir gyda gwaith wedi ei gynnal i adnabod toriadau posibl, trafodaethau wedi eu cynnal hefo Cynghorwyr ac aelodau staff ynghylch y rheini ac ymgynghoriad cyhoeddus 'Her Gwynedd' wedi ei gynnal.

Dros yr wythnosau diwethaf daeth penllanw'r gwaith hwn gyda nifer o gyfarfodydd a gweithdai wedi eu cynnal cyn i'r Cyngor Llawn gytuno yn swyddogol i raglen o doriadau sy'n gyfwerth a £4.94m yn ei gyfarfod ar 3 Mawrth 2016.

**CA4 Effeithlonrwydd pellach a modelau darparu gwasanaeth**
**Pwrpas y prosiect yma yw darganfod cynlluniau effeithlonrwydd pellach er mwyn lleihau maint y toriadau fydd eu hangen yn ogystal ag ymchwilio i feysydd lle mae'n bosib newid y model presennol o ddarparu gwasanaeth gan felly wneud arbedion.**
Mae'r gwaith o ddatblygu achos busnes amlinellol ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus a model busnes hamdden yn parhau, a bydd yr Aelod Cabinet yn adrodd yn ôl i'r Cabinet ar y canfyddiadau pan fydd y gwaith yn aeddfed. Yn ogystal, bwriedir darparu diweddariad ar y gwaith i edrych ar Achos Strategol Model Darparu amgen ar gyfer Gofal yn fuan yn 2016/17.

Fe adroddwyd ar arbedion effeithlonrwydd pellach i'r Cabinet ar ddechrau mis Chwefror ac fel rhan o'r adroddiad ar y Strategaeth Ariannol a gyflwynwyd i'r Cabinet a'r Cyngor Llawn yn ystod yr wythnosau diwethaf.

## 5.0 Mesurau

**5.1** **Gwaith datblygol** – mae'r rhan fwyaf o dimau gwasanaeth y Cyngor wedi adolygu eu pwrpas i roi ffocws ar y dinesydd ac wedi adnabod mesurau addas i'r pwrpas, er bod rhai mesurau'n parhau i gael eu datblygu. Rhestrir y prif faterion isod, gyda rhestr gyflawn o fesurau sy'n berthnasol i'r meysydd a drafodir yn yr adroddiad hwn yn **Atodiad 1**.

### 5.2 Plant a Phobl Ifanc
Y Cynghorydd Gareth Thomas

Adroddwyd ar fesurau yr Adran Addysg, sef canlyniadau haf 2015 yn Adroddiad Trosolwg Perfformiad 16 Chwefror 2016, felly nid oes materion penodol ar y mesurau yna i'w codi. Gweler **Atodiad 1** am berfformiad y mesurau.

Cyhoeddwyd canlyniadau categoreiddio ysgolion Cymru ddiwedd mis Ionawr a gweler copi o'r darlun categoreiddio ysgolion Gwynedd yn **Atodiad 2**. Prif bwrpas y system yma yw adnabod pa ysgolion sydd angen y cymorth mwyaf. Mae tri cham i'r broses o gategoreiddio ysgolion:

**Cam 1.** Ysgol yn cael ei hasesu gan Lywodraeth Cymru ar sail ystod o fesurau perfformiad a'i gosod mewn un o 4 categori dyfarniad [1 yn uchaf a 4 yn isaf]. Caiff hyn ei wirio gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr/Ionawr bob blwyddyn.

**Cam 2.** GwE a'r Awdurdod yn dod i farn ar ansawdd yr arweinyddiaeth a'r dysgu/addysgu yn yr ysgol ac yn ei gosod mewn un o 4 categori [A yn uchaf a D yn isaf]. Bydd y broses o ddod i ddyfarniad ar allu'r ysgol i wella, gan ddechrau gyda hunan arfarniad yr ysgol ble fydd rhaid i'r Ymgynghorwyr Her gael eu bodloni a gweld tystiolaeth, fod pob arweinydd ysgol yn defnyddio data ar berfformiad mewn modd cadarn fel rhan o broses effeithiol o reoli a gwella [llywodraethwyr, penaethiaid, athrawon, arweinwyr canol ac arweinwyr pwnc]. Rhaid bod yna dystiolaeth o ddefnydd effeithiol o ddata cywir ar lefel disgybl, dosbarth, grŵp, cohort, pwnc ac ysgol. Bydd Ymgynghorwyr Her yn ystyried perfformiad pob dysgwr a grŵp o ddysgwyr yn ogystal ag ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn yr ysgol.

**Cam 3.** GwE a'r Awdurdod yn defnyddio'r grid isod i gytuno ar gategori lliw trosfwaol ("overarching") yr ysgol [*Gwyrdd/Melyn/Melyngoch/Coch*] fydd yn arwain at raglen o gefnogaeth, her ac ymyrraeth fydd wedi'i deilwra'n benodol ar gyfer yr ysgol. Bydd broceru'r gefnogaeth yn un o swyddogaethau allweddol GwE. Mae'r nifer dyddiau o gefnogaeth a nodir isod yn weithredol ers Medi 2015.




| |
|---|
| **Categori Cefnogaeth Gwyrdd** |
| Mae ysgol yn y categori hwn yn gallu derbyn hyd at 4 diwrnod o amser Ymgynghorydd Her. |
| **Categori Cefnogaeth Melyn** |
| Mae ysgol yn y categori hwn yn gallu derbyn hyd at 10 diwrnod o amser Ymgynghorydd Her. |
| **Categori Cefnogaeth Melyngoch** |
| Mae ysgol yn y categori hwn yn gallu derbyn hyd at 15 diwrnod o amser Ymgynghorydd Her. |
| **Categori Cefnogaeth Coch** |
| Mae ysgol yn y categori hwn yn gallu derbyn hyd at 25 diwrnod o amser Ymgynghorydd Her. Bydd yr ysgol yn derbyn llythyr gan yr Awdurdod Lleol fel mater o drefn lle gellir galw ar bwerau statudol priodol. |




**Ysgolion Uwchradd**
Mae'r proffil o ran categori cefnogaeth wedi aros yn sefydlog yn yr uwchradd ond gwelir bod cynnydd yn y nifer sydd wedi derbyn dyfarniad ar gyfer eu gallu i wella.

Mae Ysgol Friars wedi gwneud cynnydd cadarn ac wedi cael ei huchafu i gategori cefnogaeth Melyn gydag Ysgol Botwnnog wedi gostwng i Melyngoch. Mae statws cefnogaeth Ysgol y Berwyn, Ysgol Dyffryn Nantlle, Ysgol Syr Hugh Owen ac Ysgol y Gader wedi cael ei gynnal er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i gael mynediad i lefel aeddfetach o gefnogaeth. Dylid pwysleisio y gwelwyd gwelliannau mewn perfformiad ar draws bron pob dangosydd mewn pedwar o'r ysgolion a enwir uchod, gyda gwelliannau sylweddol iawn mewn un ohonynt. Mae gwelliannau ar draws y prif ddangosydd a holl bynciau craidd ac eithrio Cymraeg yn Ysgol Dyffryn Nantlle, ond mae wedi ei chadw yn y categori Coch er mwyn sicrhau cefnogaeth briodol i ddod allan o gategori statudol dilyniant Estyn.

O'r 14 ysgol uwchradd, mae tair ysgol mewn categori dilyniant Estyn – Ysgol Botwnnog (monitro Estyn); Ysgol y Gader (Gwelliant Sylweddol) ac Ysgol Dyffryn Nantlle (Mesur Arbennig). Mae Ysgol y Berwyn ac Ysgol Tryfan eisoes wedi cael eu tynnu allan o gategorïau dilyniant Estyn. Mae ymweliadau monitro GwE yn amlygu cynnydd yn Ysgol y Gader ac Ysgol Dyffryn Nantlle, ond erys gwaith pellach i'w wneud cyn y byddant mewn sefyllfa i gael eu tynnu allan o'r categori gan Estyn.




**Ysgolion Cynradd**
Yn y sector cynradd, mae'r proffil yn fwy cadarnhaol na'r sefyllfa yn 2014/15. Nid oes yr un ysgol gynradd bellach yn y categori cefnogaeth Coch. Mae cynnydd da wedi bod yn digwydd yn Nolgellau ac mae bellach wedi ei gosod yn y categori cefnogaeth Melyngoch.

Yn ogystal, gwelir bod lleihad sylweddol yn y nifer o ysgolion cynradd sydd wedi'u gosod yn y categori cefnogaeth Melyngoch.

O'r 27 ysgol oedd mewn categori cefnogaeth Melyngoch neu Goch y llynedd, mae'r newidiadau fel â ganlyn:

- 1 ysgol wedi cau ei drysau
- 10 ysgol wedi gwella eu grŵp data yn Cam 1;
  1 ysgol wedi gostwng grŵp data a 15 wedi aros yn yr un grŵp data
- 8 ysgol wedi gwella eu dyfarniad 'gallu i wella'; 1 ysgol wedi llithro i ddyfarniad is; 17 wedi aros hefo'r un dyfarniad
- 13 ysgol wedi gwella eu categori cefnogaeth; dim un ysgol wedi llithro ac 13 wedi cael eu cadw yn yr un categori i sicrhau eu bod yn parhau i gael mynediad i gefnogaeth ddwysach

Y Cynghorydd Mair Rowlands

Ceir copi o holl fesurau Plant a Chefnogi Teuluoedd, Hamdden ac Ieuenctid yn **Atodiad 1**. Mae'r gwaith o ddatblygu pwrpas a mesurau yn parhau.

**SCC/024 - Canran y plant sy'n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn a chanddynt Gynllun Addysg Bersonol o fewn 20 diwrnod ysgol i dderbyn gofal neu ymuno ag ysgol newydd yn ystod y flwyddyn.** Hyd yma, 26.1% yw'r canran y plant a chanddynt Gynllun Addysg Bersonol o fewn 20 diwrnod. Awgrymwyd mai'r broses o gasglu data yw'r rheswm pam fod y ffigwr yn isel, felly oherwydd y pryderon ynglŷn â'r mesurydd yma, mae'r aelod Cabinet wedi gofyn i gynrychiolwyr o'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd gyfarfod gyda chynrychiolwyr yr Adran Addysg er mwyn adnabod os oes meysydd i wella'r broses o rannu data.

**5.3 Cyngor Effeithiol ac Effeithlon**

Y Cynghorydd Peredur Jenkins

**CG23 - Nifer o achosion cyflogaeth sy'n cael eu cyfeirio i sylw'r Pwyllgor Apelau Cyflogaeth, a'r nifer o apeliadau sy'n cael eu caniatáu gan y Pwyllgor hwnnw -** Nodir fod canran uchel o'r ychydig achosion sydd wedi eu cyflwyno i'r Pwyllgor Apêl lle mae'r Pwyllgor wedi dod i benderfyniad gwahanol i'r Cyngor fel cyflogwr. Mae'r Aelod Cabinet wedi nodi pryder ynghylch hyn a bydd yn parhau i gadw golwg ar y sefyllfa gan edrych ar opsiynau ar gyfer gwella.

**CD4.02 Amddiffyn budd ariannol y trethdalwr: canran o hawliadau atebolrwydd cyhoeddus a wadwyd (setlwyd am £0) gan yr Yswiriwr –** Edrychwyd ar y rhesymau pam fod y perfformiad yn ymddangos yn isel gan nodi ei bod yn bwysig adnabod yr achosion yr ydym wedi methu eu hamddiffyn er mwyn gallu sefydlu os oes rhywbeth y gallwn ei wneud yn eu cylch. Cyfeiriwyd at ddau achos diweddar lle difrodwyd cyfarpar Scottish Power er nad oedd union leoliad y cyfarpar yn hysbys. Cytunwyd i holi'r Uned Gyfreithiol am farn ynghylch herio ceisiadau o'r fath neu atal taliadau os nad ydynt yn gallu dweud wrthym ble mae'r gwifrau.

**CD7.05 Cyfradd casglu dyledion amrywiol o fewn y chwarter – Gwerth –** Edrychwyd ar y rheswm dros berfformiad isel y mesurydd hwn ac amlygwyd y ffaith fod un anfoneb ar gyfer y swm o £725k yn parhau yn daladwy o fewn y cyfnod dan sylw yn gyfrifol. Heb yr anfoneb dan sylw fe fyddai'r perfformiad yn 83.62% ac erbyn canol Ionawr roedd y perfformiad yn 87%.

Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn

**CG13 Cynlluniau Cyfathrebu ac Ymgysylltu: Sgôr allan o 10 a dderbynnir gan Uwch-reolwyr ar ddiwedd cynllun penodol i'r cwestiwn "I ba raddau mae'r gefnogaeth yr ydych wedi ei dderbyn gan yr Uned wedi eich cynorthwyo i ymgysylltu yn effeithiol gyda Phobl Gwynedd?"**

Edrychwyd ar berfformiad y mesur uchod a'r ffaith bod yr Adrannau oedd wedi ymateb hyd yma wedi rhoi sgôr o 10/10 i'r gefnogaeth yr oeddent wedi ei dderbyn gan yr uned. Er bod yr ymateb hyd yma wedi bod yn gadarnhaol fe amlygwyd y ffaith na fyddai'r uned ei hun wedi rhoi sgôr o 10/10 i'r ymgysylltu a wnaed ar y cynlluniau dan sylw ac felly er mwyn cael darlun mwy cyflawn ar ansawdd yr ymgysylltu yn ei gyfanrwydd penderfynwyd cynnwys mesurydd ychwanegol sy'n cofnodi barn yr uned ar y gwaith ymgysylltu yn ogystal.

---

## 6.0 Casgliad

Mae perfformiad prosiectau y meysydd o dan sylw yn yr adroddiad yn dda iawn ar y cyfan ac er bod llithriad o fewn rhai prosiectau penodol, mae tystiolaeth gadarn fod yr aelodau Cabinet perthnasol yn delio gyda'r sefyllfa.

## 7.0 Argymhelliad

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**
Mae'r adroddiad yn rhan o gyfundrefn rheoli perfformiad y Cyngor ac ar y cyfan, mae'n rhoi darlun cadarnhaol. Lle mae yna achosion o bryder fe ddylai'r Cabinet fodloni ei hun fod y camau arfaethedig yn dderbyniol.

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.

* = Ffigwr is yn welliant

# Atodiad 1- Mesurau

## Mesurau Plant a Phobl Ifanc

| Cyf. | Mesur Cyflawni | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | Cyfeiriad Uchelgais | Gwybodaeth Ddiweddaraf (Blwyddyn Addysgol 2014-15) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| EDU/008a | Nifer o waharddiadau parhaol yn ysgolion cynradd yn y flwyddyn academaidd | 0 | 0 | 0 | Bodlon yn gostyngiad | 3 |
| EDU/008bN | Nifer o ddisgyblion a waharddwyd yn barhaol yn yr uwchradd yn ystod y flwyddyn academaidd | 14 | 4 | 4 | Cynnal | 3 |
| EDU/16a | Canran presenoldeb yn ysgolion cynradd yn y flwyddyn academaidd | 94.59 | 94.33 | 95.07 | Cynnal | 95 |
| EDU/16b | Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd yn y flwyddyn academaidd | 94.24 | 93.38 | 94.24 | Gwelliant | 94.60 |
| DANS06 | Canran disgyblion 16 oed sydd yn ennill Danosydd Pynciau Craidd (Gradd C neu uwch mewn Cymraeg/ Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth) | 53.2 | 57.35 | 60.5 | Gwelliant | 62.4 |
| DANS07 | Canran disgyblion 16 oed sy'n ennill trothwy lefel 1 (5 gradd A*-G TGAU) | 93.1 | 97.09 | 97.2 | Gwelliant | 97.9 |
| DANOS 08 | Canran disgyblion 15 oed sydd wedi ennill trothwy lefel 2 (5 gradd A*-C TGAU) neu gyfatebol | 75.1 | 81.5 | 87.7 | Cynnal | 88.9 |
| DGD17 | Canran y bobl ifanc 16- 18 oed nad ydynt mewn addysg , gwaith neu hyfforddiant | - | 3.00 | 1.70 | Gwelliant | Adrodd tro nesaf |
| EDU/004 | Canran y disgyblion a aseswyd mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cyrraedd y Dangosydd Pynciau Craidd | 83.0 | 85.40 | 89.11 | Gwelliant | 91.3 |
| EDU/006 ii | Canran y disgyblion a aseswyd mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cael Asesiad Athrawon yn y Gymraeg (iaith Gyntaf) ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 | 86.1 | 82.5 | 81.20 | Gwelliant | 83.2 |
| EDU/011 | Cyfartaledd y sgor pwyntiau ar gyfer y disgyblion sy'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdodau lleol | 525.4 | 578.20 | 616.00 | Gwelliant | 617.2 |
| Edu/017 | Canran y disgyblion 15 oed ar 31ain Awst blaenorol, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol a gyflawnodd y trothwy Lefel 2+ yn cynnwys gradd A*-C TGAU mewn Cymraeg mamiaith neu Saesneg a Mathemateg | 55.0 | 58.0 | 61.1 | Gwelliant | 63.3 |
| GY06 | Canran y disgyblion enillodd lefel 3 da neu uwch yng Nghyfnod Allweddol (CA) CA2 (7-11 oed) a gafodd asesiad athro yn y Gymraeg iaith gyntaf ar ddiwedd CA3 (11-14 oed) | - | 95.60 | 94.10 | Cynnal | 0.15 |

* = Ffigwr is yn welliant

**Sylwadau**

**EDU/008a** Gwelir bod cynnydd yn nifer y gwaharddiadau parhaol yn y cynradd. Un o brosiectau penodol y Strategaeth i newid y maes Anghenion Dysgu Ychwanegol yw rhoi trefniadau newydd mewn lle o ran y ddarpariaeth Cynnal Ymddygiad
**EDU/008bN** Gwaharddiadau parhaol yn yr uwchradd wedi gostwng dros y tair blynedd diwethaf
**EDU/016a** Gwynedd yn 8fed safle yn genedlaethol. Cynllun Gweithredu Presenoldeb Cynradd wedi ei lunio er mwyn gwella'r perfformiad ar gyfer 2015/16. Canran presenoldeb hyd at 29 Chwefror 2016
**EDU/16b** Cynnydd da o ran presenoldeb uwchradd a Gwynedd yn y 4ydd safle yn genedlaethol. Canran presenoldeb hyd at 29 Chwefror 2016
**DANS06** Yn gyffredinol, mae perfformiad cymharol Gwynedd wedi bod yn gyson dda yn y mwyafrif helaeth o'r prif ddangosyddion. 3ydd safle yn genedlaethol
**DANS07** Safle 1af yn genedlaethol
**DANS08** Cydradd 5ed safle yn genedlaethol
**DGD17** Data 2015 i'w gadarnhau
**EDU/004** Safle 1af yn genedlaethol. Mae'r data yn cadarnhau fod perfformiad ysgolion Gwynedd yn gyson dda iawn yng Nghyfnod Allweddol 3
**EDU/006ii** Cynnydd o 2%. Adroddir yn flynyddol ar y perfformiad yma i Lywodraeth Cymru drwy'r Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, sydd bellach yn gynllun statudol
**EDU/011** Yn gyffredinol, mae perfformiad cymharol Gwynedd wedi bod yn gyson dda yn y mwyafrif helaeth o'r prif ddangosyddion gyda perfformiad 2015 yn adeiladu ymhellach ar y gwelliannau welwyd rhwng 2013 a 2014.
**EDU/017** 5ed safle yn genedlaethol. Rhwng 2014 a 2015 gwelwyd cynnydd yn y TL2+, sef prif ddangosydd CA4. Mae codi safonau Saesneg a Mathemateg yn CA4 wedi eu hadnabod fel mesurau sydd angen eu gwella ac wedi eu cynnwys yng Nghynllun Busnes Atodol GwE
**GY06** Data i'w gadarnhau.



| Cyf. | Mesur Cyflawni | 2012 -13 | 2013 -14 | 2014 -15 | Cyfeiriad Uchelgais | Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaeth Ieuenctid** | | | | | | |
| **IEU** | Nifer o achrediadau mae pobl ifanc yn eu derbyn trwy'r gwasnaeth Ieuenctid | - | - | 930.0 | Gwelliant | 2,059 |

**Sylwadau**
**IEU** 533 o achrediadau Cenedlaethol wedi'i cwblhau trwy'r Gwasanaeth Ieuenctid yn cynnwys Gwobr Dug Caeredin & Agored Cymru. 1516 achrediad/ tystysgrif lleol yn cynnwys Prifysgol Plant a Gwobr John Muir

| **Gwasanaeth Hamdden** | | 2012 -13 | 2013 -14 | 2014 -15 | Cyfeiriad Uchelgais | Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| HAM 1 | Nifer o ymweliadau i ganolfannau hamdden fesul 1000 y pen o'r boblogaeth | - | 1206 | 1341 | Bodlon gweld gostyngiad | Mesur Blynyddol |
| HAM 2 | Canran o ddefnyddwyr canolfannau hamdden sy'n fodlon hefo'r gwasnaeth | - | - | 77% | Gwelliant | Mesur Blynyddol |
| HAM 3 | Canran y plant sy'n 11 oed ac wedi cyrraedd Safon y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer nofio | - | 80% | 78% | Gwelliant | 80% |

**Sylwadau**
**HAM 1** Data i'w gyflwyno diwedd mis Mawrth 2016
**HAM 2** Data i'w gyflwyno ddiwedd mis Mawrth 2016
**HAM3** Mae hwn yn fesurydd cendlaethol sy'n edrych I sicrhau bod pob plentyn yn gallu bod pob plentyn yn gallu bod yn ddiogel wrth ochr dwr ac yn gallu nofio yn 11 oed. Mae hwn yn perfformio'n

* = Ffigwr is yn welliant

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| dda. | | | | | | |
| **Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd** | | **2012 -13** | **2013 -14** | **2014 -15** | **Cyfeiriad Uchelgais** | **Gwybodaeth Ddiweddaraf** |
| Diogelu 7 | Canran o gynadleddau achos lle bu glywed llais/ barn y plentyn (ac eithro plant o dan 7 oed) | - | 81% | 83% | Cynnal | 90% |
| LLes PMG1 | Cynllun Trosiannol wedi ei gytuno ar gyfer plant anabl yn 16 oed | - | 100% | 100% | Cynnal | 100% |
| Lles PMG 2 | Cynllun llwybr clir wedi ei gytuno ar gyfer plant mewn gofal | - | 100% | 100% | Cynnal | 99% |
| SCC/004 | Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi cael tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn | - | 4.9% | 6.2% | Cynnal | 1.0% |
| SCC/030 (a) | Canran y gofalwyr ifanc y mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymwybodol ohonynt a gafodd eu hasesu | - | 100% | 100% | Cynnal | 100% |
| SCC/041(b) | Canran y plant cymwys, perthnasol a phlant a fu'n berthnasol sydd wedi cael cynghorydd personol wedi'i ddyrannu iddynt | - | 100% | 100% | Cynnal | 100% |
| SCC/024 | Canran y plant sy'n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn a chanddynt Gynllun Addysg Bersonol o fewn 20 diwrnod ysgol i dderbyn gofal neu hymuno ag ysgol newydd yn ystod y flwyddyn | - | 86.5% | 82.1% | Gwelliant | 26.1% |
| SCC/025 | Canran yr ymweliadau statudol a phlant sy'n derbyn gofal oedd yn fod i gael eu cynnal yn ystod y flwyddyn a'u cynhaliwyd yn unol a'r rheoliadau | - | 83.7% | 89% | Gwelliant | 84.4% |
| SCC/033 (f) | Canran y bobl ifanc oedd yn arfer derbyn gofal ac mae'r awdurdod mewn cysylltiad a nhw, ac yn gwybod eu bod yn derbyn addysg, hyfforddiant neu sy'n gweithio pan yn 19 oed | - | 66.7% | 52.9% | Gwelliant | 100% |
| SCC/041 (a) | Canran y plant cymwys, perthnasol a phlant a fu'n berthnasol, a chanddynt gynlluniau llwybr yn ôl yr angen | - | 100% | 100% | Cynnal | 99% |
| Diogelu 1 | Cyfradd y plant a gafodd eu trafod mewn goruchwyliaeth, lle rhoddwyd ystyriaeth i niwed arwyddocaol | - | 100% | 100% | Cynnal | 100% |
| BC01 | Asesiad SOGS (Schedule Of Growing Skills) 2 oed canran plant Dechrau'n Deg yn cyrraedd eu norm neu yn uwch na'u norm datblygiadol | - | - | - | Cyfeiriad I'w osod | 52% |
| BC02 | Asesiad SOGS 3 oed Canran Plant Dechrau'n Deg yn cyrraedd eu norm neu yn uwch na'u norm datblygiadol | - | - | - | Cyfeiriad I'w osod | 49% |
| BC03 | Canran presenoldeb plant sy'n 2 oed yn Dechrau'n Deg | - | - | - | Cyfeiriad I'w osod | 85% |
| BC04 | Nifer o'r pecynnau cymorth uwch rhiantu sy'n arwain at deithio pellter cadarnhaol | - | - | - | Cyfeiriad I'w osod | 64% |
| Diogelu 2 | Cyfradd yr asesiadau risg a gafodd eu cyflwyno i Gynadleddau Achos a oedd yn cael eu hystyried yn rhai a oedd yn dangos ansawdd wrth wneud penderfyniadau | - | - | - | Cyfeiriad I'w osod | 95% |

* = Ffigwr is yn welliant

**Sylwadau**
**Diogelu 7** Mae gwaith wedi'l wneud i geisio diffinio beth yw barn plentyn. Penderfynwyd nad oedd yn bosib cynnwys plant sydd o dan 7 oed
**Lles PMG1** Dim ond un plentyn anabl (16 oed) mewn gofal sydd wedi ei adnabod yn ystod y flwyddyn. Mae'r plentyn yn agored i Dim Derwen ac mae cynllun trosiannol ar ei gyfer
**Lles PMG2** Un person ifanc heb gynllun llwybr wedi ei gychwyn gan weithiwr cymdeithasol
**SCC/004** 36 o blant wedi bod mewn 2 leoliad gyda at 31/12/15. Mae'r gwasanaeth wedi adnabod un plentyn fydd yn newid lleoliad yn y chwarter nesaf. Disgwylir i'r perfformiad fod o fewn y targed blynyddol. Dau o blant wedi symud I drydydd lleoliad yn chwarter 3. Un plentyn wedi ei leoli adref gyda'i fam a phlentyn arall wedi symud i leoliad maeth yng Ngwynedd.
**SCC/030 (a)** Perfformio yn dda
**SCC/041 (b)** Perfformio yn dda. Mae pob person ifanc sy'n derbyn gwasanaeth ol-ofal gyda chynghorydd personol ar gael iddynt
**SCC/024** Cytundeb rhwng adran plant ac adran addysg I adnabod os oes meysydd i wella'r broses rhannu data
**SCC/033 (f)** Cohort bychan iawn o o bum person ifanc yn y chwarter. Un person ifanc ar brosiect 'symud ymlaen', tri mewn addysg bellach ac un yn gweithio llawn amser ar eu penblwydd yn 19 oed.
**SCC/041 (a)** Un person ifanc heb gynllun llwybr wedi ei gychwyn gan y gweithiwr cymdeithasol. Nid oedd y person ifanc wedi trosglwyddo i dim 16+
**Diogelu 1** Perfformio yn dda. Gwaith yn cael ei ymestyn i dimoedd eraill ar draws Gwynedd yn y chwarter nesaf.
**BC01** 75 o blant wedi ei hasesu o fewn y ffram amser. 39 wedi cyrraedd eu norm neu'n uwch. 24 o blant o dan eu norm; 12 o blant mwy nag un sgor o dan eu norm
**BC02** 73 o blant wedi eu hasesu o fewn y fram amser. 36 wedi cyrraedd eu norm neu'n uwch; 21 o blant o dan eu norm; 16 o blant mwy nag un sgor o dan eu norm
**BC03** Perfformio'n dderbyniol
**BC04** Nifer o'r pecynnau oedd yn arwain at bellter cadarnhaol yn y tymor ydi 14



## Mesurau Cynllunio Ariannol

Nodir fod y wybodaeth ddiweddaraf ar gyfer y mesurau yn nodi cynnydd i ddiwedd mis Rhagfyr 2015 gyda'r wybodaeth ar gyfer y blynyddoedd blaenorol hefyd ar gyfer yr un cyfnod (oni nodir yn wahanol) er mwyn gallu cymharu.

| Cyf. | Mesur Cyflawni | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | Cyfeiriad Uchelgais | Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaeth Cyllid a Chyfrifeg** | | | | | | |
| CD5.05 | Cynhyrchu adroddiadau monitro ariannol chwarterol i'r Rheolwyr Cyllidebau, Grŵp Arweinyddiaeth, Arweinyddion Portffolio, Cabinet a Phwyllgor Archwilio | Ia | Ia | Ia | Cynnal | Ia |
| CD5.08 | Cynhyrchu a chwblhau Cyllideb y Cyngor yn flynyddol ac yn unol â'r amserlen benodol a phenodedig i gyrraedd y camau allweddol angenrheidiol | - | - | Ia | Cynnal | Ia |
| CD5.09 | Cwblhad o'r Cyfrifon Terfynol a'r gofynion perthnasol i gynhyrchu Datganiad o'r Cyfrifon Drafft a sicrhau cymeradwyaeth o'r Datganiad o'r Cyfrifon terfynol | - | - | Do | Cynnal | Do |
| CD5.14 | Cwblhau Datganiad o'r Cyfrifon ar gyfer y 3 Cyd-Bwyllgorau y mae Cyngor Gwynedd yn arwain arnynt (o ran yr ochr Gyllid) ac hefyd ar gyfer y 4 Harbwr. Cynhyrchu Datganiad o'r Cyfrifon Drafft a sicrhau cymeradwyaeth o'r Datganiad o'r Cyfrifon terfynol | - | - | Do | Cynnal | Do |
| CD5.15 | Gwirio a monitro perfformiad cynlluniau arbedion a thoriadau y Cyngor | - | - | Do | Cynnal | Do |
| CD5.01 | Llwyddiant i gadw o fewn y gyllideb | -0.03 | -0.14 | 0.18 | Cynnal* | Blynyddol |
| CD5.12 | Bodlonrwydd Adrannau a Gwasanaethau hefo'r gwasanaeth a chefnogaeth cyllid a chyfrifeg a dderbynnir | - | 4.3 | 4.32 | Cynnal | Blynyddol |
| CD5.13 | Bodlonrwydd y Grwp Arweinyddiaeth hefo'r gwasanaeth cyllid a chyfrifeg a roddir i'r Cyngor yn gorfforaethol | - | 4.1 | 4 | Cynnal | Blynyddol |

* = Ffigwr is yn welliant

**Sylwadau**

CD5.05 Perfformiad yn unol â'r uchelgais. Yn ystod chwarter 3, adroddwyd ar Chwarter 2, gan gynnwys i'r Cabinet 24/11/15 ac i'r Pwyllgor Archwilio 1/1/15.
CD5.08 Wedi cwblhau y camau allweddol yn ystod Chwarter 3, gyda'r bwriad o gwblhau Rhan 2 a 3 o'r Gyllideb yn ystod Chwarter 4, yn unol â'r amserlen.
CD5.09 Wedi cwblhau'r Datganiad o'r Cyfrifon yn derfynol erbyn y dyddiad statudol o 30/09/15.
CD5.14 Wedi cwblhau'r Datganiad o'r Cyfrifon yn derfynol ar gyfer y 3 cyd-bwyllgor y mae Gwynedd yn arwain yn ariannol arnynt, a chwblhau cyfrifon y 4 Harbwr erbyn y dyddiad statudol o 30/9/15.
CD5.15 Y gwaith o wirio'r cynlluniau yn digwydd yn barhaus.
CD5.01 Mesurydd Blynyddol. Ffigyrau 2014/15 bellach yn derfynol, a'r gwir ffigyrau gyfystyr â 0.18% felly o fewn yr uchelgais o 0.40%. Rhagwelir o'r ffigyrau diweddaraf y bydd sefyllfa ariannol 2015/16 hefyd o fewn yr uchelgais.

| Gwasanaeth Taliadau Credydwyr | | 2012 -13 | 2013 -14 | 2014 -15 | Cyfeiriad Uchelgais | Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CD6.01 | Canran yr anfonebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod (ar draws y Cyngor) | 91 | 94 | 94 | Cynnal | 93 |

**Sylwadau**

CD6.01 Wedi llithro 1% yn is na'r uchelgais, ond cynnydd ers perfformiad Chwarter 2 yn dilyn ymgyrch lythyru i'r Penaethiaid i hyrwyddo pwysigrwydd prosesu anfonebau yn amserol.

| Gwasanaeth Cyflogau | | 2012 -13 | 2013 -14 | 2014 -15 | Cyfeiriad Uchelgais | Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CD8.07 | Nifer achosion sydd yn arwain at addasiad pellach yn y cyflog. | - | - | - | - | 168 |
| CD8.08 | Nifer gweithwyr sydd yn cysylltu ynglyn â'r broses talu cyflogau o fewn y Cyngor. | - | - | - | - | 45 |
| CD8.09 | Sicrhau taliadau cywir o fewn y gofyniad amser i gyrff allanol (fel Cyllid a Thollau ei Mawrhydi). | - | - | - | - | 100 |

**Sylwadau**

CD8.07 Addasiadau allan o 20,352 taliadau yn y chwarter (0.0083%)
CD8.08 25 allan o'r galwadau yma oherwydd achos o fewn yr uned Gyflogau.
CD8.09 Holl daliadau allanol wedi eu gwneud o fewn yr amser priodol.

| Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth | | 2012 -13 | 2013 -14 | 2014 -15 | Cyfeiriad Uchelgais | Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| TG01 | Canran yr argaeledd rhwydwaith | 100 | 99.7 | 99.99 | Cynnal | 99.9 |
| TG02 | Canran yr argaeledd Safle We Cyhoeddus | 99.85 | 99.77 | 99.39 | Cynnal | 99.98 |
| TG05 | Cyfartaledd sgor bodlonrwydd defnyddwyr gyda'r Ddesg Gymorth | - | 4.76 | 4.8 | Cynnal | 4.8 |
| TG16 | Canran o systemau datblygol gan yr uned sydd wedi cwrdd â gofynion y cwsmer | - | - | - | - | Mesur newydd - trefniadau yn cael eu gosod |
| TG17 | Canran o staff a oedd yn fodlon neu'n fodlon iawn gyda'r gwasanaeth sy'n cael ei roi gan y gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth | - | - | - | - | Mesur newydd |
| TG18 | Canran o staff a oedd yn fodlon neu'n fodlon iawn gyda cyfarpar Technoleg Gwybodaeth sy'n cael ei ddefnyddio | - | - | - | - | Mesur newydd |

**Sylwadau**

TG02 Mae'r argaeledd yn parhau i fod yn uchel. Dim cynnal a chadw wedi ei gynllunio yn Ch3 a dim digwyddiad o nôd.
TG05 208 holiadur wedi mynd allan, 83 wedi ymateb. Neb wedi ateb "anhapus" neu "anhapus iawn". Tri wedi ateb "naill ai'n hapus na'n anhapus". Y gweddill wedi ateb "hapus" neu "hapus iawn".

* = Ffigwr is yn welliant

| Gwasanaeth Incwm | | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | Cyfeiriad Uchelgais | Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CD7.02 | Gwerth holl ddyledion amrywiol dros 6 mis oed (ac eithrio taliadau gohiriedig a dyledion a gyfeirwyd am weithrediad pellach i wasanaethau eraill). | 1,324,657 | 1,408,046 | 1,023,768 | Gwelliant* | 1,022,023 |
| CD7.05 | Cyfradd casglu dyledion amrywiol o fewn y chwarter – Gwerth | 83.52 | 77.4 | 84.32 | Cynnal | 74.07 |
| CD7.06 | Canran o ddyledion ble daethpwyd i gytundeb talu gyda'r dyledwr | - | 10.42 | 10.8 | Cynnal | 11.78 |

**Sylwadau**

CD7.02 Nid yw'r perfformiad ar gyfer Chwarter 3 yn cyrraedd yr uchelgais. Rhagwelir bydd y perfformiad yn gwella erbyn diwedd Chwarter 4.

CD7.05 Nid yw'r perfformiad ar gyfer Chwarter 3 yn cyrraedd yr uchelgais ond mae'r ffaith fod anfoneb am £725K a godwyd yng nghyfnod 7 yn parhau yn daladwy ddiwedd y chwarter yn ystumio'r sefyllfa. (Talwyd yr anfoneb yn llawn ddechrau cyfnod 10). Rhagwelir bydd y perfformiad yn gwella erbyn diwedd Chwarter 4.

CD7.06 Mae'r perfformiad ar gyfer Chwarter 3 yn well na'r uchelgais.

| Gwasanaeth Trethi | | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | Cyfeiriad Uchelgais | Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CD11.01 | Cyfradd Casglu Treth Cyngor | 85.42 | 85.4 | 85.50 | Cynnal | 85.73 |
| CD11.02 | Cyfradd Casglu Trethi Annomestig | 87.36 | 88.7 | 87.57 | Cynnal | 87.90 |
| CD11.03 | Cyfanswm dyledion wedi eu dileu yn y tymor hir (3 mlynedd) fel canran o'r cyfanswm godwyd ar y cyfrifon tros yr un cyfnod | - | 0.46 | 0.52 | Cynnal* | 0.47 (Blynyddol) |

**Sylwadau**

CD11.01 Yn welliant ar y blynyddoedd blaenorol

CD11.02 Yn welliant ar y llynedd

CD11.03 Adroddir yn Chwarter 1 ar gyfer y flwyddyn a'r perfformiad yn foddhaol

| Gwasanaeth Budd-daliadau | | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | Cyfeiriad Uchelgais | Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CD12.03 | Cyfartaledd amser a gymerwyd i brosesu cais budd-dâl newydd (dyddiau) | 22.6 | 24.16 | 21.48 | Cynnal* | 16.95 |
| CD12.04 | Cyfartaledd amser a gymerwyd i brosesu hysbysiad newid mewn amgylchiadau (budd-dâl) (dyddiau) | 6.57 | 8.6 | 7.60 | Cynnal* | 6.27 |

**Sylwadau**

CD12.03 Rydym yn ffyddiog y byddwn yn gallu parhau i berfformio ar y lefel yma am Chwarter 4, a hefyd am y flwyddyn ganlynol.

CD12.04 Rydym yn ffyddiog y byddwn yn gallu parhau i berfformio ar y lefel yma am Chwarter 4, a hefyd am y flwyddyn ganlynol.

| Gwasanaeth Risg ac Yswiriant | | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | Cyfeiriad Uchelgais | Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CD4.01 | Amddiffyn budd ariannol y trethdalwr: canran o hawliadau atebolrwydd cyhoeddus a wadwyd (setlwyd am £0) gan yr Uned | 83.3 | 64.9 | 70.60 | Cynnal | 100.00 |
| CD4.02 | Amddiffyn budd ariannol y trethdalwr:canran o hawliadau atebolrwydd cyhoeddus a wadwyd (setlwyd am £0) gan yr Yswirwyr | 79.2 | 74.7 | 80.60 | Cynnal | 58.30 |
| CD4.06 | Canran o adrannau sydd â chofrestr risg sydd wedi ei adolygu 2 waith y flwyddyn | 55 | 100 | 100 | Cynnal | Blynyddol |

**Sylwadau**

CD4.01 Wedi newid ffordd o fesur. Defnyddio y chwarter olaf sef 1.10.15-31.12.15 yn hytrach na'r flwyddyn at 31.12.15. 7 hawliad wedi cau ac wedi ei amddiffyn yn llwyddiannus.

CD4.02 Wedi newid ffordd o fesur. Defnyddio y chwarter olaf sef 1.10.15-31.12.15 yn hytrach na'r flwyddyn at 31.12.15. 12 hawliad wedi cau a 7 wedi ei amddiffyn yn llwyddiannus.

* = Ffigwr is yn welliant

CD4.06 Mesurydd blynyddol. Byddwn yn adrodd ar ddiwedd Chwarter 4.

| Gwasanaeth Archwilio Mewnol | | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | Cyfeiriad Uchelgais | Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CD2.02 | Cyfran o'r adroddiadau dilyniant Archwilio Mewnol yn cyrraedd barn "Derbyniol" neu well (mesur corfforaethol) | 100 | 85 | 78.60 | Cynnal | 83.00 |
| CD2.03 | Canran archwiliadau yn y Cynllun Archwilio sydd unai wedi eu cau neu sydd ag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau. | 58.59 | 57.14 | 45.92 | Cynnal | 49.32 |
| CD2.09 | Canran o'r archwiliadau mewnol sydd yn cyrraedd barn "B" neu well | 81.80 | 75.00 | 81.10 | Bodlon gweld gostyngiad | 63.33 |

**Sylwadau**

CD2.02 6 archwiliad dilyniant wedi eu cwblhau hyd ddiwedd Chwarter 3 - ac un yn unig wedi derbyn barn "annerbyniol" gyda'r gweddill yn "dderbyniol"

CD2.03 Ychydig iawn yn fyr o'r uchelgais (proffil Chwarter 3)

CD2.09 19 allan o 30 wedi derbyn barn B neu well.

| Gwasanaeth Pensiynau | | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | Cyfeiriad Uchelgais | Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CD9.03 | Cyfartaledd nifer y ddyddiau gwaith a gymerwyd i anfon llythyr yn hysbysu gwerth buddion ymddeol - amcangyfrif. | 4.5 | 5.7 | 6.50 | Cynnal | 10.40 |
| CD9.04 | Cyfartaledd nifer y ddyddiau gwaith a gymerwyd i anfon llythyr yn hysbysu gwerth buddion ymddeol - gwir werth. | 2.5 | 5.1 | 6.70 | Cynnal | 5.70 |
| CD9.05 | Cyfartaledd nifer o ddyddiau gwaith a gymerwyd i gyflawni cyfrifiadau a thaliadau dibynyddion yn dilyn mawrolaeth aelod o'r cynllun. | 8.30 | 10.10 | 4.39 | Cynnal | 5.88 |

**Sylwadau**

CD9.03 Nifer ceisiadau yn parhau yn uchel. Toriadau staff Ynys Môn a'r Heddlu.

| Gwasanaeth Buddsoddi a Rheolaeth Trysorlys | | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | Cyfeiriad Uchelgais | Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CD13.05 | Cronfa Bensiwn - Perfformiad buddsoddi'r rheolwyr portffolio o'i gymharu â'r meincnod penodol a osodwyd ar eu cyfer. | 2 | 6.9 | 6.30 | Cynnal | -0.60 |
| CD13.06 | Diogelwch arian y Cyngor wrth adnau arian mewn banciau - dadansoddiad chwarterol gan Arlingclose o'r sgôr credyd (1 ydi'r gorau, sef statws credyd AAA, 2 ydi AA+, 3 ydi AA, 4 ydi AA-, 5 ydi A+, 6 ydi A, 7 ydi A-). | 5.31 | 5.55 | 3.49 | Cynnal | 3.29 |
| CD13.07 | Incwm llog ar adnau arian mewn banciau i'w mesur yn erbyn cyfradd 7 diwrnod LIBID heb ei compowndio | 0.92 | 0.56 | 0.70 | Cynnal | 0.7 |

**Sylwadau**

CD13.05 Roedd y perfformiad 1.05 yn well na'r meincnod dros y 9 mis cyntaf.

CD13.06 Sgôr trydydd chwarter. Sgor credyd gorau yw 1. Uchelgais yw 6 neu well (is).

CD13.07 Canran cyfartaledd am naw mis.

* = Ffigwr is yn welliant

## Mesurau Cyngor Effeithiol ac Effeithlon

| **Mesur- diffiniad** | **2012-13** | **2013-14** | **2014-15** | **Cyfeiriad Uchelgais** | **Gwybodaeth Ddiweddaraf** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol** | | | | | |
| CHR/002 Nifer o ddyddiau o absenoldeb salwch y pen | | | 6.09 | Gwelliant | 5.99 |
| CG23 Nifer o achosion cyflogaeth sy'n cael eu cyfeirio i sylw'r Pwyllgor Apelau Cyflogaeth, a'r nifer o apeliadau sy'n cael eu caniatáu gan y Pwyllgor hwnnw (h.y. mynd yn groes i benderfyniad gwreiddiol y cyflogwr). | | | | Gwelliant | 4 achos apêl 3 apêl wedi ei ganiatáu |
| **Gwasanaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant Adnoddau Dynol** | **2012-13** | **2013-14** | **2014-15** | **Cyfeiriad Uchelgais** | **Gwybodaeth Ddiweddaraf** |
| CG18 Nifer o ddamweiniau RIDDOR (ffigyrau ar gyfer y chwarter mewn cromfachau) | 51 (9) | 63 (6) | 48 (14) | Gwelliant * | 34 (7) |
| CG19 Nifer o ddamweiniau ar draws y Cyngor (ffigyrau ar gyfer y chwarter mewn cromfachau) | 1875 (665) | 1941 (712) | 2445 (868) | Cynnal | 1783 (460) |
| **Uned Gefnogol** | **2012-13** | **2013-14** | **2014-15** | **Cyfeiriad Uchelgais** | **Gwybodaeth Ddiweddaraf** |
| CG15 Cysylltu gyda'r ymgeiswyr i ofyn am adborth o sut brofiad oedd ymgeisio am swydd gyda'r Cyngor ac i adnabod os oes rhwystrau sydd wedi creu problemau di-angen (ac felly os oes modd ei diddymu) | - | - | - | Gwelliant | 80% yn fodlon gyda'r gwasanaeth |
| CG16 Cysylltu gyda Rheolwyr a staff perthnasol o fewn y Cyngor i ofyn am adborth am y gwasanaeth ac i adnabod y rhwystrau maent yn ei gael sydd yn creu problemau iddynt pan yn gwasanaethu pobl Gwynedd (ac felly os oes modd ei diddymu) | - | - | - | Gwelliant | 100% yn hapus gyda'r gwasanaeth |
| **Uned Cefnogol**<br>CG15 Wedi cychwyn casglu'r wybodaeth o'r 1af o Ragfyr '15 drwy ffonio'r ymgeiswyr (11) i ofyn am adborth - 80% yn fodlon gyda'r gwasanaeth, 10% heb gael adborth cyfweliad gan Reolwr a 10% ddim yn hapus gyda'r gweinyddiaeth. | | | | | |
| **Gwasanaeth Datblygu'r Gyfundrefn** | **2012-13** | **2013-14** | **2014-15** | **Cyfeiriad Uchelgais** | **Gwybodaeth Ddiweddaraf** |
| CG06 Canran o staff ar sail sampl sy'n teimlo bod y buddiannau y maent yn gallu manteisio arnynt gydag effaith positif ar eu bodlonrwydd gyda'r Cyngor fel cyflogwr | - | - | 62% | Cynnydd | 64% |
| **Dysgu a Datblygu** | **2012-13** | **2013-14** | **2014-15** | **Cyfeiriad Uchelgais** | **Gwybodaeth Ddiweddaraf** |
| CG01 Canran o staff (sampl) sy'n teimlo bod y ddarpariaeth dysgu yn eu helpu i roi gwasanaeth gwell i bobl Gwynedd. | - | - | - | Gosod Gwaelodlin | 88.5% |
| CG02 Canran o reolwyr (sampl) sy'n teimlo bod y ddarpariaeth dysgu yn helpu eu staff i roi gwasanaeth gwell i bobl Gwynedd. | - | - | - | Gosod Gwaelodlin | 93.4% |

* = Ffigwr is yn welliant

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| CG03 Canran o Aelodau (sampl) sy'n teimlo bod y ddarpariaeth dysgu yn eu helpu i gyflawni eu rôl i roi gwasanaeth gwell i bobl Gwynedd. | - | - | - | Gosod Gwaelodlin | 97% |
| **Dysgu a Datblygu**<br>CG01 Wedi gofyn i 25 o staff am sgôr /10: 1x 4/10, 1x 5/10, 1x 6/10, 3x 7/10, 12x 8/10, 4x 9/10, 3x 10/10.<br>CG02 Wedi gofyn i 14 o reolwyr am sgôr /10: 1x 5/10, 1x 6/10, 5x 7/10, 4x 8/10, 1x 9/10, 2x 10/10. | | | | | |
| **Tîm Arbedion** | **2012-13** | **2013-14** | **2014-15** | **Cyfeiriad Uchelgais** | **Gwybodaeth Ddiweddaraf** |
| Arb01 Swm arbedion effeithlonrwydd a gyflawnwyd fel canran o'r holl arbedion | - | - | - | Gwelliant | 98.9% |
| DT3.1b Swm arbedion a gyflawnwyd () | - | - | - | - | £6.1m |

| **Mesur- diffiniad** | **2012-13** | **2013-14** | **2014-15** | **Cyfeiriad Uchelgais** | **Gwybodaeth Ddiweddaraf** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Uned Gyfieithu** | | | | | |
| 1. Barn defnyddwyr ar ansawdd gwaith ysgrifenedig | - | - | 100% | Cynnal | 100% |
| 2. Barn defnyddwyr ar ansawdd gwaith cyfieithu ar y pryd | - | - | 100% | Cynnal | Dim diweddar ar gael |
| **Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad** | **2012-13** | **2013-14** | **2014-15** | **Cyfeiriad Uchelgais** | **Gwybodaeth Ddiweddaraf** |
| CytC03 Canran o'r swm a hawliwyd drwy'r Cytundeb Canlyniadau | £1.3m | £1.3m | £1.3m | Cynnal | Rhagolygon y bydd y cais yn llwyddiannus |
| **Cyfathrebu ac Ymgysylltu** | **2012-13** | **2013-14** | **2014-15** | **Cyfeiriad Uchelgais** | **Gwybodaeth Ddiweddaraf** |
| CG13 Cynlluniau Cyfathrebu ac Ymgysylltu: Sgôr allan o 10 a dderbynnir gan Uwch-reolwyr ar ddiwedd cynllun penodol i'r cwestiwn "I ba raddau mae'r gefnogaeth yr ydych wedi ei dderbyn gan yr Uned wedi eich cynorthwyo i ymgysylltu yn effeithiol gyda phobl Gwynedd?" | - | - | - | Gosod gwaelodlin | 10 |
| CG14 Bodlonrwydd Pobl Gwynedd gyda threfniadau cyfathrebu ac ymgysylltu'r Cyngor: Sgôr allan o 10 a dderbynnir gan aelodau Panel Trigolion Gwynedd mewn ymateb i'r cwestiwn "Ydach chi'n teimlo eich bod yn derbyn gwybodaeth amserol, dealladwy a pherthnasol gan Gyngor Gwynedd?" | - | - | - | Gosod gwaelodlin | Newydd |
| **Sylwadau**<br>CG13 - Mae'r Uned wedi rhoi trefn mewn lle i sefydlu: (i) yr allbwn a ddymunir ei gael o'r cynllun; (ii) yr effaith ar bobl Gwynedd.<br>Ar ddiwedd y prosiect bydd yr Uned yn: (I) adrodd yn nôl ar y canlyniadau; (ii) gwahodd sgôr allan o ddeg (iii) gwerthuso'r sylwadau a dderbynnir ac adnabod gwersi i'w dysgu er mwyn cryfhau a gwella'r gefnogaeth. Ers sefydlu'r drefn yn Chwarter 3 2015/16, mae adborth cadarnhaol wedi ei dderbyn i'r tri cynllun sydd bellach wedi eu cwblhau. | | | | | |

* = Ffigwr is yn welliant

| **Ymchwil a Dadansoddeg** | **2012-13** | **2013-14** | **2014-15** | **Cyfeiriad Uchelgais** | **Gwybodaeth Ddiweddaraf** |
|---|---|---|---|---|---|
| CG07 A wnaeth y cymorth eich helpu i gael budd i bobl Gwynedd? | - | - | - | Sefydlu gwaelodlin | 19 Do<br>3 Na |
| CG08 Ar ôl cael y cymorth, ydych chi rwan yn teimlo'n fwy hyderus wrth ddefnyddio gwybodaeth a thystiolaeth? | - | - | - | Sefydlu gwaelodlin | 13 Do<br>9 Na |

**Sylwadau**

CG07- Roedd y 3 "Na" yn ymwneud ag achosion lle 'roeddem wedi methu helpu: 1 oherwydd diffygion system Adnoddau Dynol bresennol; 1 oherwydd nad oedd gennym fynediad i'r data; ac 1 oherwydd diffyg capasiti. O ran gallu cofnodi mwy o achosion i'r dyfodol, byddwn yn:

- Sefydlu trefn gysylltu "dilyn i fyny" efo'r rhai sy'n arwain prosiectau mwy
- Sefydlu trefn lai beichus ar gyfer ymholiadau bach
- Gwella'r wybodaeth ar y safle gwe cyhoeddus, i geisio lleihau ymhellach y nifer o ymholiadau allanol

CG08 - Wrth edrych ar y rhesymau am y 9 "Na", mae 3 am yr un rhesymau â'r mesur 1af (uchod). O'r achosion eraill, roedd 3 lle 'roedd cyfyngiadau amser wedi golygu bod yr ymholydd wedi gofyn am gael yr wybodaeth yn syth, heb ymdrech i'w cynghori / uwch-sgilio.Yn y 3 achos arall, dywedodd yr ymatebydd eu bod yn deall yr hyn eglurwyd iddynt ar y pryd, ond mai anaml y byddent angen yr un wybodaeth yn y dyfodol, a peryg' na fyddent yn cofio'r hyn a gyflewyd erbyn hynny.

I geisio goresgyn hyn, rydym wedi trafod â Dysgu a Datblygu i roi cyfres o ganllawiau / fideos ar y Ddolen Dysgu i staff allu mynd yn ôl atynt.

Hefyd wedi trafod efo nhw cael gwybodaeth allan o'r drefn Gwerthuso Staff newydd, ynglŷn â'r wybodaeth a'r sgiliau mae staff yn teimlo maent eu hangen, er mwyn i ni allu darparu cyngor a hyfforddiant yn unol â'r angen.



| **Mesur- diffiniad** | **2012-13** | **2013-14** | **2014-15** | **Cyfeiriad Uchelgais** | **Gwybodaeth Ddiweddaraf** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaeth Cyfreithiol** | | | | | |
| 1. Canran o holiadur bodlonrwydd gan swyddogion cleient sydd yn sgorio'r gwasanaeth yn ardderchog neu yn dda. | - | 98% | 98% | Cynnal | 98% |
| 2. Cynnal Achrediad Lexcel | - | Cynnal | Cynnal | Cynnal | Wedi ei dderbyn |
| 3. Y gwasanaeth i gyrraedd anghenion safonau perfformiad Comisiwn Etholiadau ar gyfer Swyddog Canlyniadau mewn etholiad | - | Cyflawni | Cyflawni | Cynnal | Cyflawni |
| 4. Y gwasanaeth i gyrraedd anghenion safonau perfformiad Comisiwn Etholiadau ar gyfer Cofrestru Etholiadol | - | Cyflawni | Cyflawni | Cynnal | - |

## ATODIAD 2 – Categoreiddio Ysgolion Gwynedd 2015/16

### Categoreiddio Cenedlaethol

| | Gwynedd : Cynradd | Cam 1 | Cam 2 | Cam 3 |
|---|---|---|---|---|
| Dyffryn Ogwen | | | | |
| 1 | Bodfeurig | 3 | A | |
| 2 | Penybryn, Bethesda | 1 | A | |
| 3 | Llanllechid | 1 | A | |
| 4 | Rhiwlas, Bangor | 2 | B | |
| 5 | Abercaseg, Bethesda | 1 | A | |
| 6 | Tregarth | 1 | A | |
| Brynrefail | | | | |
| 1 | Gwaun Gynfi | 3 | B | * |
| 2 | Llanrug | 2 | C | |
| 3 | Bethel | 2 | A | |
| 4 | Cwm y Glo | 3 | B | |
| 5 | Dolbadarn | 2 | B | |
| 6 | Penisarwaun | 2 | B | * |
| 7 | Waunfawr | 3 | B | * |
| Dyffryn Nantlle | | | | |
| 1 | Bro Llifon | - | B | |
| 2 | Brynaerau | 2 | A | |
| 3 | Llanllyfni | 3 | B | |
| 4 | Baladeulyn | 3 | C | |
| 5 | Nebo | 3 | B | |
| 6 | Bro Lleu | 1 | A | |
| 7 | Talysarn | 2 | A | |
| Friars/Tryfan | | | | |
| 1 | Glanadda | 2 | C | |
| 2 | Glancegin | 2 | A | * |
| 3 | Babanod Coedmawr | 3 | C | |
| 4 | Garnedd | 2 | A | * |
| 5 | Felinheli | 2 | C | |
| 6 | Hirael | 3 | C | |
| 7 | Faenol | 1 | B | * |
| 8 | Llandygai | 2 | B | * |
| 9 | Cae Top | 2 | A | * |
| 10 | Ein Harglwyddes | 4 | B | |
| Syr Hugh Owen | | | | |
| 1 | Gelli | 2 | B | |
| 2 | Felinwnda | 2 | B | * |
| 3 | Rhosgadfan | 3 | C | |
| 4 | Rhostryfan | 3 | B | |
| 5 | Hendre | 3 | B | |
| 6 | Bontnewydd | 3 | A | |
| 7 | Maesincla | 1 | B | * |
| 8 | Llandwrog | 3 | B | * |
| 9 | Santes Helen | 4 | C | |
| Tywyn | | | | |
| 1 | Craig y Deryn | 4 | B | |
| 2 | Dyffryn Dulas | 1 | B | |
| 3 | Penybryn | 3 | B | |
| 4 | Pennal | 3 | B | |
| Gader | | | | |
| 1 | Clogau | 2 | B | |
| 2 | Brithdir | 2 | A | |
| 3 | Dinas Mawddwy | 3 | B | |
| 4 | Ganllwyd | 4 | B | |
| 5 | Llanelltyd | 4 | B | |

## ATODIAD 2 – Categoreiddio Ysgolion Gwynedd 2015/16

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 6 | Ieuan Gwynedd | 3 | A | |
| 7 | Friog | 3 | B | |
| 8 | Machraeth | 1 | B | |
| 9 | Dolgellau | 2 | B | |
| Moelwyn | | | | |
| 1 | Bro Cynfal | 3 | B | |
| 2 | Edmwnd Prys | 3 | B | |
| 3 | Manod | 2 | A | |
| 4 | Tanygrisiau | 2 | B | |
| 5 | Bro Hedd Wyn | 3 | B | |
| 6 | Maenofferen | 2 | A | |
| Berwyn | | | | |
| 1 | Bro Tegid | 2 | B | # |
| 2 | O.M.Edwards | 1 | A | |
| 3 | Bro Tryweryn | 1 | A | |
| 4 | Ffridd y Llyn | 3 | A | * |
| 5 | Beuno Sant | 3 | B | |
| Ardudwy | | | | |
| 1 | Traeth | 3 | B | * |
| 2 | Dyffryn Ardudwy | 4 | C | |
| 3 | Llanbedr | 3 | C | |
| 4 | Garreg | 3 | B | * |
| 5 | Cefn Coch | 1 | B | * |
| 6 | Talsarnau | 3 | B | # |
| 7 | Tan y Castell | 2 | B | |
| Glan y Mor | | | | |
| 1 | Abererch | 2 | B | * |
| 2 | Chwilog | 1 | B | |
| 3 | Bro Plenydd | 2 | B | * |
| 4 | Llanaelhaearn | 4 | C | |
| 5 | Llanbedrog | 2 | B | * |
| 6 | Llangybi | 1 | B | |
| 7 | Pentreuchaf | 3 | A | * |
| 8 | Eifl | 2 | C | |
| 9 | Cymerau | 2 | B | |
| Botwnnog | | | | |
| 1 | Nefyn | 3 | B | |
| 2 | Abersoch | 1 | B | |
| 3 | Crud y Werin | 2 | C | |
| 4 | Edern | 2 | B | * |
| 5 | Babanod Morfa Nefyn | 1 | A | |
| 6 | Sarn Bach | 3 | A | * |
| 7 | Tudweiliog | 1 | B | * |
| 8 | Pont y Gof | 2 | A | |
| 9 | Foelgron | 2 | B | |
| Eifionydd | | | | |
| 1 | Beddgelert | 2 | A | * |
| 2 | Borth y Gest | 3 | B | |
| 3 | Treferthyr | 3 | B | |
| 4 | Garndolbenmaen | 1 | B | |
| 5 | Eifion Wyn | 1 | A | |
| 6 | Gorlan | 3 | B | |
| 7 | Llanystumdwy | 4 | B | * |
| Ysgolion Arbennig | | | | |
| 1 | Pendalar | - | B | * |
| 2 | Hafod Lon | - | A | |

| | Gwynedd : Uwchradd | Cam 1 | Cam 2 | Cam 3 |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Ardudwy | 1 | B | |

## ATODIAD 2 – Categoreiddio Ysgolion Gwynedd 2015/16

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2 | Berwyn | 2>3 | C | |
| 3 | Botwnnog | 3 | C | |
| 4 | Brynrefail | 1 | B | |
| 5 | Dyffryn Nantlle | 2 | D | |
| 6 | Dyffryn Ogwen | 1 | A | |
| 7 | Eifionydd | 2 | C | |
| 8 | Friars | 2 | B | |
| 9 | Gader | 3 | D | |
| 10 | Glan y Mor | 2 | B | |
| 11 | Moelwyn | 2>3 | B | * |
| 12 | Syr Hugh Owen | 2>3 | C | |
| 13 | Tryfan | 1>3 | B | * |
| 14 | Tywyn | 1 | B | |

*Melyn cadarn